Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Canllaw i Ymadawyr Ysgol

2021/22

# Nosweithiau agored

Dysgwch ragor am y cyrsiau sydd o ddiddordeb i chi, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr.

## Campws Gorseinon: 5.30-7.30pm

Nos Lun 9 **Tachwedd** 2020
Nos Lun 11 **Ionawr** 2021
Nos Lun 8 **Mawrth** 2021

## Campws Tycoch: 5.30-7.30pm

Nos Lun 16 **Tachwedd** 2020
Nos Lun 18 **Ionawr** 2021
Nos Lun 15 **Mawrth** 2021

## Campws Llwyn y Bryn: 5.30-7.30pm

Nos Fawrth 17 **Tachwedd** 2020
Nos Fawrth 19 **Ionawr** 2021
Nos Fawrth 16 **Mawrth** 2021

## Llys Jiwbilî: 5.30-7.30pm

Nos Fercher 11 **Tachwedd** 2020
Nos Fercher 10 **Mawrth** 2021

Sylwch, oherwydd Covid-19, mae'n bosibl y bydd ein nosweithiau agored yn cael eu cynnal yn rhithwir.

Cadwch lygad ar ein gwefan neu'r cyfryngau cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**gcs.ac.uk/cy/open-evenings**
**gcs.ac.uk/cy/coronavirus-updates**

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C010353

*Mae'r holl fanylion yn gywir adeg cyhoeddi - Hydref 2020.*

## Cynnwys

**01** Croeso
**02-05** Storïau llwyddiant
**06** Defnyddio'ch Cymraeg
**07-08** Cyngor a chymorth
Sgiliau Byw'n Annibynnol
Bagloriaeth Cymru
Cymorth ariannol
Cludiant
**09-10** Bywyd myfyrwyr
**11-12** Chwaraeon
**13-14** Dechrau eich taith



Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ffoniwch 01792 284000.

## Cyrsiau Safon Uwch


15-16 Darpariaeth linol
Gofynion mynediad safonol
Ailsefyll arholiadau TGAU
Canlyniadau

17 Cymorth tiwtorial
Ceisiadau i astudio meddygaeth
Rhaglen i Baratoi ar gyfer Rhydgrawnt
HE+
Rhwydwaith Seren

18-19 Celfyddyd Gain
Cyfathrebu Graffig
Ffotograffiaeth
Dylunio Tecstilau

20-21 Cyfrifeg
Y Gyfraith
Astudiaethau Busnes
Troseddeg (Tystysgrif/Diploma Lefel 3)
Economeg

22 Cyfrifiadureg
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

22 Electroneg

23-24 Saesneg Iaith
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
Saesneg Llenyddiaeth

24 Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

25-26 Hanes yr Hen Fyd
Gwareiddiad Clasurol
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Hanes
Astudiaethau Crefyddol

27 Ffrangeg
Sbaeneg
Cymraeg - Ail Iaith

28-30 Mathemateg
Mathemateg Bellach
Bioleg
Cemeg
Daeareg
Ffiseg

30 Astudiaethau'r Cyfryngau

31 Cerddoriaeth
Technoleg Cerdd

32 Dawns
Drama

33-34 Daearyddiaeth
Seicoleg
Cymdeithaseg

34 Addysg Gorfforol


## Cyrsiau Galwedigaethol


35-36 Cymorth tiwtorial
Cyrff dyfarnu
Gofynion mynediad safonol
Ailsefyll arholiadau TGAU
Canlyniadau

37 Dilyniant i AB

37-40 Celf a Dylunio

41-42 Busnes

43-44 Arlwyo a Lletygarwch

45-46 Cyfrifiadura a Thechnoleg

47-48 Adeiladu a Phlymwaith

49 Y Cyfryngau Creadigol

50-51 Peirianneg Electronig

52 Gosodiadau Trydanol

53-54 Peirianneg – Drydanol a Mecanyddol

54-56 Gwallt, Harddwch a Holisteg

57-59 Iechyd a Gofal Plant

60-61 Cerbydau Modur

62 Cerddoriaeth

63-65 Y Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu yn y Theatr

66 Gwasanaethau Cyhoeddus

67 Gwyddoniaeth

68-69 Chwaraeon

70 Teithio a Thwristiaeth


## Prentisiaethau


71-72 Cyflwyniad
Gofynion mynediad safonol
Llwybrau prentisiaeth

73 Busnes a Chyfrifeg

74 Cyfrifiadura a Thechnoleg

75-76 Adeiladu a Phlymwaith

77 Trydanol a Pheirianneg

78 Electroneg

79 Trin Gwallt

79-80 Iechyd a Gofal Plant

80 Cerbydau Modur

81 Gwyddoniaeth


**Methu gweld yr hyn rydych yn chwilio amdano?** Rydym hefyd yn cynnig:

### Mynediad i AU
Mae'r cyrsiau hyn yn addas i'r rhai sy'n 18 oed neu hŷn a byddant yn eich paratoi ar gyfer mynediad i addysg uwch.

**gcs.ac.uk/cy/access**

### Addysg uwch
Rydym yn cynnig cyrsiau Gradd, Gradd Sylfaen, Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) a chymwysterau proffesiynol mewn nifer o feysydd pwnc.

**gcs.ac.uk/cy/higher-education**

### Cyrsiau rhan-amser
Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol.

**gcs.ac.uk/cy/part-time**

### Hyfforddiant busnes
Rydym yn cynnig atebion i gyflogwyr sydd am gael y gorau allan o'u staff.

**gcs.ac.uk/cy/GCS-Training**




# Croeso

Os ydym wedi dysgu unrhyw beth o heriau 2020, pwysigrwydd addysg yw hwnnw. Dewis beth rydych am ei astudio ar ôl gadael yr ysgol yw un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch yn ei wneud, a gwyddom fod darpar fyfyrwyr a'u rhieni yn **seilio'r penderfyniadau hyn ar dri ffactor** ac mae pob un o'r rhain yn gryfderau cydnabyddedig yn y Coleg hwn:

1. **Dewis** ac amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael
2. **Ansawdd** yr addysgu a chanlyniadau ein myfyrwyr
3. Y **cyfleoedd** ar gyfer dilyniant ar ôl cwblhau'r cwrs.

Gall astudio mewn coleg mawr gynnig llawer o fanteision i bob un o'n myfyrwyr o ran dewis. Yng Ngholeg Gŵyr Abertawe mae'r rhain yn cynnwys dros 40 o bynciau Safon Uwch a 40 o bynciau galwedigaethol ar amryw o lefelau. Ond nid yw'r maint mwy hwn yn golygu ein bod yn cyfaddawdu ar ansawdd ein cyrsiau na'r profiadau y mae ein myfyrwyr yn eu mwynhau, ac mae maint dosbarthiadau yn parhau i gydfynd â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r maint mwy hefyd yn golygu bod mwy o gyfleoedd i symud ymlaen p'un ai i brifysgol flaenllaw, prentisiaeth, gyrfa neu hyd yn oed symud ymlaen i gwrs lefel uwch yn y Coleg - ac wrth wneud hynny gallwch ddilyn y miloedd o fyfyrwyr sydd wedi dilyn yr holl lwybrau hyn o'ch blaen.

Gallwch fod yn sicr am ansawdd yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Mae gennym un o'r enwau gorau yng Nghymru am safon uchel y dysgu a'r addysgu - nid yn unig ar gyfer cyrsiau Safon Uwch ond ar draws ein darpariaeth alwedigaethol hefyd, ac mae cyflawniadau ein myfyrwyr heb eu hail.

Yn 2020, roedd dros 1,000 o'n myfyrwyr wedi symud ymlaen i'r brifysgol gyda dim llai nag 11 myfyriwr yn symud ymlaen i Rydychen neu Gaergrawnt. Ond roedd myfyrwyr galwedigaethol y llynedd yr un mor llwyddiannus gyda dim llai na 15 o fyfyrwyr - ar draws 12 maes galwedigaethol gwahanol - yn ennill aur yng nghystadleuaeth ragbrofol Sgiliau'r DU yn ddiweddar. Mae gennym hefyd bum myfyriwr yng ngharfan y DU ar gyfer y gystadleuaeth WorldSkills sydd ar ddod yn Shanghai.

Ein nod yw helpu ein holl fyfyrwyr i gyflawni eu potensial unigol. A dyma lle mae **Gwarant Coleg Gŵyr Abertawe** yn chwarae rhan, gan sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael cymorth unigol ar un o **bum llwybr dilyniant** ar ôl iddynt orffen eu cwrs:

1. **Cynnig i brifysgol yn y DU**
2. **Cwrs addas arall yn y Coleg**
3. **Cyflogaeth**
4. **Prentisiaeth sy'n gysylltiedig ag anghenion Abertawe a rhanbarth de-orllewin Cymru**
5. **Cymorth cyflogadwyedd personol i'w helpu i gael swydd.**

Rydym bob amser yma i'ch helpu i wneud y penderfyniadau hyn ac felly mae croeso i chi gysylltu â ni.



**Mark Jones**
Pennaeth a Phrif Weithredwr

### Covid-19

Rydym yn gwybod bod Covid-19 yn cael effaith ar fywydau ledled y byd ac rydym yn deall eich bod yn debygol o boeni ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar astudio yn y Coleg.

Gallwn eich sicrhau ein bod yn cymryd yr holl ragofalon angenrheidiol, gan ddilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau ein bod yn parhau i gynnig y profiad dysgu gorau o safon uchel i chi a fydd yn cael ei ddarparu drwy addysgu wyneb i wyneb ar ein holl gampysau. Darllenwch ein tudalen we bwrpasol i gael y diweddaraf.

**gcs.ac.uk/cy/coronavirus-updates**

# Storïau llwyddiant



Mae 23 o fyfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe wedi ennill medalau fel rhan o'r set ddiweddar o ddigwyddiadau **CystadleuaethSgiliauCymru.**

Mae CystadleuaethSgiliauCymru yn cynnwys cyfres o gystadlaethau sgiliau lleol, sydd wedi'u halinio â WorldSkills ac anghenion economi Cymru. Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei rhedeg gan rwydwaith pwrpasol o golegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau dan arweiniad cyflogwyr.






## Aur

- David Kennedy - Electroneg Ddiwydiannol
- Llewellyn Bowmer - Sgiliau Cynhwysol: Gwasanaethau Bwyty
- Connor Trehar - Gwasanaethau Bwyty
- Megan Tucker - Ymarferydd Therapi Harddwch
- Karolis Lisauskas - Diogelwch Rhwydweithiau TG
- Alannah Thorne - Cynhyrchu Fideo Digidol
- Jasmine Eagles - Cerddoriaeth Boblogaidd
- Dylan Hodgon - Cerddoriaeth Boblogaidd
- Alexa Jones-Young - Cerddoriaeth Boblogaidd
- Matthew Thirwell - Cerddoriaeth Boblogaidd
- Eleri Van Block - Cerddoriaeth Boblogaidd
- Wiktoria Gebka - Technoleg Ffasiwn
- Leah Jones - Marchnata Gweledol
- Callum East - Sgiliau Cynhwysol: Y Cyfryngau
- Nathan Phillips - Sgiliau Cynhwysol: Y Cyfryngau

## Arian

- William Sabatia - Gwaith Coed
- Marcus Drennan - Electroneg Ddiwydiannol
- James Frew - Diogelwch Rhwydweithiau TG

## Efydd

- Erin Doek - Gwyddor Fforensig
- Leon Harris - Gwyddor Fforensig
- Joshua James - Sgiliau Codio
- Nathan Akerman - Diogelwch Rhwydweithiau TG
- Laurie Pennock - Dylunio Graffig

# WorldSkills

Mae pum myfyriwr o Goleg Gŵyr Abertawe wedi ennill lleoedd yng Ngharfan Hir WorldSkills ar ôl dod i'r brig yn eu meysydd yn y Rownd Derfynol Genedlaethol ym mis Tachwedd 2019.

Roedd Liam Hughes, Ben Lewis, Rhys Watts a Nathan Evans yn bedwar o'r pum enillydd yn y categori Electroneg Ddiwydiannol, ac enillodd Paulina Skoczek le ar gyfer Gwasanaethau Bwyty.

Byddant yn cael cyfle i fod yng ngharfan y DU a Team UK a chystadlu yn EuroSkills yn Graz (Awstria) cyn rownd derfynol WorldSkills yn Shanghai.



# Rhydgrawnt

Mae 12 myfyriwr Safon Uwch o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cael cynnig lleoedd i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen neu Brifysgol Caergrawnt yn 2020.

Mae'r holl fyfyrwyr hyn yn dilyn Rhaglen Rhydgrawnt ar Gampws Gorseinon, sy'n ceisio darparu'r paratoad gorau posibl i fyfyrwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i Rydychen, Caergrawnt a phrifysgolion Russell Group eraill.



# Pedwar enwebiad TES

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer mewn pedwar categori yng Ngwobrau clodfawr AB TES 2020.

Mae Gwobrau AB TES yn gyfle i ddathlu ymroddiad ac arbenigedd pobl a thimau sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i wella sgiliau pobl ifanc ac oedolion sy'n ddysgwyr.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categorïau canlynol:

1. **Coleg** Addysg Bellach **y flwyddyn**




2. **Arwr Tawel** WorldSkills (Arweinydd Cwricwlwm Peirianneg Electronig, Steve Williams)



3. **Defnydd rhagorol o dechnoleg** er mwyn gwella dysgu, addysgu ac asesu

4. **Rhaglen brentisiaeth** y flwyddyn.



# Gwobrau Rhithwir

Mae hi wedi bod yn flwyddyn ryfedd i bawb ond mae un peth heb newid – sef disgleirdeb ein dysgwyr a'n cleientiaid.

Ar ôl yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn academaidd anghyffredin a heriol iawn, roedd Coleg Gŵyr Abertawe yn falch iawn o gynnal ei seremoni Gwobrau Myfyrwyr Blynyddol Rhithwir gyntaf.

Cynhaliwyd y Gwobrau Rhithwir ar ffurf fideo ar wefan y Coleg ac roeddent yn cynnwys cyfraniadau gan Gôr Cyfnod Clo y Coleg, a ganodd ddatganiad teimladwy o'r clasur *Lean on Me*.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys 24 categori gwobr ar wahân o bob rhan o ddarpariaeth eang y Coleg gan gynnwys amser llawn, rhan-amser, prentisiaethau, rhaglenni cyflogadwyedd a chyrsiau addysg uwch.




## Wythnos Enfys

Mae staff a myfyrwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe wedi lansio eu Hwythnos Enfys gyntaf erioed gyda'r dyfarnwr rhyngwladol rygbi'r undeb o Gymru Nigel Owens, MBE.

Bwriad Wythnos Enfys CGA yw codi ymwybyddiaeth o faterion LGBTQ+ a dathlu cynwysoldeb ac amgylchedd diogel a chefnogol y Coleg.






## Undeb Myfyrwyr Newydd

Mae gan Goleg Gŵyr Abertawe Undeb Myfyrwyr newydd sbon a Laimis Lisauskas, llywydd Undeb y Myfyrwyr, fydd yn sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg yn esmwyth.

Bydd Laimis, a oedd yn fyfyriwr peirianneg yn y Coleg cyn dechrau ei rôl newydd, yn gweithio ar draws yr holl gampysau a chynrychioli holl fyfyrwyr y Coleg. Bydd yn arwain digwyddiadau a mentrau ac yn sicrhau bod uwch reolwyr yn clywed barn myfyrwyr.

# Rhys Watts enillydd gwobr



**Arweinydd Cwricwlwm**
Steve Williams

"Roedd Rhys wedi ymuno â'r Coleg yn 2018 ac astudio Diploma Lefel 3 mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig cyn symud ymlaen i'r Diploma Estynedig.

Buan y disgleiriodd doniau naturiol Rhys ac mae wedi bod yn chwaraewr allweddol yn ein llwyddiant yng nghystadleuaeth WorldSkills, gan ennill medal Arian a chael lle yn y 'garfan hir' sy'n golygu y gallai fynd yr holl ffordd i Shanghai yn 2021.

Mae Rhys bellach yn cael ei gyflogi gan y Coleg fel prentis."

**Myfyriwr**
Rhys Watts

"Mae fy narlithwyr bob amser wedi fy nghefnogi 100%, gan wneud oriau ychwanegol ac mae bob amser yn hawdd mynd atyn nhw gyda chwestiynau.

Gyda WorldSkills, roeddwn i wir wedi mwynhau gwthio fy hun i weld pa mor bell y gallwn i fynd yn erbyn y cystadleuwyr eraill. Roedd cwrdd ag aelodau eraill o'r garfan a theithio i fŵtcamps yn brofiad gwych.

Hoffwn i symud ymlaen i HNC un diwrnod ond fy mhrif nod yw parhau i gymryd unrhyw gyfle cadarnhaol, buddiol a ddaw."

**Rhiant**
Julian Watts

"O ran cymorth, mae'r Coleg - a'r staff peirianneg electronig yn benodol - wedi meithrin doniau Rhys yn llwyr a'i annog bob cam o'r ffordd i wella ei sgiliau.

Mae wedi bod yn bleser gweld twf personol Rhys o ran aeddfedrwydd a pharodrwydd i anelu'n uchel.

Dwi mor falch o agwedd Rhys - ei barodrwydd i wrando ar y rhai sydd â mwy o brofiad, i ddadansoddi problemau cymhleth a cheisio atebion. Mae ei sgiliau ymarferol yn dechrau disgleirio mewn gwirionedd ac mae'n ymfalchïo'n fawr yn ei waith.

Mae gweithio gyda thîm mor gefnogol a blaengar a chael ei fentora ganddyn nhw wedi talu ar ei ganfed ac mae Rhys yn ffynnu yn amgylchedd y Coleg."

# Defnyddio'ch Cymraeg

Ein nod yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan naturiol o Goleg Gŵyr Abertawe trwy feithrin ethos Cymraeg, gan gefnogi addysg a diwylliant Cymru.

### Ydych chi eisiau siarad â ni yn Gymraeg?

Gallwch. Rhowch wybod i ni beth yw'ch dewis iaith a byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cofnod ohoni ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol. Rhowch wybod i ni os hoffech gael eich cyfweliad Coleg yn Gymraeg.

### Astudio yn Gymraeg

I ddod o hyd i fodiwlau cyfrwng Cymraeg, gwyliwch am y symbol Cymraeg yma yn y disgrifiad o'r cwrs.

Mae rhai meysydd dysgu yn cynnig grwpiau tiwtor cyfrwng Cymraeg y gallwch fod yn rhan ohonynt.

Mae'n bwysig cofio bod hawl gennych i gyflwyno gwaith yn Gymraeg, hyd yn oed os yw'ch modiwl yn cael ei addysgu yn Saesneg. Gallwn gyfieithu'ch gwaith ar gyfer marcio os bydd angen.

### Fy hawliau iaith

Fel siaradwr Cymraeg yng Nghymru, mae gennych hawl i ddelio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg ac i dderbyn gwasanaethau Cymraeg ganddynt.

Sail yr hawliau ydy safonau'r Gymraeg, sef rhestr o'r pethau mae'n rhaid i sefydliadau eu gwneud yn Gymraeg.



### Myfyriwr y Flwyddyn – Yr Iaith Gymraeg

Cafodd Tezni Williams ei henwi yn Fyfyriwr y Flwyddyn – Yr Iaith Gymraeg 2020.

Mae hi'n delynores dalentog ac mae wedi cael ei galw i chwarae mewn sawl digwyddiad Coleg sy'n dathlu Cymru a threftadaeth Cymru, fel Diwrnod Shw Mae, Diwrnod Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi.

Mae hi'n cynrychioli'r Coleg ar y llwyfan cenedlaethol fel un o'r ychydig delynorion yng Ngherddorfa Genedlaethol Prydain Fawr. Mae hi'n cystadlu'n rheolaidd yn eisteddfodau'r Urdd ac mae hefyd yn bianydd talentog sydd wedi cyfeilio i'r côr mewn amryw berfformiadau.











### Cymerwch ran!

Mae nifer o gyfleoedd cyffrous ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys digwyddiadau, gweithgareddau a dewisiadau academaidd.

Ymunwch â'r Gymdeithas Gymraeg a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau dwyieithog drwy gydol y flwyddyn.

Y llynedd, fe wnaethom gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau hwyliog gan gynnwys Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru gyda rhai o'n myfyrwyr a Bronwen Lewis, cystadleuydd *The Voice.*



# Angen cyngor a chymorth?

Mae ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn rhoi gwybodaeth, cymorth a chyngor ar bopeth o opsiynau cwrs i gyllid. Gallant roi cyfarwyddyd diduedd a phroffesiynol i chi drwy gydol y broses ymgeisio.

## Cyfarwyddyd gyrfaoedd

Mae Ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio yn y Coleg trwy gydol y flwyddyn academaidd a gallant eich helpu chi i gynllunio eich cam nesaf.

## Llyfrgelloedd

Mae gennym lyfrgelloedd ar Gampysau Gorseinon, Tycoch a Llwyn y Bryn, a'u bwriad yw eich helpu gyda'ch astudiaethau. Mae gan bob cwrs Ymgynghorydd Llyfrgell fydd yn cydweithio â'ch darlithydd i sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o'ch llyfrgell.

## Swyddogion Cymorth Myfyrwyr

Mae'r swyddogion yn darparu cymorth cyfrinachol i unrhyw fyfyriwr sydd ei angen, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, myfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl neu ddigartrefedd.

## Cymorth gyda mathemateg a Saesneg

Gellir cynnwys elfennau llythrennedd a rhifedd mewn cyrsiau.

## Gwasanaethau iechyd

Gallwch drafod iechyd a dewisiadau ffordd o fyw yn gyfrinachol â'n Hymgynghorwyr Iechyd Myfyrwyr.

Mae pob myfyriwr yn gallu edrych ar wefan togetherall hefyd i gael cymorth iechyd meddwl. Mae gan y wefan ymarferwyr hyfforddedig sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 dydd y flwyddyn yn ogystal ag offer creadigol fel y gallwch fynegi sut rydych yn teimlo.

togetherall

Diolch i gymorth gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi ymgyrch #DiweddTlodiMislif trwy roi eitemau ar gyfer y mislif am ddim i'n myfyrwyr.

## Cymorth dysgu ychwanegol

Mae cymorth arbenigol ar gael i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau. Mae hyn yn cynnwys cymorth yn y dosbarth, gweithdai, offer arbenigol a meddalwedd addysgol.

Rhowch wybod i ni pan fyddwch yn ymgeisio i sicrhau y gallwn roi'r cymorth iawn i chi.

Hyb y Dyfodol
Futures Hub

Mae **Hyb y Dyfodol** ar Gampws Tycoch a Champws Gorseinon, yn cynnig cyngor a chymorth i'r myfyrwyr sy'n gobeithio symud ymlaen i fyd gwaith ar ôl cwblhau eu hastudiaethau a hefyd i'r rhai sy'n ceisio gwaith rhan-amser yn ystod eu cwrs.

Yn ogystal, gallwch wneud cais i ymuno â'n **Hacademi'r Dyfodol** sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i ddatblygu'ch llwybr cyflogaeth unigol.

# Sgiliau Byw'n Annibynnol

Mae'r Coleg wedi datblygu partneriaethau ardderchog gyda chyflogwyr blaenllaw yn Abertawe.

Bwriad ein cwricwlwm yw ateb anghenion myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Byddwch yn dilyn rhaglen ddysgu sy'n adlewyrchu'ch dyheadau a bydd yn eich helpu i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer bywyd oedolyn.

Mae'r rhaglen astudio amrywiol yn dilyn pedwar maes:

- Sgiliau byw'n annibynnol
- Iechyd a lles
- Cyflogadwyedd
- Cynhwysiant cymunedol.



Myfyrwyr yn cwrdd â'r maer

Rydym yn credu'n gryf mewn integreiddio myfyrwyr ym mywyd y Coleg, gyda chymorth llawn gan staff cymwysedig a phrofiadol iawn.

Bydd myfyrwyr SBA hefyd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon a sgiliau cenedlaethol.

Gallai dysgwyr o'r adran hon symud ymlaen i:

- Cyflogaeth â chymorth, â thâl
- Interniaeth â chymorth
- Dilyniant i addysg bellach ar lefel uwch
- Gwasanaethau oedolion
- Cyflogaeth amser llawn neu ran-amser
- Cyrsiau rhan-amser.


Bagloriaeth Cymru
Welsh Baccalaureate

Mae Bagloriaeth Cymru'n canolbwyntio ar wella'ch hyder a'ch sgiliau cymdeithasol ac mae'n cynnig gwell dealltwriaeth o fentrau, gwleidyddiaeth a materion cyfoes. Ystyrir y sgiliau hyn yn hynod werthfawr gan gyflogwyr sefydliadau addysg uwch.

Mae'n cael ei haddysgu ar Safon Uwch ochr yn ochr ag amrywiaeth o gymwysterau academaidd a/neu alwedigaethol. Bydd myfyrwyr sy'n ateb y gofynion yn cael y diploma llawn ar y lefel briodol.

Yr elfennau allweddol yw:

- Prosiect unigol
- Her menter a chyflogadwyedd
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Her gymunedol.



"Pe na bawn i wedi dilyn cwrs Bagloriaeth Cymru, fyddwn i ddim yn astudio meddygaeth heddiw.

Mae Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru yn cynnwys gwaith tîm, hunanddisgyblaeth, cymhelliant, tosturi, gwirfoddoli a llawer mwy. Mae'n rhoi modd i chi astudio pynciau sydd o ddiddordeb i chi a'r proffesiwn o'ch dewis yn y dyfodol.

Dewisais i wneud fy mhrosiect unigol ar ddementia, ac roedd hyn o gymorth mawr i mi yn ystod proses gyfweld yr ysgol feddygol."

**Tara Pachu,** myfyriwr meddygol ail flwyddyn ym Mhrifysgol Keele.

# Cymorth ariannol

Mae amrywiaeth o ffrydiau cyllid ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cwrs amser llawn, gan gynnwys:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
- Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

Gall y cyllid hwn eich helpu i dalu am eich astudiaethau a'r cyfarpar sy'n hanfodol ar gyfer eich cwrs. Gall ein tîm cyllid helpu i adnabod y math o gymorth ariannol y gallech fod yn gymwys i'w dderbyn.

Gall rhai o'r gweithgareddau hyn gael eu cyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

## Ffioedd dysgu

Nid yw'r Coleg yn codi ffioedd dysgu ar gyfer addysg bellach amser llawn (15 awr yr wythnos neu fwy) a ddarperir i fyfyrwyr o unrhyw oedran o'r Deyrnas Unedig neu'r Gymuned Ewropeaidd.

## Costau ychwanegol

Bydd gofyn i bob myfyriwr dalu ffi weinyddu ac ni ellir ei had-dalu.

Ar rai cyrsiau, efallai y bydd rhaid talu costau ychwanegol ar gyfer cyfarpar neu ddillad arbenigol. Bydd rhaid i fyfyrwyr sy'n gwneud profiad gwaith strwythuredig fel rhan o'u cwrs gael gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

# Cludiant

## Campws Gorseinon

Mae'r Coleg yn trefnu cludiant (gyda South Wales Transport) ar gyfer myfyrwyr amser llawn ar ddechrau a diwedd y diwrnod Coleg gan godi a gadael myfyrwyr yn y mannau codi dynodedig. Gallwch ddefnyddio'r tocynnau bws hyn ar rwydwaith First Cymru hefyd yn ystod y tymor (Llun-Gwener tan 6pm).

**Mae'r tocynnau bws i gyd wedi'u cymorthdalu.** Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ystod nosweithiau agored. (gweler y tu mewn i'r clawr)

## Campysau Tycoch, Llwyn y Bryn a Llys Jiwbilî

Mae tocyn bws First Cymru ar gael. Gellir defnyddio'r tocyn o fis Medi hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot.

Darperir bws i fyfyrwyr sy'n teithio i Gampws Tycoch o Ddwyrain Abertawe. Mae'r bws (gwasanaeth 61) yn dechrau yn Llansamlet ac yn codi myfyrwyr yng Ngellifedw, Trallwn, Winsh-wen a Bonymaen, yna mae'n mynd yn syth i'r Coleg. Mae'r bws yn gadael Tycoch am 4.35pm bob nos.

Gall myfyrwyr sy'n byw yn Llangynydd, Rhosili, Porth Einon neu Oxwich (ardaloedd sydd heb eu gwasanaethu gan First Cymru), ddefnyddio tocyn bws National Adventure Travel (NAT).



# Bywyd myfyrwyr

Mae mwy i'r Coleg na'ch astudiaethau yn unig. Rydym am i chi fwynhau'ch amser gyda ni, ac felly rydym yn buddsoddi'n barhaus mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf, yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol ac yn sicrhau y cewch gyfle i leisio'ch barn.

## Cymdeithasau



Mae nifer o gymdeithasau y gallwch ymuno â nhw, o'r clwb amgylcheddol i'r clwb ffilmiau a'n cymuned LGBTQ+. Yn ogystal â hyn, rydym yn annog ac yn helpu myfyrwyr i ddechrau clybiau newydd!

## CGA Egnïol

Nod CGA Egnïol yw helpu ein myfyrwyr i fod yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau o bêl-fasged i ioga. Mae ein cydlynydd yn agored i awgrymiadau newydd, ac felly gallwch gysylltu â ni os oes unrhyw beth penodol yr hoffech roi cynnig arno.

CGA Egnïol
GCS Active

GCS Active

## Undeb y Myfyrwyr



Gallwch ddweud eich dweud ynghylch sut mae'r Coleg yn cael ei redeg. Mae ein Hundeb y Myfyrwyr yn cael ei reoli gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr amser llawn, etholedig ac mae'n cael ei gynrychioli gan Grŵp Rheoli Undeb y Myfyrwyr. Ymunwch â'r Undeb fel y gallwch chi a'ch cyd-fyfyrwyr leisio'ch barn.



## Prosiect Cenia

Drwy redeg siop fwyd, cymryd rhan mewn heriau megis dringo'r Wyddfa neu unrhyw syniadau eraill sydd gennych, gallwch helpu plant o dan anfantais yng Ngorllewin Cenia.



# Cyfleusterau

Yn ogystal â'n cyfleusterau academaidd gwych (celf, stiwdios recordio a ffotograffiaeth, labordai gwyddoniaeth, ystafelloedd cerbydau modur ac ati), mae gennym hefyd:

## Costa Coffee

Ar Gampws Tycoch a Champws Gorseinon.


## Ystafelloedd cyffredin

Gyda Wi-Fi sgriniau teledu a seddau.

## Bwyty'r Vanilla Pod

Mwynhewch seigiau wedi'u paratoi, eu coginio a'u gweini gan ein myfyrwyr lletygarwch ac arlwyo o dan lygad barcud darlithwyr sydd wedi treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio yn rhai o fwytai gorau'r DU. Lleolir y bwyty ar Gampws Tycoch.

## Canolfan Broadway



Ar Gampws Tycoch rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau steilio a lliwio gwallt yn ogystal â thriniaethau harddwch, therapi cyfannol a sba moethus i gyd am brisiau cystadleuol. Gwneir pob triniaeth gan ein myfyrwyr yn Broadway.

## Canolfan Chwaraeon



Mae'r Ganolfan wedi'i lleoli ar Gampws Tycoch ac mae'n cynnwys stiwdio gyflyru llawn cyfarpar, neuadd chwaraeon amlbwrpas a chyrtiau sboncen. Mae aelodaeth myfyrwyr ar gael ar ddisgownt.




# Chwaraeon

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod chwaraeon elit ac adloniadol ar gael i bob myfyriwr.

**Dilynwch ni** GCSFootball_ @GCSRugbyAcademy @GCSNetball

## Academi Pêl-droed

Cyfle i hyfforddi a chwarae mewn amrywiaeth o gystadlaethau cynghrair a chwpan yn lleol a ledled y DU. Mae gan ein rhaglen bêl-droed enw rhagorol gyda staff profiadol a chymwysedig.

Mae'n cynnwys amserlen hyfforddi a chwarae gynhwysfawr gydag amrywiaeth o gyfleoedd.

Mae gennym hanes o lwyddiant cynghrair a chwpan gyda nifer o'n chwaraewyr yn ennill anrhydeddau gyda thimau cynrychiolwyr ysgolion a cholegau Cymru.

## Academi Rygbi

Yn rhan o Gynghrair Colegau Elit Undeb Rygbi Cymru a Chynghrair Ysgolion Canol Wythnos y Gweilch, bydd chwaraewyr yn mwynhau cefnogaeth tîm profiadol a chymwysedig sy'n cwmpasu pob agwedd ar berfformiad rygbi, gan gynnwys disgyblaethau 15 bob ochr a 7 bob ochr.

Mae ein Hacademi Rygbi yn rhan werthfawr o'r Rhaglen Datblygu Rygbi a'i nod yw paratoi chwaraewyr ar gyfer dilyniant i berfformiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

## Academi Pêl-rwyd

Mae ein Hacademi Pêl-rwyd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr hyfforddi a chwarae mewn amgylchedd perfformiad uchel yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Cynghrair Colegau Cymru yn darparu cystadleuaeth yng Nghymru, ac mae cwpan AOC yn fformat bwrw allan cenedlaethol.

Bydd myfyrwyr yn elwa ar hyfforddi profiadol a chymwysedig a llwybr datblygu chwaraewyr sy'n cwmpasu pob agwedd ar y gêm.

Mae'r Coleg yn cynrychioli Cymru yn rheolaidd ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol AOC gyda myfyrwyr yn ennill anrhydeddau rhyngwladol gyda Phêl-rwyd Cymru.




## Rhaglen Athletwyr Elit

Rhaglen gefnogol i fyfyrwyr sy'n cystadlu ac yn hyfforddi mewn rhaglenni chwaraeon elit allanol gan gynnwys criced, athletau, seiclo, crefft ymladd a nofio.

Mae'r Coleg yn rhoi cymorth i fyfyrwyr trwy gynllun mentora i arwain myfyrwyr fel athletwyr gyrfa, gan gydbwyso eu galwadau academaidd a'u galwadau chwaraeon elit.

Rhoddir lleoedd ar y rhaglen trwy'r broses ymgeisio.

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

## Clwb Pêl-fasged

Mae Clwb Pêl-fasged y Coleg yn chwarae yng nghynghrair AOC Colegau Cymru ac mae'n cynnig cyfle i fyfyrwyr hyfforddi a chwarae yn rheolaidd yn ystod eu cyfnod yn y Coleg.

Mae'r calendr o gemau'n cynnwys y Pencampwriaethau Cenedlaethol a chystadleuaeth bwrw allan yn y DU.

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

AoC Sport For college, for life.

## Hoci

Mae gan chwaraewyr hoci y cyfle i ddatblygu eu sgiliau trwy Raglen Ddatblygu Prifysgol Abertawe.

Bydd yr hyb hwn sydd newydd ei greu yn cynnwys chwaraewyr dan 19 oed o bob cwr o'r rhanbarth, gyda hyfforddiant ardderchog a llwybr chwaraewr cefnogol.

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## 1 Dewis y cwrs iawn

**Meddyliwch am y pynciau rydych yn llwyddo orau ynddynt a'r hyn rydych yn mwynhau ei astudio.**

Mae rhai pynciau'n cael eu hasesu trwy arholiadau, ac mae eraill yn cyfuno gwaith cwrs ac arholiadau, felly chwiliwch am y cwrs sy'n fwyaf addas i chi. Cofiwch edrych ar ofynion mynediad y cwrs.

I gael gwybodaeth fwy manwl am y cwrs ewch i **gcs.ac.uk/cy/school-leavers**

## 2 Siarad â ni

**Dewch i un o'n nosweithiau agored a siarad â'n darlithwyr.**

Mae'r dyddiadau a'r amserau i'w gweld ar y tu mewn i'r clawr blaen. Mae ein hymgynghorwyr myfyrwyr yn ymweld â llawer o ysgolion yn yr ardal ac felly gallwch gael gair â nhw neu'ch ymgynghorwyr gyrfaoedd yn yr ysgol.

Sylwch, oherwydd Covid-19, mae'n bosibl y bydd ein nosweithiau agored yn cael eu cynnal yn rhithwir.

Cadwch lygad ar ein gwefan neu'r cyfryngau cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**gcs.ac.uk/cy/open-evenings**
**gcs.ac.uk/cy/coronavirus-updates**

## Nosweithiau agored (5.30-7.30pm)

### Tachwedd 2020

**Gorseinon** - Nos Lun 9

**Llys Jiwbilî** - Nos Fercher 11

**Tycoch** - Nos Lun 16

**Llwyn y Bryn** - Nos Fawrth 17

### Ionawr 2021

**Gorseinon** - Nos Lun 11

**Tycoch** - Nos Lun 18

**Llwyn y Bryn** - Nos Fawrth 19

### Mawrth 2021

**Gorseinon** - Nos Lun 8

**Llys Jiwbilî** - Nos Fercher 10

**Tycoch** - Nos Lun 15

**Llwyn y Bryn** - Nos Fawrth 16

# Dechrau

## 3 Gwneud cais nawr

**Po gynharaf y gwnewch gais, gorau i gyd fydd eich siawns o gael lle ar eich cwrs dewis cyntaf.**

Pan fyddwch wedi dewis cwrs, gallwch wneud cais ar-lein ar ein gwefan **gcs.ac.uk/cy**

Os ydych yn ddisgybl yn Abertawe, gallwch wneud cais trwy **Fy Newis** fydd yn mynd â chi yn uniongyrchol i'n gwefan.

## 4 Eich cyfweliad

**Rydym am wneud yn siŵr bod y cwrs rydych wedi'i ddewis yn addas i chi, ac felly bydd gofyn i chi fynd i gyfweliad yn eich ysgol neu yn y Coleg.**

Bydd y cyfweliad yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau i ni am y cwrs a'r Coleg, a bydd yn rhoi cyfle i ni ddod i'ch adnabod. Cewch wybod a yw'r cwrs yn cynnwys lleoliadau gwaith, ymweliadau addysgol neu gostau ychwanegol ar gyfer iwnifform neu gyfarpar.

Byddwn yn gallu dweud wrthych yn eich cyfweliad a fuoch chi'n llwyddiannus a byddwn yn rhoi llyfryn cynnig cwrs i chi.

## 5 Cofrestru

**Bydd rhaid i chi ddod i'r Coleg a chofrestru ar y dyddiad a nodir yn eich llyfryn cynnig cwrs. Gallwch drefnu unrhyw ofynion cyllid neu chludiant hefyd.**

Peidiwch â phryderu os nad ydych yn cael y canlyniadau TGAU roeddech chi'n eu disgwyl neu roedd eu hangen arnoch i ddilyn y cwrs – dewch i'ch apwyntiad a gallwn fynd trwy'r opsiynau gyda chi. Mae cwrs ar gael i bawb.

## 6 Dechrau eich taith

**Mae bywyd myfyriwr yn dechrau gyda llawer o weithgareddau i'ch helpu i ymgartrefu yn y Coleg a gwneud ffrindiau newydd.**

Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor, cael eich amserlen a phopeth arall sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich taith fel myfyriwr yn dechrau'n dda!

# eich taith...

# Cyrsiau Safon Uwch

Addysgir y cyrsiau hyn ar **Gampws Gorseinon.** Mae'r Coleg yn cynnig bron 40 o bynciau Safon Uwch, ac nid yw llawer ohonynt yn cael eu cynnig ar lefel TGAU.

Ym mhob un o'r pynciau Safon Uwch, mae'r flwyddyn astudio gyntaf yn cael ei galw yn Safon UG (sydd yn 40% o'r dyfarniad Safon Uwch llawn) a bydd arholiadau allanol fel arfer ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

Safon U2 yw'r ail flwyddyn astudio sydd yn 60% o'r dyfarniad Safon Uwch llawn ac mae hefyd yn cynnwys arholiadau allanol. Gall fod modd dechrau pwnc UG newydd hefyd yn yr ail flwyddyn astudio.

## Addysgu llinol

Os dewiswch gymryd un o'r pynciau Safon Uwch hyn – **Cyfrifeg, Technoleg Cerdd, Hanes yr Hen Fyd, Y Clasuron, Dawns, Electroneg** neu **Ddaeareg** – gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am ddarpariaeth linol yn eich cyfweliad.

Mae darpariaeth linol yn golygu efallai na fydd gennych yr opsiwn o sefyll arholiad UG ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf.

### Gofynion mynediad safonol

Saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd gofynion mynediad penodol i'w gweld ym manylion y cwrs unigol.

### Ailsefyll Arholiadau TGAU

Peidiwch â phryderu os na chawsoch y graddau ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf), gallwch ailsefyll yr arholiadau hyn yn eich blwyddyn gyntaf.

Yn 2020, aeth **bron 200 o fyfyrwyr** i rai o'r prifysgolion gorau yn y DU – gan gynnwys Rhydychen, Caergrawnt, Caeredin, Coleg Imperial Llundain, Bryste, Caerwysg ac Ysgol Economeg Llundain.

Roedd **dros 1,000** o'n myfyrwyr wedi symud ymlaen i'r brifysgol yn 2020.



# 2020 Canlyniadau

Mae ein darpariaeth Safon Uwch yn **flaenllaw yn y sector** yn ôl adroddiad deilliannau dysgu diweddar Llywodraeth Cymru.

Roedd ein canlyniadau Safon Uwch 2019 wedi **rhagori'n sylweddol** ar gyfartaledd cenedlaethol Cymru gan 8%† o ran graddau A*-A.

† Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 27%.

Roedd ein canlyniadau Safon Uwch 2018 wedi **rhagori'n sylweddol** ar gyfartaledd ysgolion chweched dosbarth Dinas a Sir Abertawe gan 11% o ran graddau A*-C.

**17%** Graddau A*

**45%** Graddau A*-A

**58%** Graddau A*-B

**93%** Graddau A*-C

Cyfradd pasio **100%**

| Pwnc | A*% | A*-A% | A*-B% | A*-C% | A*-E% |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Gorfforol | 10% | 35% | 75% | 100% | 100% |
| Astudiaethau Busnes | 5% | 30% | 54% | 91% | 100% |
| Astudiaethau Crefyddol | 9% | 41% | 91% | 100% | 100% |
| Astudiaethau Cyfryngau | 14% | 55% | 77% | 100% | 100% |
| Bioleg | 18% | 51% | 77% | 96% | 100% |
| Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) | 29% | 46% | 79% | 96% | 100% |
| Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) | 8% | 19% | 38% | 77% | 100% |
| Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) | 7% | 36% | 79% | 100% | 100% |
| Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) | 7% | 44% | 89% | 100% | 100% |
| Cemeg | 21% | 63% | 82% | 96% | 100% |
| Cerddoriaeth | 22% | 44% | 78% | 100% | 100% |
| Cyfrifeg | 6% | 33% | 64% | 82% | 100% |
| Cyfrifiadureg | 9% | 51% | 86% | 100% | 100% |
| Cymdeithaseg | 10% | 40% | 73% | 95% | 100% |
| Cymraeg – Ail Iaith | - | 60% | 100% | 100% | 100% |
| Daeareg | - | 14% | 50% | 93% | 100% |
| Daearyddiaeth | 10% | 53% | 78% | 90% | 100% |
| Dawns | 67% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Drama | 7% | 33% | 60% | 93% | 100% |
| Economeg | 21% | 43% | 77% | 91% | 100% |
| Electroneg | 8% | 41% | 77% | 100% | 100% |
| Ffiseg | 20% | 46% | 81% | 96% | 100% |
| Ffrangeg | 29% | 48% | 86% | 95% | 100% |
| Gwareiddiad Clasurol | 17% | 33% | 50% | 83% | 100% |
| Hanes | 9% | 41% | 64% | 97% | 100% |
| Hanes yr Hen Fyd | - | - | 33% | 100% | 100% |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | - | 24% | 74% | 98% | 98% |
| Llywodraeth a Gwleidyddiaeth | 17% | 52% | 79% | 100% | 100% |
| Mathemateg | 31% | 64% | 81% | 95% | 100% |
| Mathemateg Bellach | 59% | 76% | 84% | 100% | 100% |
| Saesneg Iaith | 36% | 55% | 82% | 100% | 100% |
| Saesneg Iaith a Llenyddiaeth | 15% | 58% | 80% | 97% | 100% |
| Saesneg Llenyddiaeth | 18% | 56% | 85% | 100% | 100% |
| Sbaeneg | 50% | 67% | 92% | 100% | 100% |
| Seicoleg | 14% | 41% | 78% | 94% | 100% |
| Technoleg Cerdd | 6% | 18% | 59% | 82% | 100% |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | - | 14% | 46% | 83% | 100% |
| Y Gyfraith | 13% | 37% | 65% | 89% | 100% |

# Eisiau mynd i brifysgol flaenllaw? Byddwn ni'n eich helpu!

## Cymorth tiwtorial

Byddwch yn cael **tiwtor personol** i helpu i fonitro'ch cynnydd academaidd. Gallwch fynychu sesiynau tiwtorial mewn grwpiau sy'n cynnwys siaradwyr gwadd, gweithgareddau menter, cyfarwyddyd gyrfaoedd a chymorth i lenwi ceisiadau UCAS.

## Ceisiadau i astudio meddygaeth

Os ydych wedi mynegi diddordeb yn y **gwyddorau meddygol, milfeddygaeth** a **fferylliaeth** cewch sesiynau tiwtorial wythnosol sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd, cysgodi gwaith, siaradwyr gwadd a cheisiadau i brifysgolion.

Bydd y sesiynau tiwtorial hefyd yn cynnig cyfle i drafod materion moesegol cyfoes a'r datblygiadau meddygol diweddaraf a chael cyngor ar dechnegau cyfweld.

## Rhaglen i Baratoi ar gyfer Rhydgrawnt

Mae ein rhaglen sefydledig yn eich paratoi yn y ffordd orau bosibl i gael eich derbyn gan brifysgolion **Rhydychen**, **Caergrawnt** a **phrifysgolion Russel Group eraill.**

Wedi'i chyflwyno trwy sesiynau tiwtorial wythnosol dan arweiniad ein tîm o diwtoriaid Rhydgrawnt arbenigol, byddwch yn cael gwybodaeth ynghylch sut i gynhyrchu cais effeithiol a chewch eich cefnogi drwy bob agwedd ar y broses dderbyn.

Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Seminarau/ymweliadau preswyl yng ngholegau Caergrawnt a Rhydychen
- Cyfleoedd ysgolion haf
- Profion gallu a pharatoi ar gyfer asesiadau
- Paratoi ar gyfer ffug gyfweliad gyda chyn-fyfyrwyr Rhydgrawnt a gweithwyr proffesiynol academaidd lleol.

### Partneriaeth â Phrifysgol Rhydychen

Mae myfyrwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe wedi cymryd rhan mewn menter newydd sbon sy'n ceisio denu mwy o bobl ifanc o ysgolion gwladol i Brifysgol Rhydychen.

Cynlluniwyd y rhaglen Step Up i ysbrydoli a chefnogi myfyrwyr ysgolion gwladol a cholegau trwy flynyddoedd 11-13. Ei nod yw sicrhau bod myfyrwyr sydd â photensial academaidd uchel yn cydnabod Rhydychen fel dewis realistig a chyraeddadwy.

## HE+

Ar wahoddiad **Prifysgol Caergrawnt**, ni yw'r **unig goleg** yng Nghymru sy'n rhedeg rhaglen HE+.

Mae HE+ yn datblygu sgiliau academaidd ac yn eich annog i herio eich hunain a'ch gilydd mewn amgylchedd cefnogol.

Mae HE+ hefyd yn cael ei hategu gan Raglen Seren Llywodraeth Cymru. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Digwyddiad lansio HE+ blynyddol ar y cyd â Choleg Churchill, Caergrawnt
- Dosbarthiadau ymestyn misol i brofi pynciau ar lefel prifysgol
- Ymweld â Phrifysgol Caergrawnt a'i cholegau cyfansoddol ac aros dros nos
- Seminarau rheolaidd a gyflwynir gan Brifysgol Caergrawnt i helpu myfyrwyr i baratoi ceisiadau i brifysgolion hynod ddethol.

**Dros 70**

o fyfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe wedi cael eu derbyn i astudio yn **Rhydychen neu Gaergrawnt** yn y wyth mlynedd diwethaf, dyma nifer ragorol o un sefydliad!

## Rhwydwaith Seren

Coleg Gŵyr Abertawe yw'r hyb ar gyfer Rhwydwaith Seren Abertawe.

Mae Rhwydwaith Seren, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn helpu'r **myfyrwyr mwyaf galluog yn academaidd o bob ysgol wladol** i gael mynediad i'r prifysgolion gorau yn y byd. Fel yr hyb, rydym yn trefnu gweithdai academaidd a gweithgareddau uwch-gwricwlaidd i fyfyrwyr ar draws yr ardal.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a chyda chymorth Seren, mae myfyrwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe hefyd wedi llwyddo i sicrhau lleoedd ysgoloriaeth lawn yn ysgolion haf Harvard ac Iâl ac mae hyn wedi arwain at geisiadau israddedig llwyddiannus i brifysgolion Americanaidd.




# Celf a dylunio

Mae dewis cwrs o fewn y diwydiannau creadigol yn gallu arwain at amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa cyffrous. Mae'n sector sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir i'r duedd hon barhau.

## Celfyddyd Gain (Safon Uwch)

Archwiliad ymarferol o arferion traddodiadol a chyfoes o fewn celfyddyd gain.

Cewch eich herio i ddefnyddio amrywiaeth eang o ddefnyddiau, technegau a phrosesau a dysgu o waith artistiaid eraill.

Mae ffi stiwdio o £25.

Gofynion mynediad penodol:
O leiaf un pas TGAU rhaid bod yn bwnc celf a/neu ddylunio.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Diploma Sylfaen Celf a Dylunio neu'r Radd Sylfaen mewn Ffasiwn a Thecstilau yn y Coleg.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.

## Cyfathrebu Graffig (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn byddwch yn ymwneud â'r broses greadigol o gyfathrebu graffig.

Cewch gyfle i gynhyrchu gwaith ymarferol a beirniadol/cyd-destunol mewn meysydd sy'n cynnwys darlunio, hysbysebu, dylunio pecynnau, dylunio ar gyfer print, graffeg gyfathrebu, graffeg gyfrifiadurol, ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau cysylltiedig â'r cyfryngau.

Mae ffi stiwdio o £25.

Gofynion mynediad penodol:
Argymhellir gradd C ar lefel TGAU mewn pwnc seiliedig ar gelf, ond nid yw'n hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Diploma Sylfaen Celf a Dylunio yn y Coleg.

Astudiaethau pellach mewn meysydd megis dylunio graffig, celf a dylunio, dylunio ar gyfer y cyfryngau, dylunio amlgyfrwng, ffilm a fideo, hysbysebu a rheoli dylunio.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.

## Ffotograffiaeth (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i faes creadigol ffotograffiaeth.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o wneud delweddau ar leoliad ac ymagweddau arbrofol at ffotograffiaeth. Yn ystod y cwrs byddwch yn gallu defnyddio ein stiwdio llawn adnoddau i gynhyrchu delweddau o safon uchel a'n hystafell dywyll ffotograffig draddodiadol ar gyfer printio mewn du a gwyn.

Caiff profiad ymarferol ei ategu gan ddealltwriaeth o gymwysiadau technegol gan gynnwys ffotograffiaeth ffilm draddodiadol a ffotograffiaeth ddigidol.

Mae ffi stiwdio o £25.

Gofynion mynediad penodol:
Argymhellir TGAU Celf neu Graffeg, ond nid yw'n hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Diploma Sylfaen Celf a Dylunio yn y Coleg neu astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.

Gwaith yn y cyfryngau a'r diwydiant ffotograffiaeth.



"Dwi'n caru'r creadigrwydd a'r rhyddid sy'n dod gyda'r pynciau, a'r gallu i fynegi fy hun trwy fy mhrosiectau. Dwi wir yn mwynhau gwneud ffrindiau newydd a phrofi pynciau newydd.

Dwi'n gobeithio mynd i'r Brifysgol i wneud gradd mewn ffotograffiaeth a theithio'r byd i dynnu lluniau.

Dwi wedi dysgu technegau a sgiliau newydd trwy ffotograffiaeth a fydd o fudd i mi yn fy ngyrfa."

**Jess Garratt,** Safon Uwch Ffotograffiaeth, Seicoleg, Tecstilau a Dawns (cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Pen-yr-heol).



## Dylunio Tecstilau - Ffasiwn/Dylunio Mewnol (Safon Uwch)

Mae'r cwrs hwn yn ceisio meithrin creadigrwydd. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addurniadol megis printio â llaw, brodwaith a lliwio â llaw. Byddwch yn astudio llunio, trin ac addurno ffabrigau hefyd.

Cewch gyfle i ddefnyddio ein hoffer diwydiannol cyfoes: ysgythrydd/torrwr laser, peiriant brodio cyfrifiadirol ac argraffydd fformat eang Mimaki ar gyfer ffabrig.

Cewch eich annog i ddefnyddio defnyddiau traddodiadol a llai traddodiadol ac astudio ac ymchwilio i waith artistiaid eraill.

Mae ffi stiwdio o £25.

Gofynion mynediad penodol:
Argymhellir gradd C mewn pwnc celf ar lefel TGAU, ond nid yw'n hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Diploma Sylfaen Celf a Dylunio neu'r Radd Sylfaen mewn Ffasiwn a Thecstilau yn y Coleg.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.

Gyrfaoedd ym myd ffasiwn, dylunio patrymau arwyneb, dylunio mewnol, dylunio gwisgoedd ffilm/theatr, hyrwyddo/newyddiaduriaeth ffasiwn, addysgu neu ddylunio gemwaith tecstilau.



# Busnes a'r Gyfraith

Ar ôl cwblhau'ch cyrsiau Safon Uwch gallech ddefnyddio'ch sgiliau trosglwyddadwy i gael hyd i gyflogaeth yn y sector busnes a chyllid sy'n tyfu. Neu, gallech ddewis aros yn y Coleg ac astudio cwrs addysg uwch cysylltiedig gyda ni.

## Cyfrifeg (Safon Uwch)

(Darpariaeth linol – gweler tudalen 15)

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddeall cyfrifoldebau'r cyfrifydd a'r effaith y caiff ei argymhellion ar y busnes a'r amgylchedd ehangach.

Byddwch yn adeiladu gwybodaeth o'r cysyniadau allweddol, egwyddorion a thechnegau sy'n gymwys i sefyllfaoedd bywyd go iawn. Byddwch yn datblygu'ch gallu i ddatrys problemau mewn ffordd resymegol, dadansoddi data mewn ffordd drefnus, gwneud dewisiadau rhesymegol a chyfathrebu'n effeithiol.

Ceir opsiwn i astudio cymwysterau gyda'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifeg (AAT).

### Gofynion mynediad penodol:
Gradd B o leiaf mewn TGAU Mathemateg a Saesneg.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs HND mewn Busnes a Chyfrifeg neu AAT.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.

Coleg Gŵyr Abertawe yw'r unig goleg addysg bellach yn y DU i ennill statws Partner Dysgu Cymeradwy Platinwm gan ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig).

Platinum

## Y Gyfraith (Safon Uwch)

Mae'r cwrs hwn yn eich annog i ddatblygu diddordeb a dealltwriaeth o'r system gyfreithiol gyfredol yng Nghymru a Lloegr.

Mae meysydd astudio ym mlwyddyn un yn cynnwys:
- Deddfu
- Y broses sifil a throseddol
- Personél cyfreithiol
- Cyflwyniad i gyfraith tort.

Mae meysydd astudio ym mlwyddyn dau yn cynnwys:
- Cyfraith hawliau dynol
- Cyfraith trosedd.

Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau datrys problemau, meddwl yn feirniadol, a dadansoddol cryf yn ogystal â'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Yn yr ail flwyddyn bydd cyfle gennych i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Ffug Dreialon y Bar a chystadlu am gyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr.

### Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r Radd Sylfaen mewn Cyfiawnder Troseddol.

Graddau prifysgol yn y gyfraith, troseddeg, gwleidyddiaeth, plismona.

Mae cyfleodd gyrfa yn cynnwys mynediad i'r proffesiynau cyfreithiol, newyddiaduraeth, plismona a'r gwasanaeth sifil.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.

## Astudiaethau Busnes (Safon Uwch)

Mae'r cwrs hwn yn datgelu'r penderfyniadau busnes y mae rheolwyr yn eu gwneud ym mhob sefydliad.

Mae pedair prif ran i'r cwrs:
- Cyfleoedd busnes
- Swyddogaethau busnes
- Dadansoddiad a strategaeth busnes
- Busnes mewn byd sy'n newid.

Gofynion mynediad penodol:
Mae gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith yn hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg, gallech symud ymlaen i'r cwrs HND mewn Busnes a Chyfrifeg neu'r Radd Sylfaen mewn Rheoli Digwyddiadau.

Gallech astudio yn y brifysgol neu ddilyn gyrfa yn y sector cyhoeddus neu ddechrau'ch busnes eich hunan.

## Troseddeg (Tystysgrif/Diploma Lefel 3)

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn yw eich cyflwyno i theori a chymhwyso sgiliau troseddeg. Sylwch mai'r Dystysgrif yw blwyddyn gyntaf y cwrs, ac mae myfyrwyr yn gallu symud ymlaen i'r Diploma yn yr ail flwyddyn.

Mae meysydd astudio yn cynnwys:
- Newid ymwybyddiaeth o drosedd – ennill sgiliau i wahaniaethu rhwng myth a realiti yn ymwneud â throsedd a chydnabod y gallai cynrychioliadau cyffredin fod yn gamarweiniol ac anghywir.
- Damcaniaethau troseddegol - ennill y sgiliau i werthuso'r damcaniaethau hyn a'r dadleuon o fewn y damcaniaethau hyn.

Gellir dewis y cwrs ochr yn ochr â phynciau Safon Uwch eraill fel y Gyfraith neu Seicoleg.

Mae troseddeg yn **bwnc eang** sy'n tynnu ar gymdeithaseg, seicoleg, seiciatreg, anthropoleg gymdeithasol a chyfraith trosedd.

Gofynion mynediad penodol:
Saith gradd C ar lefel TGAU.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Cyfiawnder Troseddol.

Mae nifer o fyfyrwyr yn mynd i'r brifysgol ac yn dilyn gyrfaoedd yn y gwasanaeth prawf, yr heddlu neu'r system cyfiawnder troseddol.

## Economeg (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn byddwch yn canolbwyntio ar ficro-economeg a macro-economeg.

Mae micro-economeg yn ystyried cwestiynau megis:
- Pam mae prisiau tai mor uchel?
- Oes modd effeithiol o reoli llygredd?
- Ddylai llywodraethau ymyrryd â marchnadoedd?

Mae macro-economeg yn ystyried cwestiynau megis:
- Pam mae targed gan y llywodraeth ar gyfer cyfradd chwyddiant a sut mae hyn yn effeithio arnom?
- Beth sy'n digwydd i'r economi os yw pobl yn penderfynu gwario mwy?
- Sut mae economi'r DU yn cael ei heffeithio gan economïau sy'n datblygu?

Gofynion mynediad penodol:
Proffil TGAU cryf, gan gynnwys gradd B o leiaf mewn TGAU Mathemateg a Saesneg.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs HND mewn Busnes a Chyfrifeg.

Bydd nifer o fyfyrwyr yn symud ymlaen i brifysgolion Russell Group, gan gynnwys Rhydgrawnt.

Gallai llwybrau gyrfa yn y dyfodol gynnwys cyllid, bancio, cyfrifeg, addysg, yswiriant, meddygaeth a pheirianneg.

# Cyfrifiadura a Thechnoleg

Disgwylir i nifer y cyfleoedd gwaith ym maes technoleg gynyddu 12% erbyn 2024, yn enwedig ym meysydd deallusrwydd artiffisial a chymwysiadau realiti artiffisial.

Ffynhonnell: Forbes

## Cyfrifiadureg (Safon Uwch)

Byddwch yn dysgu sut i ysgrifennu rhaglenni cyfrifiadurol, cewch eich cyflwyno i rwydweithiau, cronfeydd data a systemau gweithredu ac yn dysgu am fathemateg a theori cyfrifiadureg.

Byddwch yn darganfod sut mae angen meddalwedd ymarferol a dibynadwy ar apiau symudol, llywio lloerenni, systemau peilot awtomatig a hyd yn oed effeithiau arbennig ar gyfer ffilmiau.

Gofynion mynediad penodol:
Naill ai gradd B mewn TGAU Mathemateg a Saesneg neu radd C mewn TGAU Cyfrifiadureg.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs HND Cyfrifiadura Cymhwysol neu astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Gyrfaoedd mewn amrywiaeth o ddiwydiannau megis ymchwil a datblygiad, animeiddio ffilmiau a rhaglennu.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Safon Uwch)

Byddwch yn ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnoch i ddatrys amrywiaeth o broblemau'r byd go iawn gan ddefnyddio'r dechnoleg a'r meddalwedd sydd ar gael.

Mae'r unedau a astudir yn cynnwys:
- Systemau gwybodaeth
- Tasg cyflwyno gwybodaeth
- Defnydd o TGCh a'i effaith
- Prosiect cronfa ddata berthynol.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Mathemateg yn hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs HND Cyfrifiadura Cymhwysol.

Mae Safon Uwch mewn TGCh yn sylfaen gadarn i lawer o lwybrau pwnc eraill ond gallai hefyd arwain at yrfa arbenigol, prentisiaeth neu addysg uwch.

Mae cyfleoedd gyrfa i'w cael yn y sector gan gynnwys cymorth TG, diogelwch TG, datblygu gwe, cyfrifiadura cwmwl, dadansoddi busnes a llawer mwy.



Mae dros **400 o fusnesau electronig** (gan gynnwys rhai fel Sony) yng Nghymru.
Ffynhonnell: tradeandinvest.wales/key-industries/tech

# Peirianneg

Mae peirianwyr electronig ar flaen y gad o ran technolegau'r dyfodol – mae'n gyfnod cyffrous i astudio Electroneg!

## Electroneg (Safon Uwch)

(Darpariaeth linol – gweler tudalen 15)

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu elfennau academaidd ac ymarferol electroneg.

Caiff ei addysgu dros chwe uned ac mae'n cynnwys pynciau megis systemau digidol ac analog, cylchedau a chydrannau, a phrosiect systemau rheoli rhaglenadwy.

Ym mlwyddyn dau byddwch yn astudio systemau cyfathrebu a chymwysiadau systemau. Bydd yr uned olaf yn brosiect lle byddwch yn dylunio ac yn profi system electronig.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Gwyddoniaeth a Mathemateg.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig neu Beirianneg Fecanyddol.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol, electroneg alwedigaethol neu brentisiaeth yn y sector.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.



# Saesneg

Astudiwch Saesneg a bydd y byd i gyd o'ch blaen! Mae'n ddewis ardderchog i fyfyrwyr sydd am astudio'r celfyddydau, y dyniaethau, ieithoedd neu fusnes yn y brifysgol.

## Saesneg Iaith (Safon Uwch)

Mae'r cwrs Safon Uwch hwn yn mabwysiadu ymagwedd fforensig at ddadansoddi iaith lafar, print ac iaith ar-lein.

Byddwch yn datblygu pecyn cymorth dadansoddol o derminoleg ramadegol a damcaniaethau ieithyddol a fydd yn eich galluogi i ddadansoddi unrhyw destun. Mae blwyddyn dau yn cynnwys modiwlau ar yr iaith lafar ac iaith dros amser, a hefyd prosiect ymchwil annibynnol.

Byddwn yn canolbwyntio ar sut mae iaith yn adlewyrchu ac yn creu pŵer yn ein byd ac yn ystyried sut mae pobl yn addasu iaith yn ôl dibenion a chyd-destunau gwahanol. Byddwch hefyd yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o *genres* ac yn dysgu sut i ddefnyddio eich pecyn cymorth i ddadansoddi eich ysgrifennu eich hun.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Saesneg Iaith yn ofynnol, ond gradd B yn ddymunol. Gradd C mewn Saesneg Llenyddiaeth yn ddymunol hefyd.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudio yn y brifysgol a gyrfaoedd mewn Saesneg Iaith, ysgrifennu creadigol, newyddiaduriaeth, hysbysebu a chyfathrebu, ieithyddiaeth fforensig a chyfrifiannol, ieithoedd modern, cyfieithu neu addysgu.

Mae myfyriwr Safon Uwch o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cael cynnig lle mewn prifysgol fawreddog yn America.

Mae Bethany Wisdom a astudiodd gyrsiau Safon Uwch Hanes, Saesneg Llenyddiaeth a Ffrangeg ac a ddilynodd raglen HE+ y Coleg, wedi cael cynnig lle i astudio'r celfyddydau breiniol yng Ngholeg Bryn Mawr ym Mhensylfania.

"Roeddwn i'n teimlo'n hollol ecstatig pan ges i'r cynnig. Roedd yn benllanw llawer o waith caled ac roeddwn i'n edrych ymlaen at fynd ar y daith i gael hyd i'r ffit iawn i mi," meddai Bethany. "Mae fy nheulu mor gefnogol ac yn gyffrous iawn, er gwaethaf y pellter. Dwi'n edrych ymlaen at ymgolli yn yr amrywiaeth eang o opsiynau academaidd yn Bryn Mawr ond yn fwy na dim, dwi'n llawn cyffro am y gymuned gefnogol a chlòs – dwi'n gwybod y bydda i'n dod o hyd i gartref oddi cartref!"



"Rydyn ni i gyd wrth ein bodd â llwyddiant Bethany," meddai Fiona Beresford, Cydlynydd Rhydgrawnt/HE+. "Mae hwn yn gyfle anhygoel ac yn un haeddiannol iawn gan fod Bethany wedi gweithio mor galed. Rydyn ni'n falch iawn o'i chyflawniad ac yn dymuno llwyddiant parhaus iddi yn ei holl ymdrechion yn y dyfodol ar draws yr Iwerydd!"

Ar wahoddiad Prifysgol Caergrawnt, Coleg Gŵyr Abertawe yw'r unig sefydliad yng Nghymru sydd wedi cael ei ddewis i redeg y rhaglen HE+ ac mae'n gweithredu fel y canolbwynt ar gyfer yr holl chweched dosbarthiadau gwladol yn Abertawe.

Mae HE+ yn datblygu sgiliau academaidd ac yn ysbrydoli myfyrwyr i anelu'n uchel wrth wneud dewisiadau prifysgol a datblygu eu gwybodaeth a'u diddordebau uwch-gwricwlaidd.

Cefnogir HE+ hefyd gan Raglen Seren Llywodraeth Cymru.

## Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn gallwch astudio llenyddiaeth trwy iaith. Cewch eich cyflwyno i'r ffactorau cyd-destunol diddorol sydd wedi llunio'r ysgrifennu a'r darlleniadau gwahanol o destunau.

Byddwch yn cynnig sylwadau ar destunau gwahanol (ffuglen a ffeithiol, llafar ac ysgrifenedig) gan ddefnyddio'r derminoleg lenyddol ac ieithyddol y byddwch yn ei dysgu.

Byddwch yn astudio'r ddrama *A Streetcar Named Desire*, yr hunangofiant *Once in a House on Fire* ac antholeg o farddoniaeth o Brydain ym mlwyddyn un. Ym mlwyddyn dau byddwch yn astudio *The Color Purple* a *King Lear.* Byddwch yn cwblhau prosiect gwaith cwrs gan ddadansoddi nofelau a chynhyrchu gwaith ysgrifennu creadigol o *genre* llenyddol penodol.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Saesneg Iaith a TGAU Saesneg Llenyddiaeth yn ofynnol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Mae'r cwrs Safon Uwch hwn yn hanfodol i symud ymlaen i astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn Saesneg Llenyddiaeth.

Gyrfaoedd ym myd newyddiaduriaeth ac addysgu.

## Saesneg Llenyddiaeth (Safon Uwch)

Bydd y pwnc hwn yn eich annog i astudio gwahanol destunau yn fanylach a gwneud cysylltiadau rhyngddynt.

Cewch eich cyflwyno i rai o'r ffactorau cyd-destunol diddorol sydd wedi llunio'r ysgrifennu a'r darlleniadau gwahanol o destunau.

Ym mlwyddyn un byddwch yn astudio *Jane Eyre* gan Charlotte Brontë*, A Streetcar Named Desire* gan Tennessee Williams a barddoniaeth Edward Thomas ac Alun Lewis. Ym mlwyddyn dau byddwch yn astudio *The Merchant's Prologue and Tale* gan Chaucer a *King Lear* gan Shakespeare.

Byddwch yn cwblhau modiwl gwaith cwrs hefyd ar ddau destun rhyddiaith o wahanol gyfnodau.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Mae'r cwrs Safon Uwch hwn yn hanfodol i symud ymlaen i astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn Saesneg Llenyddiaeth.

Gyrfaoedd ym myd newyddiaduriaeth ac addysgu.



# Iechyd

Mae dros 4 filiwn o bobl yn y DU yn gweithio ym maes gofal iechyd, ac mae galw byd-eang am bobl â chymwysterau proffesiynol.

## Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylw i'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y sector a gellir ei ddilyn naill ai ochr yn ochr â phynciau Safon Uwch eraill neu Ddiploma neu Dystysgrif Lefel 3 (gweler tudalen 57).

Mae pynciau yn y flwyddyn gyntaf yn debygol o gynnwys:

- Risgiau addasadwy i iechyd, sut mae risgiau iechyd yn gallu newid
- Hybu iechyd da.

Yn yr ail flwyddyn, gallwch arbenigo mewn iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant.

Cymraeg — Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i gwrs Gradd Sylfaen mewn Gofal a Chymorth neu Blentyndod Cynnar.

Cyflogaeth mewn gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, iaith a lleferydd, nyrsio, bydwreigiaeth, seicoleg neu'r blynyddoedd cynnar.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.



# Y Dyniaethau

O'r Ymerodraeth Rufeinig i faterion cyfoes a chrefydd, mae'r cyrsiau hyn yn ddelfrydol i'r myfyrwyr sydd â diddordeb mewn materion yn y gorffennol a'r presennol.

## Hanes yr Hen Fyd (Safon Uwch)

(Darpariaeth linol – gweler tudalen 15)

Mae'r cwrs hwn yn astudio hanes a diwylliant Hen Roeg a Rhufain gan gynnwys eu systemau llywodraethu, strwythur eu cymdeithas, eu gwaith adeiladu a'u harferion crefyddol.

Mae'r pynciau y byddwch yn eu hastudio yn cynnwys yr Ymerodraeth Rufeinig gynnar rhwng 31CC a 96OC, hanes Groeg yn y 5ed ganrif CC a llywodraeth a gwleidyddiaeth hen Sparta.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith yn hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn hanes modern, y gyfraith, Saesneg, athroniaeth a gwleidyddiaeth.

## Gwareiddiad Clasurol (Safon Uwch)

(Darpariaeth linol – gweler tudalen 15)

Mae'r cwrs hwn yn astudio diwylliannau hen Roeg a Rhufain yn bennaf trwy eu celf a'u llenyddiaeth.

Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn darganfod bod cysylltiad cryf rhwng eu celf a'u llenyddiaeth â'u hunaniaeth ddiwylliannol a'u bod yn seiliedig ar fytholeg Groeg a Rhufain.

Mae'r pynciau y byddwch yn eu hastudio yn cynnwys:
- Yr arwrgerdd Roegaidd (yr Iliad)
- Y theatr Roegaidd (trasiedi a chomedi)
- Yr arwrgerdd Rufeinig (yr Aeneid)
- Crefydd Groeg.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith yn hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gyrfaoedd ym myd masnach, y gyfraith, cyllid a gweinyddu cyhoeddus yn ogystal ag addysgu, amgueddfeydd a chadwraeth.

## Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (Safon Uwch)

Mae'r cwrs hwn yn berffaith i'r rhai sydd â diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes, sut mae'r wlad yn cael ei llywodraethu, gwahanol systemau gwleidyddol a sut maent yn gweithio.

Mae'r meysydd astudio ym mlwyddyn un yn cynnwys:
- Hawliau a democratiaeth yn y DU
- Etholiadau a phleidleisio
- Pleidiau a grwpiau gwleidyddol
- Sefydliadau llywodraethol cynrychioliadol yn y DU.

Mae'r meysydd astudio ym mlwyddyn dau yn cynnwys:
- Gwleidyddiaeth UDA
- Ideolegau megis ceidwadaeth, sosialaeth, rhyddfrydiaeth a chenedlaetholdeb.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gallech astudio gwleidyddiaeth neu gysylltiadau rhyngwladol yn y brifysgol.

Gyrfaoedd ym myd gwleidyddiaeth, pleidiau gwleidyddol a grwpiau pwyso, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, y cyfryngau, newyddiaduriaeth, gwaith cymdeithasol, bancio, y gyfraith, gwasanaethau cyhoeddus, byd busnes a diwydiant.



Aeth grŵp o fyfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe ar daith lwyddiannus i America. Roedd y myfyrwyr, o gyrsiau Safon Uwch ac UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a Hanes, wedi ymweld â thirnodau addysgol a diwylliannol yn Ninas Efrog Newydd a Washington DC.

## Hanes (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddeall y dehongliad o'r gorffennol yn ogystal â'ch galluogi i ymchwilio, dadansoddi, dadlau, defnyddio ffynonellau hanesyddol ac ysgrifennu'n dda.

Mae'r pynciau a astudir yn cynnwys:

- Llywodraeth, gwrthryfel a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1485-1603
- Weimar a'i heriau 1918-1933
- Canrif yr Americanwyr 1890-1990
- Yr Almaen Natsïaidd 1933-1945
- Dehongliadau hanesyddol (gwaith cwrs).

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Hanes (neu radd B mewn Saesneg Iaith os na astudiwyd Hanes).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gyrfaoedd ym meysydd gweinyddu a rheoli, cysylltiadau cyhoeddus, addysgu, llyfrgellyddiaeth, gwaith archifau ac archeolegol, amgueddfeydd ac orielau, y gyfraith, newyddiaduriaeth a'r cyfryngau.

Mae astudio Hanes yn darparu **ymwybyddiaeth ddiwylliannol** a gall eich addysgu pam mae pobl yn gweithredu yn y ffordd a wnânt.

Mae Hanes yn cael ei ystyried yn Safon Uwch sy'n hwyluso mynediad i **Brifysgolion Russell Group** gan ei fod yn agor amrywiaeth eang o ddewisiadau astudio.

**Diwrnod Cofio'r Holocost**



Yn ddiweddar roedd grŵp o ddysgwyr Safon Uwch Hanes wedi clywed tystiolaeth gan oroeswr yr Holocost Eva Clarke BEM fel rhan o ymweliad a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET).

Fe wnaethon nhw gymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb hefyd i'w galluogi i ddeall natur yr Holocost yn well ac archwilio ei wersi yn fwy manwl.

## Astudiaethau Crefyddol (Safon Uwch)

Gall y cwrs hwn roi sgiliau trosglwyddadwy ardderchog i chi megis ysgrifennu traethodau, dadlau a'r gallu i werthfawrogi safbwyntiau eraill. Mae'r holl sgiliau hyn yn gallu bod yn anhygoel o ddefnyddiol wrth wneud cais am raddau sy'n cynnwys meddwl yn feirniadol a thrafod e.e. y dyniaethau, Saesneg, y gyfraith, seicoleg.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o grefyddau'r byd (h.y. Bwdhaeth), athroniaeth a moeseg.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn ddymunol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Gyrfaoedd ym maes addysgu, gwaith cymdeithasol, newyddiaduriaeth, nyrsio, cysylltiadau cyhoeddus a gwaith ieuenctid.



Mae myfyrwyr Astudiaethau Crefyddol yn ymweld â'r Ganolfan Fwdhaidd leol bob blwyddyn.

Eleni, cawson nhw esboniad ar dri math o fyfyrdod a chael sampl ar bob un gyda'r athro preswyl.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.



# Ieithoedd

Gall cymhwyster mewn ieithoedd arwain at amrywiaeth eang o yrfaoedd megis cyfieithu, rheoli gwesty, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus neu newyddiaduriaeth.

## Ffrangeg (Safon Uwch)

Bydd y cwrs yn adeiladu ar y sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu sydd gennych eisoes.

Trwy astudio themâu megis bod yn berson ifanc yn y byd Ffrangeg ei iaith, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r diwylliant a'r ffordd o fyw.

Yn y flwyddyn gyntaf byddwch hefyd yn astudio ffilm. Cewch gymorth gan siaradwr brodorol ar gyfer eich gwaith llafar ac ieithyddol cyffredinol ac yn treulio amser yn y labordy iaith i ymarfer sgiliau gwrando ac ynganu.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Ffrangeg a Saesneg.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Gallech chi ddilyn gyrfaoedd ym maes cyfieithu, cyfieithu ar y pryd ac addysgu.

Mae siarad iaith arall yn cynyddu cyflogadwyedd, yn gwella sgiliau cyfathrebu, annibyniaeth a hunanhyder.

Mae Ffrangeg yn un o'r ieithoedd a siaredir fwyaf yn y byd ac yn un o ddim ond chwe iaith swyddogol y Cenhedloedd Unedig.

## Sbaeneg (Safon Uwch)

Bydd y cwrs yn adeiladu ar eich sgiliau presennol o siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.

Trwy astudio themâu megis bod yn berson ifanc yn y byd Sbaeneg ei iaith, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r diwylliant a'r ffordd o fyw.

Yn y flwyddyn gyntaf byddwch hefyd yn astudio ffilm. Cewch gymorth gan siaradwr brodorol ar gyfer eich gwaith llafar ac ieithyddol cyffredinol ac yn treulio amser yn y labordy iaith i ymarfer sgiliau gwrando ac ynganu.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Sbaeneg a Saesneg.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Gallech chi ddilyn gyrfaoedd ym maes cyfieithu, cyfieithu ar y pryd ac addysgu.

Mae siarad iaith arall yn cynyddu cyflogadwyedd, yn gwella sgiliau cyfathrebu, annibyniaeth a hunanhyder.

## Cymraeg - Ail Iaith (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn, byddwch yn profi amryw o ddulliau dysgu ac addysgu.

Bydd cyfle gennych i ddefnyddio unrhyw gyfuniad o sgiliau iaith - darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu.

Byddwch yn defnyddio'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael yn yr adran.

**Cyfleoedd**
Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn gofyn am **sgiliau iaith Gymraeg**, yn enwedig mewn rolau sy'n wynebu cwsmeriaid.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Cymraeg (cwrs llawn, ail iaith).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudio'r Gymraeg ar lefel addysg uwch.


Cyfleoedd cyflogaeth yn y gwasanaeth sifil, y cyfryngau yng Nghymru, gwasanaethau iechyd a gofal neu'r heddlu.

### TGAU Cymraeg

Cynigiwn gwrs blwyddyn TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) i'r rhai a hoffai adeiladu ar eu proffil TGAU presennol neu'r rhai sy'n dewis Safon Uwch Cymraeg ac sydd am wella eu sgiliau.

# Mathemateg a Gwyddoniaeth

Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa cyffrous ac amrywiol yn ogystal â darparu llwyfan ardderchog ar gyfer astudiaethau academaidd pellach.




## Mathemateg (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu sgiliau a thechnegau sylfaenol mathemateg.

Mae'n cynnwys ymarferion a gwaith cartref i gyfnerthu'r technegau a'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu yn y dosbarth.

Mae meysydd astudio yn cynnwys mathemateg bur, mecaneg ac ystadegau.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd A mewn TGAU Mathemateg o'r haen uwch (bydd gradd B yn cael ei hystyried).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Mae Safon Uwch Mathemateg yn ofynnol ar gyfer nifer o gyrsiau gradd.

## Mathemateg Bellach (Safon Uwch)


Nod y cwrs hwn yw ehangu a dyfnhau'r wybodaeth a'r sgiliau mathemategol a ddatblygwyd wrth astudio Safon Uwch Mathemateg.

Mae meysydd astudio yn cynnwys mathemateg bur bellach, mecaneg bellach ac ystadegau pellach.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd A* mewn TGAU Mathemateg yn ofynnol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Mae Safon Uwch Mathemateg Bellach yn ofynnol fel arfer ar gyfer graddau mewn mathemateg, ffiseg neu beirianneg.




### Cystadleuaeth mathemateg

Roedd grŵp o fyfyrwyr Safon Uwch Coleg Gŵyr Abertawe wedi cystadlu ar gyfer Uwch Her Mathemateg UKMT, cystadleuaeth dewis lluosog 90 munud wedi'i hanelu at ddysgwyr o bob rhan o'r DU.

Mae'r her yn annog rhesymu mathemategol, meddwl yn fanwl a rhuglder wrth ddefnyddio technegau mathemategol sylfaenol i ddatrys problemau diddorol.

Enillodd y myfyrwyr fedalau trawiadol – roedd wyth wedi ennill Aur, roedd 16 wedi ennill Arian ac roedd 11 wedi ennill Efydd.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.

## Bioleg (Safon Uwch)

Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn cymwysiadau ymarferol theori biolegol.

Ar ôl dysgu'r egwyddorion sylfaenol, byddwch yn symud ymlaen i astudiaethau mwy manwl ffisioleg, systemau cellog, geneteg, esblygiad ac atgynhyrchu.

Mae pwyslais ar arbrofion ymarferol trwy'r cwrs, a bydd arholiad ymarferol ar y diwedd a gaiff ei farcio'n allanol.

*Mae Bioleg yn bwnc gwych i'ch helpu i ddatblygu'ch sgiliau ymchwil, datrys problemau, trefnu a'ch sgiliau dadansoddol.*

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (dwbl, triphlyg, haen uwch).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gwyddor Fforensig a Dadansoddol.

Bydd nifer o fyfyrwyr yn defnyddio'r pwnc hwn fel llwyfan i gael mynediad i feddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth.

Mae cyrsiau gradd eraill yn cynnwys bioleg, swoleg, gwyddorau morol, biocemeg a phynciau eraill cysylltiedig ag iechyd megis fferylliaeth, gwyddorau biomeddygol, radiograffeg, optometreg a nyrsio.



### Olympiad Bioleg

Roedd grŵp o fyfyrwyr Safon Uwch Bioleg o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cymryd rhan yn Olympiad Bioleg Prydain yn ddiweddar.

Cawson nhw ganlyniadau gwych, ac roedd un ohonynt, Rebecca Thompson wedi ennill medal Arian gydag un arall, Edan Reid yn ennill medal Efydd.

## Cemeg (Safon Uwch)

*Weithiau mae Cemeg yn cael ei alw yr **wyddor ganolog** oherwydd mae'n cysylltu'r holl wyddorau eraill â'i gilydd.*

Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau dros y ddwy flynedd.

Bydd blwyddyn un yn cynnwys adeiledd yr atom, ecwilibriwm cemegol, cyfrifiadau cemegol, egnïeg a chineteg a bondio cemegol.


Ym mlwyddyn dau byddwch yn astudio sbectrosgopeg, cyfansoddion organig a synthesis, rhydocs, cineteg gemegol, enthalpi cyfnodedd, entropi ac ecwilibria.

Mae arholiad ymarferol sy'n cael ei asesu ac felly mae'r cwrs yn cynnwys arbrofion labordy sy'n gysylltiedig â deunyddiau'r cwrs.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (dwbl, triphlyg, haen uwch).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gwyddor Fforensig a Dadansoddol.

Mae nifer o gyrsiau addysg uwch gan gynnwys meddygaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth, deieteg a fferylliaeth yn gofyn am Safon Uwch Cemeg.



Myfyrwyr cemeg yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth ym Mhrifysgol Abertawe.

ASSOCIATE SCHOOLS AND COLLEGES OF
THE ROYAL SOCIETY

Mae'r Coleg wedi ennill statws **Aelod Cyswllt** gan y Gymdeithas Frenhinol, academi wyddoniaeth genedlaethol y DU.

## Daeareg (Safon Uwch)
(Darpariaeth linol – gweler tudalen 15)

Ar y cwrs hwn byddwch yn darganfod sut mae daeareg yn wyddor sy’n gymwys i amryw o egwyddorion ffisegol, cemegol a biolegol.

Byddwch yn astudio’r peryglon naturiol i fodau dynol megis daeargrynfeydd, llosgfynyddoedd, tswnamïau a thirlithriadau a sut y gellir lleihau’r risgiau hyn trwy ragfynegi, atal neu reoli peryglon.

Byddwch hefyd yn dysgu am ddarganfod ac echdynnu adnoddau hanfodol o’r ddaear megis olew, glo, dŵr a metelau.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Gwyddoniaeth a Mathemateg.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol (mae Safon Uwch Mathemateg yn ofynnol ar gyfer llawer o’r cyrsiau).

Gyrfaoedd ym meysydd peirianneg, hydroddaeareg, bioleg, gwyddor yr amgylchedd ac eigioneg.

## Ffiseg (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio sawl maes gan gynnwys:
- Mudiant, ynni a mater
- Trydan a golau
- Osgiliadau a niwclysau
- Meysydd ac opsiynau.

Ym mlwyddyn dau byddwch yn sefyll arholiad ymarferol sy’n rhoi cyfle i chi gwblhau ymchwiliad a gwerthuso data arbrofol.

Mae Ffiseg yn cael ei hystyried yn Safon Uwch sy’n hwyluso mynediad i **Brifysgolion Russell Group** gan ei bod yn agor amrywiaeth eang o ddewisiadau astudio.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B o leiaf mewn TGAU Ffiseg (neu Wyddoniaeth dyfarniad dwbl), Mathemateg (Haen Uwch) a Saesneg.

Gallai Graddau C gael eu hystyried adeg cyfweliad.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i’r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gwyddor Fforensig a Dadansoddol.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol ar gwrs gradd technegol neu wyddonol mewn ffiseg, peirianneg (sifil, mecanyddol, trydanol neu electronig), pensaernïaeth, meddygaeth neu filfeddygaeth.





# Y Cyfryngau

Maen nhw ar eich ffôn, ar y rhyngrwyd ac ar y newyddion. Enillwch sgiliau i lwyddo yn ein byd sy’n cael ei yrru fwyfwy gan dechnoleg.

## Astudiaethau’r Cyfryngau (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn cynnig cyfle i chi ddatblygu dealltwriaeth drwyadl o’r ffordd y mae’r cyfryngau yn chwarae rôl ganolog mewn diwylliant cyfoes, cymdeithas a gwleidyddiaeth.

Byddwch yn defnyddio cysyniadau allweddol ac amrywiaeth o bersbectifau beirniadol i gefnogi archwilio a myfyrio beirniadol, dadansoddi a dadlau.

Mae’r meysydd astudio yn cynnwys:
- Iaith y cyfryngau
- Cynrychiolaeth
- Diwydiannau’r cyfryngau
- Cynulleidfaoedd.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith neu Lenyddiaeth.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i’r cwrs Gradd Sylfaen mewn Rheoli Digwyddiadau.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn meysydd pwnc gan gynnwys astudiaethau’r cyfryngau, newyddiaduriaeth, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata ac astudiaethau ffilm.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.




# Cerddoriaeth

Adran gerddoriaeth y Coleg yw'r un fwyaf yng Nghymru ac rydym yn rhedeg amrywiaeth o *ensembles* gan gynnwys côr, cerddorfa a band jazz.

Drwy gydol y flwyddyn bydd ein myfyrwyr yn cael cyfle i **berfformio yn nigwyddiadau corfforaethol y Coleg** megis ein Gwobrau Blynyddol Myfyrwyr a'n Seremoni Raddio AU.

## Cerddoriaeth (Safon Uwch)

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio amrywiaeth eang o bynciau cerddoriaeth gan gynnwys:

- Ymchwilio i ddatblygiadau cerddorol arwyddocaol (1650 hyd heddiw)
- Astudio sawl gwaith gosod gan gynnwys Offerynnau dros y Meirw gan Mozart a Verdi ochr yn ochr â thechnegau theatr gerdd yr 20fed ganrif
- Cyfansoddi clasurol gorllewinol, argraffiadaeth, minimaliaeth ac arddulliau eraill.

Cewch gymorth perfformio sylweddol gan ein hyfforddwr perfformio dynodedig.

Gofynion mynediad penodol:
Graddau A neu B mewn TGAU Cerddoriaeth neu radd V Theori (ABRSM).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol i ddarllen cerddoriaeth neu arbenigo mewn perfformiad mewn *conservatoire*.

Gyrfaoedd a chyflogaeth fel perfformwyr, cyfansoddwyr, newyddiadurwyr cerddoriaeth, athrawon a pheirianwyr recordio.

## Technoleg Cerdd (Safon Uwch)

Darpariaeth linol – gweler tudalen 15

Byddwch yn astudio technegau caledwedd a meddalwedd cynhyrchu ac yn gallu defnyddio amrywiaeth o gyfleusterau stiwdio recordio a golygu.

Trwy weithio gyda myfyrwyr o gefndiroedd cerddoriaeth boblogaidd a thraddodiadol, cewch eich annog hefyd i archwilio'ch cerddgarwch a chreu deunyddiau gwreiddiol gan ddefnyddio technoleg.

Byddwch yn cwblhau portffolio gorffenedig o waith yn cynnwys cynyrchiadau recordio a chyfansoddi.

Gofynion mynediad penodol:
Nid oes rhaid eich bod wedi astudio TGAU Cerddoriaeth, ond mae'r gallu i ganu offeryn yn hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol i ddarllen amrywiaeth eang o gyrsiau cerddoriaeth boblogaidd a pheirianneg sain.

Cyflogaeth yn y diwydiant fel perfformwyr, cyfansoddwyr, athrawon, peirianwyr sain neu gynhyrchwyr recordiau.



Mae myfyrwyr Safon Uwch Cerdd a Technoleg Cerdd o'r Coleg yn dathlu ar ôl cael cynigion cwrs gan rai o'r **prifysgolion a'r *conservatoires* gorau** yn y DU.

"Dyn ni wedi cael blwyddyn anhygoel o ran dilyniant myfyrwyr o Goleg Gŵyr Abertawe i addysg uwch. Dwi wrth fy modd bod cynifer ohonyn nhw wedi cael lleoedd yn y sefydliadau nodedig hyn," dywedodd yr Arweinydd Cwricwlwm Jonathan Rogers.

"Mae pob un ohonyn nhw wedi mynd trwy broses glyweliadau hynod fanwl a chystadleuol a dylen nhw fod yn falch o'u llwyddiannau."



# Y Celfyddydau Perfformio

Mae gan y Coleg gysylltiadau ardderchog â cholegau arbenigol. Rydym yn ganolfan clyweliadau cenedlaethol ar gyfer Arts Ed Llundain, Academi Mountview a Theatr Genedlaethol Ieuenctid.

## Dawns (Safon Uwch)

(Darpariaeth linol – gweler tudalen 15)

Cewch brofiad o berfformio, coreograffi a dadansoddi dawns.

Does dim rhaid i chi gael profiad dawns blaenorol, dim ond ymrwymiad a phenderfyniad.

Mae'r meysydd astudio yn cynnwys:
- Deall dawns
- Coreograffi a pherfformio
- Perfformio fel unawd
- Perfformio mewn pedwarawd
- Coreograffi grŵp
- Perfformio mewn deuawd/triawd.

Mae ffi stiwdio o £100.

**Gofynion mynediad penodol:**
Gradd C mewn TGAU Saesneg yn ofynnol.

**Dilyniant/Gyrfaoedd:**
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i gwrs TystAU mewn Theatr Gerdd.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol gan gynnwys sefydliadau blaenllaw megis Sba Caerfaddon, Academi URDANG, Laban ac Ysgol Dawns Gyfoes Llundain.

Cyfleoedd cyflogaeth ym meysydd addysg, perfformio, gweinyddu a choreograffi.

## Drama (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddilyn eich diddordebau a'ch sgiliau mewn amryw o elfennau ymarferol a theori drama gan gynnwys:
- Gweithdai theatr
- Testun yn y theatr
- Testun mewn perfformiad
- Testun ar waith.

Codir ffi stiwdio o £100 fel cyfraniad tuag at ymweliadau theatr a gweithdai.

**Gofynion mynediad penodol:**
Gradd B mewn TGAU Saesneg. Diddordeb brwd yn y celfyddydau perfformio a dramatig.

**Dilyniant/Gyrfaoedd:**
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i gwrs TystAU mewn Theatr Gerdd.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol.

Cael eich derbyn i astudio yn y prif golegau drama gan gynnwys RADA, LAMDA, Bristol Old Vic ac Ysgol Ganolog Lleferydd a Drama.

Ar ôl cwblhau'ch cwrs Safon Uwch, gallech symud ymlaen i'r cwrs Perfformio Lefel 4. Yn 2019 roedd myfyrwyr ar y cwrs hwn wedi cyflwyno eu prosiect cyhoeddus olaf, y drasiedi Roegaidd *Medea*, yn Theatr Volcano Abertawe lle roedden nhw wedi actio o flaen theatr lawn ar y ddwy noson.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.



# Gwyddor Gymdeithasol

Os oes gennych ddiddordeb yn y byd o'ch cwmpas, boed hynny yr amgylchedd naturiol neu ryngweithiau dynol, bydd y cyrsiau hyn yn berffaith i chi!

Mae Daearyddiaeth yn cael ei hystyried yn Safon Uwch sy'n hwyluso mynediad i **Brifysgolion Russell Group** gan ei bod yn agor amrywiaeth eang o ddewisiadau astudio.

## Daearyddiaeth (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn eich annog i gywain a chymhwyso gwybodaeth o'r byd ar amryw o raddfeydd, trwy ymchwilio i brosesau ffisegol a dynol yn gytbwys.

Mae hefyd yn ceisio datblygu dealltwriaeth o'r rhyngberthynas rhwng pobl a'u hamgylchedd.

Mae'r meysydd astudio yn cynnwys:
- Peryglon tectonig
- Tirffurfiau a phrosesau arfordirol
- Technegau gwaith maes
- Systemau byd-eang
- Heriau'r 21ain ganrif
- Twf a heriau economaidd yn India
- Heriau a dilemâu ynni.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Daearyddiaeth yn ofynnol, ond bydd myfyrwyr hebddo yn cael eu hystyried ar sail eu portffolio TGAU cyffredinol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gyrfaoedd ym meysydd meteoroleg, peirianneg, rheoli peryglon, ymgynghori amgylcheddol, gwaith cadwraeth, cynllunio, economeg, y gwasanaeth sifil ac addysgu.

## Seicoleg (Safon Uwch)

Cwrs diddorol a heriol yw hwn sy'n cwmpasu sawl maes o fewn seicoleg.

Mae'r meysydd astudio ym mlwyddyn un yn cynnwys:
- Y prif ymagweddau mewn seicoleg
- Dulliau ymchwil a ddefnyddir gan seicolegwyr.

Mae'r meysydd astudio ym mlwyddyn dau yn cynnwys:
- Esboniadau a dulliau o leddfu sgitsoffrenia, straen ac ymddygiad troseddol
- Dulliau ymchwil a dadansoddi ystadegau.

Gofynion mynediad penodol:
Saith TGAU gyda gradd B mewn Saesneg Iaith yn hanfodol i gael eich derbyn ar y cwrs hwn.

Gradd B mewn TGAU Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ddymunol, ond nid yw'n hanfodol.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.

Gyrfaoedd ym meysydd seicoleg droseddol, seicoleg addysg, seicoleg chwaraeon a seicoleg glinigol.

Hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer gyrfaoedd ym maes addysgu, nyrsio, gwaith cymdeithasol, adnoddau dynol a'r heddlu.




# Chwaraeon

Mae swyddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chymwysterau chwaraeon yn cynnwys rheolwr canolfan ffitrwydd, hyfforddwr personol, swyddog datblygu chwaraeon ac athro/athrawes ymarfer corff.

## Addysg Gorfforol (Safon Uwch)

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i feithrin dealltwriaeth eang o amryw o gysyniadau gan gynnwys:

- Sut mae cyflyrau ffisiolegol a seicolegol yn effeithio ar berfformiad
- Y ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol allweddol sy'n dylanwadu ar bobl a gweithgarwch corfforol a chwaraeon
- Rôl technoleg mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon
- Cyfraniad gweithgarwch corfforol i iechyd a ffitrwydd
- Sut i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Gwyddoniaeth yn hanfodol.

Chwarae o leiaf un gamp i safon lefel clwb.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig megis gwyddor chwaraeon, adsefydlu chwaraeon, therapi chwaraeon, maeth chwaraeon, hyfforddi ac addysgu.

Gyrfaoedd mewn chwaraeon, hamdden, iechyd a ffitrwydd.

## Cymdeithaseg (Safon Uwch)

Ar y cwrs diddorol a heriol hwn byddwch yn astudio rhyngweithio dynol, strwythur cymdeithasol a diwylliant.

Meysydd astudio blwyddyn un:

- Archwilio cymdeithasoli, diwylliant a hunaniaeth
- Teuluoedd a chartrefi
- Dulliau addysg ac ymchwil a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr.

Meysydd astudio blwyddyn dau:

- Trosedd a gwyriad
- Anghydraddoldeb cymdeithasol
- Dulliau ymchwil cymhwysol.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Saesneg Llenyddiaeth

Os na astudiwyd Saesneg Llenyddiaeth bydd gradd B mewn Hanes neu Astudiaethau Crefyddol yn cael ei hystyried.

Mae cyn-fyfyrwyr wedi symud ymlaen i astudio ym **Mhrifysgol Rhydychen** a **Phrifysgol Caergrawnt** a hefyd dramor yn y Dwyrain Canol ac America.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.

Gyrfaoedd ym maes gwaith cymdeithasol, yr heddlu, addysgu, newyddiaduriaeth, nyrsio a gweithio i elusennau mawr.



Gofynion mynediad safonol Safon Uwch yw saith TGAU gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd.

# Cyrsiau galwedigaethol

Ydy elfennau gwaith cwrs TGAU yn well gennych chi nag arholiadau? Os felly byddai cwrs galwedigaethol yn ddewis da i chi.

Mae sawl lefel ar gyfer pob cwrs felly gallwch ddechrau ar y lefel sy'n cyfateb i'ch cymwysterau ac yna symud trwy'r lefelau.

## Cymorth tiwtorial

Bydd pob myfyriwr yn cael **tiwtor personol** i helpu i fonitro ei gynnydd academaidd yn y Coleg. Gall myfyrwyr fynychu sesiynau tiwtorial mewn grwpiau sy'n cynnwys siaradwyr gwadd, gweithgareddau menter, cyfarwyddyd gyrfaoedd a chymorth i lenwi ceisiadau UCAS.

## Cyrff dyfarnu

**Cymwysterau BTEC, VTCT, OCR, EAL a UAL -** rhaid i fyfyrwyr lunio portffolio o dystiolaeth ac ar rai cyrsiau ceir unedau a asesir drwy brofion allanol.

**Cymwysterau CBAC -** cânt eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru/Cymwysterau Cymru.

**Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) -** cymwysterau ymarferol yn seiliedig ar allu i wneud swydd, a chânt eu hennill trwy asesiadau a hyfforddiant.

**Cymwysterau City & Guilds -** cânt eu datblygu ar y cyd â chyrff diwydiant, gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyfoes bob amser.

### Gofynion mynediad safonol

Dim ond canllaw yw hwn. Fel rheol byddai disgwyl i fyfyrwyr ennill yr isafswm cymwysterau mynediad canlynol:

**Lefel Mynediad:** Dim gofynion mynediad ffurfiol.

**Lefel 1:** Nifer o raddau D-G neu uwch ar lefel TGAU

**Lefel 2:** Un radd C ar lefel TGAU, wedi'i hategu gan nifer o gymwysterau gradd D neu uwch

**Lefel 3:** Pum gradd C ar lefel TGAU.

### Ailsefyll TGAU

Peidiwch â phoeni os na chawsoch y graddau oedd eu hangen arnoch ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf). Gallwch ailsefyll y rhain yn eich blwyddyn gyntaf.

## WorldSkills

Mae pum myfyriwr o Goleg Gŵyr Abertawe wedi ennill lleoedd yng Ngharfan Hir WorldSkills ar ôl dod i'r brig yn eu meysydd yn y Rownd Derfynol Genedlaethol ym mis Tachwedd.

Roedd Liam Hughes, Ben Lewis, Rhys Watts a Nathan Evans yn bedwar o'r pum enillydd yn y categori Electroneg Ddiwydiannol, ac enillodd Paulina Skoczek le ar gyfer Gwasanaethau Bwyty.

"Rydw i mor falch o'n myfyrwyr," meddai Steve Williams, Arweinydd Cwricwlwm Peirianneg Electronig. "Mae'r ffaith bod pedwar allan o bum enillydd y DU yn dod o'r Coleg yn anhygoel. Mae hyn yn dyst go iawn i'w gwaith caled, ac rydyn ni i gyd yn llawn cyffro ynghylch eu dyfodol."

"Mae wedi bod yn anrhydedd cefnogi Paulina drwy'r broses hon," ychwanegodd Nicola Grant-Rees, Hyfforddwr/Arddangoswr Lletygarwch ac Arlwyo yn y Coleg. "Mae hi wedi gweithio mor galed ac rydyn ni'n hynod falch ohoni."

Y cam nesaf i'r myfyrwyr hyn yw hyfforddiant "yn ôl i'r hanfodion", yr hyfforddiant Gwasanaethau Bwyty sy'n digwydd yn Llandudno ac Electroneg Ddiwydiannol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

Byddant mewn cyfle i fod yng ngharfan y DU a Team UK a chystadlu yn EuroSkills yn Graz (Awstria) cyn rownd derfynol WorldSkills yn Shanghai.



# Canlyniadau Lefel 3

**53%** Rhagoriaeth

**84%** Teilyngdod

**98%** Cyfradd pasio gyffredinol

| **Canlyniadau Lefel 3** (ar gael adeg mynd i'r wasg) | Rhagoriaeth | Teilyngdod | Pasio |
|---|---|---|---|
| Busnes - Diploma | 60% | 24% | 16% |
| Busnes - Diploma Estynedig | 62% | 14% | 24% |
| Celf a Dylunio - Diploma Sylfaen | 33% | 39% | 27% |
| Coginio Proffesiynol Uwch - Diploma | Amherthnasol | Amherthnasol | 70% |
| Chwaraeon – Diploma Cenedlaethol | 8% | 83% | 8% |
| Chwaraeon (Datblygiad, Hyfforddi a Ffitrwydd) - Diploma Estynedig | 23% | 42% | 35% |
| Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff - Diploma Estynedig | 82% | 14% | 5% |
| Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - Diploma | Amherthnasol | Amherthnasol | 100% |
| Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - Diploma Estynedig | Amherthnasol | 100% | Amherthnasol |
| Gwasanaethau Cyhoeddus - Diploma | 42% | 32% | 26% |
| Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gwyddor Fforensig) - Diploma Estynedig | 57% | 43% | Amherthnasol |
| Gwyddor Feddygol Gymhwysol - Diploma Estynedig | 75% | 25% | Amherthnasol |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Diploma Estynedig | 86% | 8% | 6% |
| Peirianneg - Diploma Estynedig | 47% | 38% | 15% |
| Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth - Diploma Estynedig | 14% | 43% | 43% |
| Technoleg Cerbydau - Diploma | 100% | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Technoleg Gwybodaeth - Diploma Estynedig | 76% | 14% | 10% |
| Technoleg Peirianneg - Diploma | 53% | 37% | 5% |
| Technoleg Peirianneg - Diploma Estynedig | 82% | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Technoleg Peirianneg Electronig - Diploma | 44% | 56% | Amherthnasol |
| Technoleg Peirianneg Electronig - Diploma Estynedig Technegol | 56% | 44% | Amherthnasol |
| Teithio a Thwristiaeth - Diploma Estynedig | 14% | 14% | 43% |
| Y Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu - Diploma Estynedig | 45% | 34% | 21% |
| Y Cyfryngau Creadigol - Diploma Estynedig | 24% | 29% | 47% |

Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Dilyniant i AB

Bwriedir ein cwrs Dilyniant i Addysg Bellach ar gyfer **ymadawyr ysgol sy'n ansicr ynghylch pa lwybr galwedigaethol yr hoffen nhw ei ddilyn.** Mae hwn yn opsiwn amser llawn un flwyddyn wedi'i leoli ar Gampws Tycoch.

Cewch gyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o bynciau fel rhan o'r cwrs hwn.

Gall y rhain gynnwys*

- Adeiladu a phlymwaith
- Arlwyo
- Busnes
- Celf a dylunio
- Chwaraeon
- Gofal plant
- Gwasanaethau cyhoeddus
- Gwasanaethau salon
- Gwyddor fforensig
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Peirianneg
- Teithio a thwristiaeth
- TG/y cyfryngau digidol.

*gallai'r rhain newid.

## Ar ôl cwblhau:

- Symud ymlaen i gwrs amser llawn arall
- Symud ymlaen i gyflogaeth gyda chymorth a chyfarwyddyd gan ein staff Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol.

Siaradwch â ni heddiw
**Caryn Morgan**
01792 284233
caryn.morgan@gcs.ac.uk



# Celf a Dylunio

Mae dewis cwrs o fewn y diwydiannau creadigol yn gallu arwain at amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa. Mae'n sector sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae disgwyl i'r duedd hon barhau.




## Eich dilyniant:

Ar ôl cwblhau Lefel 3 gallech symud ymlaen i'r cwrs Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio neu'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Ffasiwn a Thecstilau yn y Coleg neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Ar ôl cwblhau Lefel 3 gallech symud ymlaen i'r cwrs Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio neu'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Ffasiwn a Thecstilau yn y Coleg neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector celfyddydau creadigol yn Abertawe.

£25,271
Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector.

1,673
Cyfanswm a gyflogir yn y sector.

7.80%
Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe.

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Codi arian
- Datblygu gwe
- Marchnata digidol.

**Prif alwedigaethau:**

- Gweithwyr proffesiynol marchnata
- Dylunwyr gwe.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Celf a Dylunio (Diploma Lefel 1)

Campws Llwyn y Bryn

Ar y cwrs blwyddyn hwn, byddwch yn astudio'r prif bynciau creadigol celf a dylunio.

Byddwch yn cymryd rhan mewn celf 2D/3D traddodiadol, ffotograffiaeth a phrosiectau dylunio digidol creadigol gan geisio meithrin sgiliau personol, creadigol a thechnegol.

Mae ffi stiwdio o £25.

**Gofynion mynediad penodol:**
Nifer o gymwysterau TGAU gradd D-G. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

## Celf a Dylunio (Diploma Lefel 2)

Campws Llwyn y Bryn

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi cyflwyniad cadarn i chi i'r ystod o ddisgyblaethau ymarferol o fewn celf a dylunio megis arlunio, peintio, cerameg, cerflunwaith, tecstilau, graffeg, ffotograffiaeth a chyfeiriadau cyd-destunol.

Mae ffi stiwdio o £50.

**Gofynion mynediad penodol:**
Pedair gradd D ar lefel TGAU. Gradd A-C mewn TGAU Celf a Dylunio yn ddymunol. Derbynnir cymwysterau cyfwerth, yn ystod cyfweliad. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.



"Mae'r cwrs wedi rhoi rhyddid i mi greu'r gelf dwi'n angerddol amdani. Dwi wedi mwynhau'r rhan fwyaf o'r bobl a pha mor anfeirniadol ydyn nhw.

Nesa', dwi'n gobeithio symud ymlaen i'r cwrs Celf a Dylunio Lefel 3.

Mae'r cwrs wedi fy helpu tuag at gyrraedd fy nod trwy fy helpu i fagu hyder yn fy ngalluoedd."

**Kirstie Garnett,** Celf a Dylunio Lefel 2 (cyn-ddisgybl Ysgol Esgob Gôr).

## Celf a Dylunio (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Llwyn y Bryn

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn eich paratoi ar gyfer dyfodol yn y diwydiannau creadigol gan gynnig amrywiaeth o feysydd ymarferol gan gynnwys ffasiwn, ffotograffiaeth, dylunio graffig, celfyddyd gain a chrefftau 3D.


Cewch eich herio gydag amryw o friffiau cyffrous a fydd yn eich annog i archwilio eich creadigrwydd a magu hyder wrth gyfleu syniadau.


Mae ffi stiwdio o £75 y flwyddyn.

**Gofynion mynediad penodol:**
Pum gradd A-C ar lefel TGAU gan gynnwys Celf a Dylunio. Derbynnir cymwysterau cyfwerth, gan gynnwys teilyngdod ar Lefel 2. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.




Mae myfyrwyr yn cael sawl cyfle drwy gydol y flwyddyn i arddangos eu gwaith ar y campws ac yn allanol. Daw'r enghreifftiau hyn o'r arddangosfa ar thema Lefel 3 'Cydraddoldeb' yn Oriel Theatr Volcano ac arddangosfa 'Abertawe 50' ar Gampws Tycoch.







Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.



# Celf a Dylunio (Diploma Sylfaen Lefel 3)

Campws Llwyn y Bryn

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn ddelfrydol i'r rhai a hoffai ddilyn gyrfa mewn celf a dylunio ar lefel broffesiynol.

Mae'n gwrs ymarferol yn bennaf gan gynnig cyfle i chi archwilio syniadau newydd a dyfeisgar i ddatblygu llais ac arddull unigol trwy arbrofi mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau celf a dylunio.

Caiff ei addysgu trwy gyfres o weithdai, darlithoedd a seminarau o dan arweiniad arlunwyr.

Mae ffi stiwdio o £100. Nid oes ffioedd dysgu.

### Gofynion mynediad penodol:


Un pwnc Safon Uwch a phum TGAU gradd C neu uwch. Bydd cymwysterau cyfwerth yn cael eu hystyried.

Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen Ffasiwn a Thecstilau.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pynciau cysylltiedig gan gynnwys hysbysebu, animeiddio, dylunio gemau, graffeg, ffasiwn, ffilm, celfyddyd gain, ffotograffiaeth, dylunio cynnyrch, cerflunwaith, tecstilau, gemwaith, dylunio i'r theatr, gwisgoedd a gwydr.





Enillodd myfyrwyr Diploma Sylfaen Celf a Dylunio, Wiktoria Gebka a Leah Jones fedalau Aur yng NghystadleaethSgiliauCymru ar ôl llwyddo yn y rhagbrofion goddefol a chystadlu mewn rowndiau terfynol byw yn erbyn dysgwyr o bob cwr o'r wlad. Cystadlodd Wiktoria yn y categori Dylunio Ffasiwn a chystadlodd Leah mewn Marchnata Gweledol. Mae'r ddwy bellach wedi symud ymlaen i'r brifysgol yn y meysydd hyn.

# Ffotograffiaeth (Diploma Lefel 2)

Campws Llwyn y Bryn

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn astudio technegau, prosesau a chysyniadau ffotograffwyr eraill.

Byddwch yn cwblhau cyfanswm o chwe uned ar themâu megis ymateb i friff, gwireddu syniadau a thrin delweddau.

Mae ffi stiwdio o £50.

### Gofynion mynediad penodol:

Pedair gradd D ar lefel TGAU. Derbynnir cymwysterau cyfwerth.

Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

# Ffotograffiaeth (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Llwyn y Bryn

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn cynnwys llawer o waith ymarferol yn y stiwdio ac ar leoliad.

Byddwch yn archwilio amrywiaeth o *genres* gan gynnwys hysbysebu, ffasiwn, dogfennol a theithio.

Byddwch yn astudio ar Gampws Llwyn y Bryn sydd â lle stiwdio arbenigol, ystafelloedd digidol Mac pwrpasol ac ystafell dywyll ddu a gwyn gwbl weithredol.

Mae ffi stiwdio o £75 y flwyddyn.

### Gofynion mynediad penodol:

Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU. Derbynnir cymwysterau cyfwerth, gan gynnwys Teilyngdod mewn Ffotograffiaeth (Lefel 2).

Amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

Mae Danny O Leary wedi cael cynigion gan Goleg Ffasiwn Llundain a Phrifysgol Westminster i astudio Dylunio Ffasiwn. Mae'r ddau sefydliad hwn ymysg y 10 uchaf yn y byd ar gyfer y pwnc hwn! Mae myfyrwyr o'r cwrs sylfaen wedi symud ymlaen i Central St Martins, Kingston, Coleg Ffasiwn Llundain, Falmouth, Glasgow, Ravensbourne, UCA, Bryste, Caerfaddon a phrifysgolion lleol.











Allan o gannoedd o gynigion, cafodd gwaith tri o'n dysgwyr Diploma Sylfaen Celf a Dylunio ei ddewis gan Amgueddfa Glynn Vivian, i'w arddangos fel rhan o Gystadleuaeth Agored Abertawe. Mae hwn yn ddathliad blynyddol o gelf a chrefft gan artistiaid a gwneuthurwyr sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe.

Lluniau: Tanya Clare, Rebeka Serban ac Ila Noel.

Mae Llwyn y Bryn yn gampws bach a chyfeillgar â **chyfleusterau gwych** a fydd yn eich helpu i archwilio'ch doniau creadigol!




Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Busnes

Ar ôl cwblhau'ch cymwysterau gallech ddefnyddio'ch sgiliau trosglwyddadwy i gael hyd i gyflogaeth yn y sector busnes a chyllid sy'n tyfu.



Cymraeg

Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn y maes hwn.

Diddordeb mewn **prentisiaethau**? Gweler tudalen 73

## Eich dilyniant:

Ar ôl cwblhau Lefel 3, gallech symud ymlaen i'r HND mewn Busnes a Chyfrifeg, y cwrs Gradd Sylfaen mewn Rheoli Digwyddiadau neu AAT Lefel 3 yn y Coleg, neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol. Fel arall, gallech geisio cyflogaeth neu brentisiaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Dadansoddi busnes, rheoli, ymgynghori, bancio a sefydliadau ariannol neu gychwyn busnes bach.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector busnes a chyfrifeg yn Abertawe.

| £24,752 | 3,251 | 2.70% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Sgiliau dadansoddi ariannol
- Cyfrifeg
- Archwilio
- Meddalwedd cyfrifyddu
- Rheoli
- Trethi.

**Prif alwedigaethau:**

- Ceidwaid cyfrifon/clerciaid cyflogres/cyflog
- Gweithwyr canolfannau galw a chyswllt
- Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Diploma Rhagarweiniol mewn Busnes (Lefel 1)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs hwn yn paratoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith neu astudiaethau pellach yn y sectorau busnes a gweinyddu.

Mae unedau astudio'n cynnwys:

- Cynllunio busnes
- Datblygu cynllun dilyniant personol
- Trefnu cyfarfod
- Brandio cynnyrch
- Creu arddangosfa weledol.

Gofynion mynediad penodol:
Mae cyfweliad yn ofynnol.

## Busnes a Gweinyddu (Tystysgrif Lefel 2)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys cymhwyster BTEC mewn gweinyddu a Thystysgrif mewn busnes.

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn astudio heriau a newidiadau parhaus y byd busnes. Rhaid i chi fod yn fodlon archwilio syniadau newydd a'u cyfleu yn effeithiol. Mae'r cwrs hefyd yn eich paratoi ar gyfer byd gwaith.

Bydd yn cynnig cyfle i chi astudio nifer o weithredoedd busnes gan gynnwys marchnata, rheoli adnoddau dynol, cynllunio busnes, dylunio gwe a TGCh gyda phwyslais ar weinyddu busnes.

Gofynion mynediad penodol:
Un radd C a thair gradd D ar lefel TGAU neu bas ar gwrs Lefel 1 mewn pwnc cysylltiedig.

## Busnes (Diploma Lefel 3)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd am astudio gwasanaethau ariannol, marchnata a rheoli busnes. Mae'n cynnwys Diploma Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain a Bagloriaeth Cymru.

Mae'n cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio nifer o swyddogaethau busnes gan gynnwys marchnata, adnoddau dynol a rheoli gyda phwyslais ar gyllid (mae rhai unedau'n cynnwys arholiadau).

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Archwilio busnes
- Rheoli digwyddiad
- Busnes rhyngwladol
- Marchnata digidol
- Recriwtio a dethol.

Cymraeg Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys mathemateg a Saesneg, neu broffil Teilyngdod mewn Busnes Lefel 2.




Mae drysau **Ystafell Arloesedd Addysg Lego** newydd sbon Coleg Gŵyr Abertawe wedi agor yn swyddogol.

Dyma'r unig ystafell addysgol o'i math yn yr ardal leol, a bydd y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr, disgyblion ysgol a chyflogwyr i wella eu sgiliau digidol gan ddefnyddio Lego o gitiau adeiladu syml i'r llwyfan caledwedd/meddalwedd Mindstorms mwy heriol.

Bydd y math hwn o hyfforddiant yn rhoi sgiliau cyflogadwyedd allweddol a pherthnasol i chi a fydd o gymorth mawr i chi yn y gweithle. Gall dysgwyr ar bob lefel ei ddefnyddio – o'r rhai sydd am wella eu sgiliau hanfodol megis rhifedd/llythrennedd i fyfyrwyr AU sydd am ddatblygu eu harbenigedd codio neu beirianneg.

Ariannwyd yr Ystafell Lego gan Raglen Blaenoriaeth Sgiliau Llywodraeth Cymru.

## Busnes - Cwrs Carlam (Diploma Cenedlaethol Lefel 3)

Campws Gorseinon

Cwrs blwyddyn yw hwn sy'n cynnig llwybr cyflym i chi ennill eich diploma.

Mae'r cwrs yn cynnwys nifer o unedau gan gynnwys:
- Archwilio busnes
- Datblygu ymgyrch farchnata
- Cyllid busnes a phersonol
- Rheoli digwyddiad
- Busnes rhyngwladol
- Egwyddorion rheoli.

Mae'r cwrs hwn yn gyfwerth â dwy Safon Uwch a gellir ei astudio yn annibynnol neu ar y cyd â phwnc arall - fformat cwrs sy'n unigryw i'r Coleg.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gyda chymwysterau UG presennol neu wedi'u cyfuno â Safon Uwch neu feysydd astudio eraill.

## Busnes (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn gyfwerth â thair Safon Uwch.

Mae unedau astudio'n cynnwys:
- Archwilio busnes
- Datblygu ymgyrch farchnata
- Cyllid busnes a phersonol
- Rheoli digwyddiad
- Busnes rhyngwladol
- Egwyddorion rheoli
- Gwneud penderfyniadau busnes.

Ochr yn ochr â'r cwrs byddwch hefyd yn astudio'r Dystysgrif Uwch-sgiliau lle byddwch yn cyflawni cymhwyster Safon Uwch a datblygu sgiliau hanfodol gan gynnwys rhifedd, llythrennedd a sgiliau digidol.

Mae'r cwrs hefyd yn cefnogi myfyrwyr sydd am symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth mewn busnes/rheoli neu brentisiaethau uwch yn y sector busnes. Mae'r cwrs hwn hefyd yn datblygu sgiliau ar gyfer cychwyn busnes bach.

Gofynion mynediad penodol:
O leiaf bum gradd C neu uwch ar lefel TGAU.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Arlwyo a Lletygarwch

Mae gan fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn y fantais o weithio mewn amgylchedd proffesiynol wrth iddynt baratoi a gweini bwyd yn y Vanilla Pod, bwyty hyfforddi'r Coleg ar Gampws Tycoch.

Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn y maes hwn.



## Eich dilyniant:

Bydd cyflawni Lefel 2/3 yn agor cyfleoedd cyflogaeth mewn lletygarwch cyffredinol, paratoi bwyd a choginio.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Bydd cwblhau Lefel 3 yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i chi ar gyfer cyrsiau NVQ goruchwylio/rheoli.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector lletygarwch, teithio a thwristiaeth yn Abertawe.

| £11,676 | 9,231 |
|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Gweithrediadau bwyty
- Sgiliau Cymraeg
- Hyfforddiant
- Rheoli
- Coginio
- Diogelwch bwyd.

**Prif alwedigaethau:**

- Cynorthwywyr cegin ac arlwyo
- Staff bar
- Gweinyddesau a gweinyddion.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Cyflwyniad i Arlwyo (Mynediad Lefel 3)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn eich cyflwyno i'r diwydiant arlwyo a lletygarwch trwy baratoi a choginio amrywiaeth o seigiau a gweini bwyd a diod.

Caiff y sgiliau hyn eu datblygu yn ein ceginau hyfforddi a bwyty'r Vanilla Pod.

Cewch gyfle hefyd i wella'ch sgiliau Mathemateg, Saesneg, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd trwy ein rhaglen sgiliau arlwyo.

Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Diddordeb mewn gyrfa lletygarwch ac arlwyo.

## Cyflwyniad i Goginio Proffesiynol (Diploma Lefel 1)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn cynnig yr wybodaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ennill cymhwyster a gydnabyddir gan y diwydiant a chael gyrfa mewn paratoi a choginio bwyd.

Byddwch yn ymgymryd â sesiynau ymarferol i ddatblygu'ch sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a gwasanaeth bwyd yn y Vanilla Pod, ein bwyty hyfforddi.

Byddwch hefyd yn astudio Mathemateg, Saesneg, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd trwy ein rhaglen sgiliau arlwyo, a chwblhau cymhwyster gwasanaeth bwyd.

Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Mae addysg gyffredinol, ymrwymiad, brwdfrydedd a'r gallu i weithio gydag eraill yn hanfodol.



"Mae fy nghwrs wedi rhoi cyfle i mi gystadlu yn nigwyddiadau CystadleuaethSgiliauCymru. Ar ôl hyn, dwi'n gobeithio mynd i'r brifysgol a dod yn rheolwr bwyty. Mae'r cwrs wedi fy helpu i fagu hyder a datblygu cyfathrebu a fydd yn fy helpu i gyrraedd fy nod."

**Connor Trehar,** Arlwyo a Lletygarwch Lefel 3 (cyn-ddisgybl Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed).

## Coginio Proffesiynol (Diploma Lefel 2)

Campws Tycoch

Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau ymarferol ymhellach trwy baratoi a choginio seigiau clasurol a chyfoes ar gyfer y bwyty hyfforddi.

Byddwch yn ymgymryd â sesiynau ymarferol i ddatblygu'ch sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a gwasanaeth bwyd yn y Vanilla Pod, ein bwyty hyfforddi.

Byddwch hefyd yn astudio mathemateg, Saesneg, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd trwy ein rhaglen sgiliau arlwyo.

Mae lleoliad gwaith yn rhan o'r cwrs.

Gofynion mynediad penodol:
Coginio Proffesiynol (Diploma Lefel 1) gradd teilyngdod neu uwch neu gymhwyster lletygarwch ac arlwyo cyfatebol.

## Coginio Proffesiynol Uwch (Diploma Lefel 3)

Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn astudio amrywiaeth o unedau theori fydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r elfennau ymarferol a addysgir.

Mae'r amserlen hefyd yn cynnwys sesiynau ymarferol lle byddwch yn paratoi a gweini bwyd ar gyfer nosweithiau â thema a gourmet yn ein bwyty hyfforddi, Vanilla Pod.

Gofynion mynediad penodol:
Coginio Proffesiynol (Diploma Lefel 2) gradd teilyngdod neu uwch neu gymhwyster lletygarwch ac arlwyo cyfatebol.





Roedd y cyn-fyfyriwr Collette Gorvett, sydd bellach yn gweithio yn The Ritz, Llundain, wedi cystadlu yn erbyn 33 o ddysgwyr eraill yng nghategori Gwasanaethau Bwyty **Rownd Derfynol WorldSkills yn Rwsia 2019** ac enillodd hi Fedaliwn Rhagoriaeth.

Roedd ein myfyrwyr Lletygarwch ac Arlwyo wedi perfformio'n eithriadol o dda yn **Rownd Derfynol Genedlaethol WorldSkills UK LIVE** yn NEC Birmingham.



Yn y categori Gwasanaethau Bwyty, enillodd Paulina Skoczek Fedal Arian ac enillodd Paige Jones Fedal Efydd. Roedd eu tasgau yn cynnwys paratoi moctêls, coffi hufen Cointreau, *flambé* a the prynhawn Siampên.

"Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i fyfyrwyr Lletygarwch ac Arlwyo y Coleg gyrraedd rownd derfynol y digwyddiad mawreddog hwn," dywedodd Rheolwr y Maes Dysgu Mark Clement.


"Dyn ni mor falch bod Paige a Paulina wedi cael y cyfle gwych yma i ddangos eu sgiliau a chystadlu ar lefel mor uchel."



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Cyfrifiadura a Thechnoleg

Rydym yn byw mewn byd cynyddol ddigidol lle mae galw mawr am sgiliau TG bob amser.




## Eich dilyniant:

Ar ôl i chi gwblhau Lefel 3 gallech symud ymlaen i'r HND mewn Cyfrifiadura Cymhwysol yn y Coleg neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol. Neu gallech geisio cyflogaeth neu brentisiaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Systemau gwybodaeth cyfrifiadurol, gwaith fforensig ar gyfrifiaduron, datblygu gemau cyfrifiadurol, seiberddiogelwch, rhywdweithio cyfrifiadurol a chyfrifiadureg.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector TGCh yn Abertawe.

£33,204

Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector.

2,740

Cyfanswm a gyflogir yn y sector.

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Diogelwch gwybodaeth
- Rhwydweithio
- Rheoli
- Seilwaith
- Profi
- Seiberddiogelwch.

**Prif alwedigaethau:**

- Rhaglenwyr a datblygwyr meddalwedd
- Dadansoddwyr/arbenigwyr diogelwch gwybodaeth
- Peirianwyr seiberddiogelwch.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Technoleg Gwybodaeth (Diploma Lefel 1)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn gyflwyniad i'r rolau sy'n bodoli yn y diwydiant TG.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Datrys problemau technegol TG
- Creu gwefannau
- Creu rhaglenni cyfrifiadurol
- Datblygu cynhyrchion digidol
- Datblygu amlgyfryngau.

Byddwch yn datblygu sgiliau allweddol fel cyfathrebu, gweithio mewn tîm ac arweinyddiaeth fydd yn eich helpu wrth geisio cyflogaeth.

Gofynion mynediad penodol:
Pedair gradd E ar lefel TGAU a chyfweliad.

## Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol (Diploma Cyntaf Lefel 2)

Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau arbenigol fydd yn eich paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Y byd ar-lein
- Systemau technoleg
- Gosod caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol
- Dylunio gwe
- Cronfeydd data
- Datblygu cynhyrchion amlgyfrwng
- Rhaglennu cyfrifiadurol.

Gofynion mynediad penodol:
Dwy radd C ar lefel TGAU neu'r Diploma Lefel 1 mewn Technoleg Gwybodaeth.

## Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa yn y sector.

Byddwch yn ennill dealltwriaeth eang o TGCh ac astudio meysydd dethol yn fwy manwl megis:

- Rhwydweithiau cyfrifiadur
- Cynhyrchu gwefan
- Datblygu gemau cyfrifiadur
- Animeiddio ar gyfrifiadur
- Seiberddiogelwch.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C ar lefel TGAU neu'r Diploma Lefel 2 mewn Technoleg Gwybodaeth.

# Diploma Sylfaen Cenedlaethol e-Chwaraeon (RQF) (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Tycoch

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn yw darparu llwybr gyrfa i TG neu e-Chwaraeon, gan roi sgiliau i fyfyrwyr a fydd yn eu galluogi i gael gyrfa fel dylunydd gemau, technegydd, ffrydiwr a chynhyrchydd fideo.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Dysgu sut i sefydlu, dylunio a brandio timau, logos, nwyddau ac ati
- Datblygu a chreu meysydd y cyfryngau cymdeithasol fel eich sianeli YouTube a Twitch eich hunain
- Cael cyfle i gymhwyso dysgu mewn ffordd ymarferol a realistig
- Dilyn rhaglen astudio sy'n galluogi dilyniant i addysg uwch a chyflogaeth ym meysydd TGCh, busnes a marchnata
- Magu hyder trwy ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau e-Chwaraeon fel British Esports, Insomnia ac ati.

**Gofynion mynediad penodol:**
Pum gradd C ar lefel TGAU.




GWDIHWS GCS
GCS OWLS

Mae'r myfyriwr TG ac aelod o dîm Gwdihŵs e-Chwaraeon y Coleg, Luke 'Mr Sneaky' Evans, wedi ennill Twrnamaint Heckmondwike Hotshots yng nghystadleuaeth Smash Bros!

Tynnwyd y gymeradwyaeth hon oddi ar y wefan: "Dyma dymor llawn cyntaf Gwdihŵs CGA ac mae'n wych eu gweld nhw'n ennill y tlws hwn. Dim ond y dechrau yw hyn i CGA oherwydd mae si ar led y bydd pethau mawr yn dod allan o sîn E-chwaraeon y Coleg y flwyddyn nesaf."

Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Adeiladu a Phlymwaith

Diddordeb mewn **prentisiaethau?** Gweler tudalen 74

Gydag amrywiaeth o grefftau i ddewis o'u plith a thwf disgwyliedig yn y dyfodol, mae digon o gyfleoedd i symud ymlaen o fewn y sector hwn.

Cymraeg

Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn y maes hwn.



## Eich dilyniant:

Symudwch ymlaen i Lefel 2 yn y Coleg yn y grefft o'ch dewis. Neu, gallech chi geisio cyflogaeth, hyfforddeiaeth neu brentisiaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys technolegau adeiladu newydd h.y. bioplastigion, cladin solar, concrit hunaniachaol a sgiliau TGCh.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector adeiladu yn Abertawe.

| £28,170 | 4,143 | 4% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |


**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Gyrru
- Gwasanaeth mesur meintiau
- Gosod brics
- Plastro
- Gweithredu/cynnal a chadw peiriannau
- Gwaith paratoi'r pridd

**Prif alwedigaethau:**

- Galwedigaethau adeiladu elfennol
- Peirianwyr plymio/gwresogi/awyru
- Seiri coed.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**



## Eich dilyniant:

Gallwch symud ymlaen i Lefel 2 yn y Coleg neu brentisiaeth mewn plymwaith, gwresogi, nwy neu ynni adnewyddadwy.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Mae tueddiadau'r dysfodol yn cynnwys technolegau cartref clyfar ac ynni gwyrdd.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector (gwresogi, awyru, nwy, trydan) yn Abertawe.

| £36,346 | 301 | 2.60% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Peirianneg
- Gwyddoniaeth
- Mathemateg
- Technoleg.

**Prif alwedigaethau:**

- Peirianwyr plymio/gwresogi/awyru
- Arolygwyr/profwyr cyffredinol
- Technegwyr peirianneg.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Sgiliau Adeiladu – Amlsgiliau (Diploma Lefel 1)

Llys Jiwbilî

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn rhoi cyflwyniad i'r diwydiant adeiladu os nad ydych yn siŵr am y llwybr yr hoffech ei ddilyn.

Byddwch yn meithrin dealltwriaeth a chael profiad ymarferol o amrywiaeth o grefftau gan gynnwys peintio ac addurno, gwaith coed a saernïaeth, gwaith brics, teilsio, trydanol a phlymwaith.

### Gofynion mynediad penodol:

Yn amodol ar gyfweliad seiliedig ar ganlyniadau TGAU, cymwysterau cyfwerth a'ch teilyngdod eich hun.

Bydd rhaid i chi wneud asesiad diwydiant i helpu i bennu'r cwrs mwyaf priodol.

Cymraeg Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Plymwaith (Diploma Lefel 1)

Campws Tycoch

Bwriad y cwrs blwyddyn hwn yw eich paratoi ar gyfer gyrfa yn y diwydiant plymwaith.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Arferion gweithio diogel mewn gwasanaethau adeiladu
- Prosesau systemau plymwaith a thechnegau gosod
- Egwyddorion gwyddonol o fewn gwasanaethau adeiladu
- Technolegau amgylcheddol o fewn gwasanaethau adeiladu.

### Gofynion mynediad penodol:

Yn amodol ar gyfweliad seiliedig ar ganlyniadau TGAU, cymwysterau cyfwerth a'ch teilyngdod eich hun.

Bydd rhaid i chi wneud asesiad diwydiant i helpu i bennu'r cwrs mwyaf priodol.

## Cwrs Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Lefel 2)

Llys Jiwbilî neu Gampws Tycoch

Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad eang i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Yn ogystal â chwblhau unedau craidd, bydd gennych ddewis o grefftau megis plymwaith, gwaith brics, gwaith coed neu beintio ac addurno y gallwch arbenigo ynddynt i gael rhagor o brofiad.

Bydd yr wybodaeth a enillwch ar y cwrs hwn yn rhoi modd i chi symud ymlaen i lefelau uwch.

### Gofynion mynediad penodol:

Cymhwyster Lefel 1 mewn sgiliau adeiladu neu blymwaith a/neu amodol ar gyfweliad seiliedig ar raddau pasio TGAU, cymwysterau cyfwerth a'ch teilyngdod eich hun.

Bydd rhaid i chi wneud asesiad diwydiant i helpu i bennu'r cwrs mwyaf priodol i chi.

**Sylwch** y gallai'r cyrsiau hyn newid oherwydd mae cymwysterau newydd yn dechrau yn 2021. (Gweler y fflach newyddion isod)

I gael yr wybodaeth fwyaf diweddar am y cyrsiau ewch i **gcs.ac.uk/cy/plumbing-and-construction**

***Fflach newyddion*** Mae cyfres newydd o wasanaethau adeiladu y gellir eu cyllido yn cael eu datblygu i ateb anghenion sgiliau Cymru yn well a bydd yn barod ar gyfer yr addysgu cyntaf o fis Medi 2021.

Wedi'i gynllunio ar y cyd â chyflogwyr, bydd y newid yn symleiddio'r hyn sydd ar hyn o bryd yn dirwedd gymhleth o fwy na 400 o gymwysterau i ddarparu llwybrau dilyniant clir a fydd yn gwneud dysgwyr yn fwy parod ar gyfer astudiaethau pellach a symud ymlaen i swydd.

Ewch i **www.skillsforwales.wales/cy** i gael gwybodaeth, newyddion a hysbysiadau rheolaidd am ddigwyddiadau.

Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Y Cyfryngau Creadigol

Mae'r cyfryngau ym mhobman - maen nhw ar y teledu, y rhyngrwyd, y newyddion ac maen nhw ar eich ffôn. Enillwch sgiliau i lwyddo yn ein byd sy'n cael ei yrru fwyfwy gan dechnoleg.



## Eich dilyniant:

Ar ôl i chi gwblhau Lefel 3 gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Effeithiau Gweledol a Graffeg Symudol yn y Coleg neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol. Neu, gallech chi geisio cyflogaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Dylunydd graffig, darlunydd digidol, gwneuthurwr ffilmiau, ffotograffydd, golygydd sain, dylunydd gemau, crëwr cynnwys, a dylunydd gwefannau.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Cynhyrchu yn y Cyfryngau Creadigol (Diploma Lefel 2)

Campws Gorseinon

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn eich cyflwyno i'r sgiliau technolegol, creadigol a phersonol sydd eu hangen i weithio yn niwydiannau'r cyfryngau.

Byddwch yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd yn y cyfryngau a byddwch yn gweithio i greu amrywiaeth o gynhyrchion i'r cyfryngau megis fideo, sain a dylunio graffig.

Ochr yn ochr ag unedau'r cyfryngau byddwch yn astudio TGCh, llythrennedd a rhifedd.

Mae ffi stiwdio o £25.

### Gofynion mynediad penodol:

Un radd C ar lefel TGAU wedi'i hategu gan nifer o raddau D neu E.

Mae diddordeb yn y cyfryngau a bod yn barod i gymryd rhan mewn prosiectau creadigol yn hanfodol.

## Cynhyrchu a Thechnoleg yn y Cyfryngau Creadigol (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn cynnig cyfle cyffrous i gael y sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen i addysg uwch neu gael cyflogaeth o fewn diwydiant y cyfryngau.

Rydym nawr yn cynnig y cwrs hwn gyda thri llwybr penodol:

- Graffeg a Ffotograffiaeth
- Ffilm, Graffeg Symudol ac Effeithiau Gweledol
- Cynnwys Creadigol ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata.

Byddwch yn dysgu am bob agwedd ar y broses greadigol o gyn-gynhyrchu i ôl-gynhyrchu. Byddwch yn gweithio ar gynyrchiadau mewn ffyrdd ymarferol, damcaniaethol ac ysgrifenedig, gan gynhyrchu portffolios a dangos riliau o'ch gwaith.

Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ymweld â stiwdios cynhyrchu, digwyddiadau gyrfaoedd arbenigol, diwrnodau agored prifysgol a chael gweithdai ymarferol.

Mae ffi stiwdio o £75.

### Gofynion mynediad penodol:

Pum gradd A-C ar lefel TGAU neu'r Diploma Lefel 2 mewn Cynhyrchu yn y Cyfryngau Creadigol.

Bydd gofyn i chi gyflwyno portffolio o waith celf adeg y cyfweliad.

Byddwn yn ystyried myfyrwyr hŷn gyda'r sgiliau neu'r profiad perthnasol hefyd.

Mae diddordeb yn y cyfryngau a chreadigrwydd yn hanfodol.

# Peirianneg Electronig

Mae'r diwydiant peirianneg electronig lleol eich angen chi! Mae galw enfawr am beirianwyr ifanc yn ardal de Cymru.

Diddordeb mewn **prentisiaethau**? Gweler tudalen 78



Mae **100%** o'n myfyrwyr yn symud ymlaen i brentisiaethau, prifysgol neu gyflogaeth.

## Eich dilyniant:

Ar ôl cwblhau Lefel 3 yn llwyddiannus, gallech chi symud ymlaen i'r HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig yn y Coleg, prentisiaeth neu astudiaethau pellach yn y brifysgol. Neu, gallech chi geisio cyflogaeth yn y diwydiant technoleg ddigidol/ electroneg.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys awyrofod, electroneg a modurol.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector gweithgynhyrchu yn Abertawe.

| £27,243 | 6,276 | 6.30% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Peirianneg
- Gweithgynhyrchu
- Rheoli
- Profi
- Dylunio gyda chymorth cyfrifiadur
- Atgyweirio systemau cyfrifiadurol.

**Prif alwedigaethau:**

- Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Technolegau Peirianneg Electronig (Diploma Lefel 2)

Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn, byddwch yn archwilio'r datblygiadau diweddaraf ym maes peirianneg electronig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Integreiddio technoleg ddigidol yn y cartref
- Teledu manylder uwch Ultra
- Teledu protocol y rhyngrwyd
- Cyfathrebu symudol
- Technoleg cyfrifiaduron
- Cymwysiadau technoleg ddigidol diwydiannol
- Electroneg ddigidol ac analog.

Gofynion mynediad penodol:
Pedair gradd D neu uwch ar lefel TGAU.

## Technegydd Peirianneg Electronig Rhaglen Beirianneg Fanylach (Diploma Lefel 3)

Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn, byddwch yn archwilio byd peirianneg electronig gan gynnwys dadansoddi a chreu atebion, gyda phartneriaid diwydiannol, i broblemau peirianneg go iawn.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Radio a radar
- Atebion clyweled
- Systemau cyfrifiadurol
- Integreiddio digidol yn y cartref
- Electroneg ddiwydiannol
- Roboteg
- Deallusrwydd artiffisial AI
- Dylunio PCB
- PLC
- Cystadlaethau sgiliau.

Gofynion mynediad penodol:
Pedair gradd A-C ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu gymhwyster electroneg ar Lefel 2.

Mae gennym **gyfleusterau blaenllaw yn y sector** gan gynnwys labordy technoleg ddigidol a noddwyd gan Whirlpool.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

## Technegydd Peirianneg Electronig Uwch (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn bwriadu eich helpu i gael lle prifysgol mewn disgyblaeth technoleg ddigidol neu electroneg.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Cyfathrebu symudol
- Dylunio systemau
- Integreiddio yn y cartref
- Mathemateg ar gyfer peirianneg
- Electroneg ddigidol ac analog
- Roboteg
- Deallusrwydd artiffisial AI
- Dylunio PCB
- PLC
- Cystadlaethau sgiliau.

### Gofynion mynediad penodol:

Pedair gradd A-C ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu gymhwyster electroneg ar Lefel 2.



Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o gwmnïau uchel eu parch ac arloesol fel Samsung, Whirlpool, Bosch, Sony, Electrolux, AMDEA, RETRA, Panasonic, Elite Aerials, Hotpoint, Indesit, Trojan, Kontroltek, HEEST, Tongfang Global, One Vision, Zeta Alarms, KSR International.



Mae ein myfyrwyr Peirianneg Electronig wedi cael llwyddiant mewn cystadlaethau lleol a rhyngwladol.

Maen nhw wedi cael deg buddugoliaeth categori yng Nghynllun Addysg Peirianneg Cymru; wedi ennill 15 medal yng NghystadleuaethSgiliauCymru; dwy fedal Aur, un Arian ac un Efydd yn rownd derfynol WorldSkills y DU ac mae pum myfyriwr wedi dod yn aelodau o garfan WorldSkills y DU.

Yn fwyaf diweddar, dewiswyd Rhys Watts (yn y llun) i fod yn rhan o Team UK ar gyfer EuroSkills WorldSkills yn Graz!

# Gosodiadau Trydanol

Addysgir y cyrsiau mewn gweithdai o safon y diwydiant, gan roi modd i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfa yn y sector trydanol.



Diddordeb mewn **prentisiaethau**? Gweler tudalen 77

## Eich dilyniant:

Ar ôl i chi gwblhau Lefel 3 gallech symud ymlaen i'r HNC/HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig yn y Coleg, prentisiaeth neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol. Neu, gallech chi geisio cyflogaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Trydanwr neu osodwr trydanol.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Gosodiadau Trydanol (Diploma Lefel 1)

Campws Tycoch

Mae hwn yn gwrs blwyddyn sy'n eich cyflwyno i'r diwydiant gosodiadau trydanol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Gosodiadau trydanol, gwifro a therfyniadau
- Technegau ffabrigo ar gyfer gosodiadau trydanol
- Gwyddor drydanol a thechnoleg
- Mesurau amgylcheddol a chynaliadwyedd mewn anheddau domestig
- Strwythur y diwydiant adeiladu
- Arferion gweithio diogel.

Gofynion mynediad penodol:
Amodol ar gyfweliad seiliedig ar raddau TGAU, cymwysterau cyfwerth a theilyngdod.

Gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg yn ddelfrydol ond nid yw'n hanfodol.

## Gosodiadau Trydanol (Diploma Lefel 2)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a/neu ddilyniant gyrfa yn y sector gosodiadau trydanol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Gosodiadau trydanol, gwifro a therfyniadau
- Technoleg gosodiadau trydanol
- Egwyddorion gwyddor drydanol
- Iechyd a diogelwch
- Cyfathrebu o fewn y diwydiant.

Gofynion mynediad penodol:
Gosodiadau Trydanol (Diploma Lefel 1).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gosodiadau Trydanol, Peirianneg (Diploma Lefel 3) neu Brentisiaeth Gosodiadau Trydanol.

## Gosodiadau Trydanol (Diploma Lefel 3)

Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn dysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a/neu ddilyniant gyrfa yn y sector gosodiadau trydanol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Gosodiadau trydanol, canfod a chywiro namau
- Egwyddorion gwyddor drydanol
- Egwyddorion a gofynion systemau technoleg amgylcheddol
- Dylunio systemau trydanol
- Iechyd a diogelwch.

Gofynion mynediad penodol:
Gosodiadau Trydanol (Diploma Lefel 2).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisaeth Electrodechnegol, Peirianneg (Lefel 3) neu HNC/HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig.

Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Peirianneg - Drydanol a Mecanyddol

Mae Peirianneg yn hollbwysig i'r DU. Mae'n cyfrif am bron un rhan o bump o economi'r DU ac mae'n cyflogi dros 4.5 miliwn o bobl.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru



Diddordeb mewn **prentisiaethau?** Gweler tudalen 79

## Eich dilyniant:

Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig neu Beirianneg Fecanyddol ar ôl cwblhau Lefel 3 yn llwyddiannus. Prentisiaeth neu astudiaethau pellach yn y brifysgol. Neu gallech geisio cyflogaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Sectorau mecanyddol, trydanol, electronig, peirianneg sifil a sectorau technolegol a pheirianneg eraill. Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys gweithgynhyrchu modern, ynni gwyrdd a chyfleustodau.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector peirianneg yn Abertawe.

| £35,532 | 966 | 12.60% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Peirianneg
- Gweithgynhyrchu
- Rheoli
- Profi
- Dylunio gyda chymorth cyfrifiadur
- Peirianneg fecanyddol.

**Prif alwedigaethau:**

- Peiriannydd dylunio a datblygu
- Peiriannydd sifil
- Syrfëwr siartredig.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Peirianneg - Fecanyddol/Weldio a Ffabrigo (Perfformio Gweithrediadau Peirianneg Lefel 2)

Campws Tycoch

Bwriad y cwrs blwyddyn hwn yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ateb anghenion weldio a ffabrigo mecanyddol modern.

Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o unedau fel eich bod yn gallu canolbwyntio ar yr yrfa o'ch dewis neu ar faes sydd o ddiddordeb i chi.

Gofynion mynediad penodol:
Pedair gradd D ar lefel TGAU a gradd C mewn Saesneg neu Fathemateg.

## Peirianneg (Diploma Estynedig Technegol Lefel 3)

Campws Tycoch

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ateb anghenion diwydiannau peirianneg fecanyddol a pheirianneg drydanol fodern.

Mae'n gyfwerth â thri chwrs Safon Uwch ac mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o unedau er mwyn i chi allu canolbwyntio ar yr yrfa o'ch dewis neu ar faes sydd o ddiddordeb i chi a symud ymlaen i gyflogaeth neu addysg uwch.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg haen ganolradd/uwch a phwnc Gwyddoniaeth.

## Peirianneg (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ateb anghenion diwydiannau peirianneg fecanyddol a thrydanol modern.

Mae'n gyfwerth â thri chwrs Safon Uwch ac mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o unedau. Bydd yn rhoi dealltwriaeth eang i chi o Beirianneg gan roi modd i chi symud ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith a Mathemateg.

## Rhaglen Peirianneg Estynedig (Diploma Lefel 3) Cwrs Cyn-brentisiaeth

Campws Tycoch

Bwriad y cwrs blwyddyn hwn yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ateb anghenion amrywiaeth fodern o ddiwydiannau peirianneg.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Peirianneg
- Mathemateg
- Egwyddorion mecanyddol a thrydanol
- Gwaith cynnal a chadw mecanyddol
- Drafftio gyda chymorth cyfrifiadur.

Byddwch yn cwblhau cymhwyster NVQ Lefel 2 fel rhan o'r cwrs yn ogystal â'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer y fframwaith prentisiaeth.

### Gofynion mynediad penodol:

Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith a phwnc Gwyddoniaeth.

Rhaid i chi basio prawf gallu hefyd (mae hwn yn asesu'ch gallu i berfformio tasgau penodol ac ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol).

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Mae'r cwrs hwn yn mynd â chi yn syth i ail flwyddyn y rhaglen brentisiaeth neu mae'n dderbyniol ar gyfer yr HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig neu Beirianneg Fecanyddol yn y Coleg.

# Gwallt, Harddwch a Holisteg

Mae'r diwydiant yn dibynnu ar bobl greadigol sydd â sgiliau cyfathrebu cryf a pharodrwydd i ddysgu.

Gallai astudio gyda ni arwain at ddyfodol yn gweithio mewn salon, rhedeg eich sba eich hunan neu deithio'n rhyngwladol ar longau mordeithio.

Diddordeb mewn **prentisiaethau**? Gweler tudalen 79

## Eich dilyniant:

Gallech chi symud ymlaen i'r cwrs Diploma Sylfaen mewn Rheolaeth Sba yn y Coleg, ar ôl cwblhau Lefel 3 yn llwyddiannus. Prentisiaeth neu astudiaethau pellach yn y brifysgol. Neu gallech geisio cyflogaeth neu fynd yn hunangyflogedig.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Mae gyrfaoedd i'w cael mewn salonau, sbas, llongau mordeithio, cyflogaeth annibynnol/gartref neu gychwyn eich busnes eich hun. Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys estheteg, codi blew'r amrannu ac aeliau/microbladio HD.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector gwallt, harddwch a holisteg yn Abertawe.

| £10,602 | 1,111 | 14.20% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Therpapi harddwch uwch
- Lliwio
- Triniaethau croen
- Microbladio
- Therapi laser/golau
- Micro-bigmentu.

**Prif alwedigaethau:**

- Harddwyr
- Trinwyr gwallt/barbwyr
- Gweithwyr proffesiynol cyswllt iechyd.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

## Technegau Arbenigwr Harddwch (Diploma Lefel 2)

Broadway, Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau ymarferol a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Gofalu am gleientiaid a chyfathrebu
- Iechyd a diogelwch a theori gysylltiedig
- Triniaethau dwylo
- Triniaethau traed
- Colur
- Trin aeliau a blew'r llygaid
- Gofalu am groen yr wyneb
- Technegau cwyro
- Chwistrellu lliw haul
- Creu delwedd.

Byddwch hefyd yn astudio llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd.

**Gofynion mynediad penodol:**
Gradd C mewn TGAU Mathemateg, Saesneg Iaith ac, yn ddelfrydol, Gwyddoniaeth neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru.

Bydd rhaid i chi gwblhau asesiad cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd a dod am gyfweliad.

## Triniaethau Therapi Harddwch (Diploma Lefel 3)

Broadway, Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol mewn amgylchedd masnachol prysur.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Triniaethau trydanol i'r wyneb a'r corff
- Estyniadau blew amrannau
- Tylino Swedaidd/ag olewau wedi'u cymysgu ymlaen llaw
- Rhoi lliw haul
- Micro-dermabrasion
- Anatomeg a ffisioleg
- Iechyd a diogelwch a theori gysylltiedig.

Byddwch hefyd yn gwneud profiad gwaith bob wythnos.

**Gofynion mynediad penodol:**
Tair gradd C neu uwch o leiaf ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg ac, yn ddelfrydol, Gwyddoniaeth neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru.

Cymhwyster cysylltiedig ar Lefel 2.

## Colur ar gyfer Theatr, Effeithiau Arbennig, Gwallt a'r Cyfryngau (Diploma Lefel 3)

Broadway, Campws Tycoch

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn addas i'r rhai a hoffai gael gyrfa fel artist colur yn y cyfryngau theatraidd.


Bydd yn rhoi cyfle i chi weithio gyda pherfformwyr i lefel uchel gan ddarparu gwasanaethau gwallt a cholur yn y cyfryngau, y theatr, y celfyddydau perfformio, ffasiwn a diwydiannau ffotograffig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Colur llunberffeithio
- Colur cuddliw
- Colur y cyfryngau
- Colur ffasiwn a ffotograffig
- Darnau prosthetig a chapiau moel
- Dyluniadau gwallt ffantasi i berfformwyr.

Byddwch hefyd yn datblygu'ch sgiliau rhifedd, llythrennedd a chyflogadwyedd drwy gydol y cwrs.

**Gofynion mynediad penodol:**
O leiaf dair gradd C ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg neu gymhwyster Lefel 2 mewn gwallt a harddwch a/neu gwblhau asesiad llythrennedd.

Rhaid bod gennych ddiddordeb go iawn mewn colur/trin gwallt. Rhaid bod gennych dystiolaeth o'ch doniau colur a steilio gwallt.



Dyma greadigaeth wych gan Charlotte Matthews, ein myfyriwr Colur ar gyfer Theatr, Effeithiau Arbennig, Gwallt a'r Cyfryngau, a gyflwynwyd ar gyfer cystadleuaeth WorldSkills Cymru.

## Trin Gwallt – dan 19 (Tystysgrif Lefel 1)

Broadway, Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn dechrau datblygu sgiliau trin gwallt.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Iechyd a diogelwch
- Datblygu perthnasau gwaith effeithiol
- Siampwio a chyflyru
- Paratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt a chynnal mannau gwaith
- Chwyth-sychu gwallt
- Cynorthwyo gyda gwasanaethau lliwio gwallt
- Plethu a throelli gwallt gan ddefnyddio technegau sylfaenol
- Dyletswyddau derbynfa.

Byddwch hefyd yn cwblhau cymwysterau mewn Mathemateg, Saesneg a chyflogadwyedd.

Gofynion mynediad penodol:
Yn ddelfrydol, gradd D mewn TGAU Saesneg a Mathemateg neu Lefel 1 mewn cymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru.

Bydd rhaid i chi gwblhau asesiad cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd.

## Trin Gwallt (Diploma Lefel 2)

Broadway, Campws Tycoch

Yn ystod y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau trin gwallt a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Iechyd a diogelwch
- Rhoi cyngor i gleientiaid ac ymgynghori â nhw
- Siampwio, cyflyru a thrin gwallt a chroen y pen
- Lliwio a goleuo gwallt
- Steilio a gorffen gwallt
- Gosod a thrin gwallt
- Torri gwallt merched.

Unedau dewisol:
- Pyrmio gwallt
- Dyletswyddau derbynfa a phlethu/troelli gwallt.

Byddwch hefyd yn cwblhau cymwysterau mewn Mathemateg, Saesneg a chyflogadwyedd.

Gofynion mynediad penodol:
Yn ddelfrydol, gradd D mewn TGAU Saesneg a Mathemateg neu Lefel 2 mewn cymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru.

Bydd rhaid i chi gwblhau asesiad cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd.

## Trin Gwallt (Diploma Lefel 3)

Broadway, Campws Tycoch

Yn ystod y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau trin gwallt a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol.

Bydd disgwyl i chi wneud profiad gwaith un diwrnod yr wythnos yn ystod y rhaglen 36 wythnos mewn salon o'ch dewis.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Iechyd a diogelwch
- Ymgynghori
- Torri creadigol
- Torri gwallt dynion
- Technegau lliwio creadigol
- Cywiro lliw
- Steilio a thrin gwallt yn greadigol
- Trin gwallt hir yn greadigol.

Gofynion mynediad penodol:
Tair gradd C neu uwch o leiaf ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg ac, yn ddelfrydol, Gwyddoniaeth neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru.

Cymhwyster cysylltiedig ar Lefel 2.



Bydd ein myfyrwyr yn cael cyfle drwy gydol y flwyddyn i gymryd rhan mewn digwyddiadau'r Coleg megis ein Gwobrau Myfyrwyr.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Iechyd a Gofal Plant

Diddordeb mewn **prentisiaethau?** Gweler tudalen 79

Mae dros 4.2 filiwn o bobl yn y DU yn gweithio ym maes gofal iechyd, ac mae galw ar draws y byd am bobl sydd â chymwysterau proffesiynol.

Mae galw mawr bob amser am weithwyr proffesiynol cymwysedig ym maes gofal plant.

Ffynhonnell: www.careerpilot.org.uk



Cymraeg

Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn y maes hwn.

## Astudiaethau Gofal Plant Galwedigaethol (Lefel 1)

Campws Tycoch

Bwriad y cwrs blwyddyn hwn yw datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Rolau a'r gwasanaethau a ddarperir
- Iechyd a diogelwch
- Amddiffyn a diogelu oedolion a phlant
- Ymwybyddiaeth o gynhwysiad ac anabledd
- Twf a datblygiad dynol
- Gofal corfforol babanod a phlant ifanc
- Pwysigrwydd gweithgareddau hamdden a chymdeithasol.
- Hybu bwyta'n iach.

Cymraeg Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Rhai cymwysterau mynediad Lefel 3 neu raddau D-G ar lefel TGAU (rhaid cael gradd F o leiaf mewn Saesneg Iaith).

Rhaid i chi gwblhau gwiriad DBS cyn cofrestru ar y cwrs. Mae'n costio tua £40.

## Eich dilyniant:

Gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gofal a Chymorth neu Blentyndod Cynnar yn y Coleg, ar ôl cwblhau Lefel 3 yn llwyddiannus. Prentisiaeth neu astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pynciau cysylltiedig fel addysgu cynradd, blynyddoedd cynnar, cynhwysiant cymdeithasol, seicoleg neu gymdeithaseg. Mae dewisiadau eraill yn cynnwys rhaglenni Mynediad ar gyfer gyrfaoedd ym maes nyrsio plant neu gymdeithasol.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Cyfnod sylfaen, *crèche* gofal dydd neu gynorthwyydd/ymarferydd gofal dydd sesiynol. Neu, nani neu gynrychiolydd gwyliau. Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys integreiddio technolegau yn yr amgylchedd dysgu, canolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae, llythrennedd a rhifedd cynnar.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector gofal plant yn Abertawe.

£14,066
Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector.

300
Cyfanswm a gyflogir yn y sector.

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**
- Recriwtio
- TGCh
- Gofal Plant
- Coginio
- Cadw Tŷ
- Gwasanaeth cwsmeriaid.

**Prif alwedigaethau:**
- Nyrsys/cynorthwywyr meithrin
- Gwarchodwyr plant/proffesiynau cysylltiedig
- Gweithwyr chwarae.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant - Ymarfer a Theori (Lefel 2)

**Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch**

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn ychwanegu at yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed. Bydd y cwrs hwn yn cynnwys lleoliad gwaith.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Egwyddorion a gwerthoedd
- Diogelu
- Iechyd a lles, dysgu a datblygiad
- Ymarfer proffesiynol
- Datblygu dealltwriaeth bellach o ddatblygiad plant a gwasanaethau gofal plant yng Nghymru.

Byddwch hefyd yn cwblhau'r Cymhwyster Craidd ochr yn ochr â'r cwrs hwn.

Cymraeg Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gofynion mynediad penodol:

Cymhwyster addas ar Lefel 1 neu ddwy radd C ar lefel TGAU ac o leiaf radd D mewn Saesneg Iaith.

Rhaid i chi gwblhau gwiriad DBS cyn cofrestru ar y cwrs. Mae'n costio tua £40.

## Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant - Ymarfer a Theori (Lefel 3)

**Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch**

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn ychwanegu at yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed. Bydd y cwrs hwn yn cynnwys lleoliad gwaith.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Egwyddorion a gwerthoedd
- Diogelu
- Iechyd a lles, dysgu a datblygiad
- Ymarfer proffesiynol
- Rôl a chyd-destun gofal, dysgu a datblygiad plant a darpariaeth chwarae ar draws y DU
- Creu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Byddwch hefyd yn cwblhau'r Cymhwyster Craidd ochr yn ochr â'r cwrs hwn.

Cymraeg Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gofynion mynediad penodol:

Cymhwyster Lefel 2 mewn gofal plant neu bum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith.

Rhaid i chi gwblhau gwiriad DBS cyn cofrestru ar y cwrs. Mae'n costio tua £40.


Mae ein myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gallu dysgu sgiliau newydd yn **ffug ward y Coleg** sy'n cynnwys gwelyau ysbyty a sgrin pelydr X.

## Eich dilyniant:

Gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gofal a Chymorth, Plentyndod Cynnar neu Waith Cymunedol a Chyflogadwyedd yn y Coleg, ar ôl cwblhau Lefel 3 yn llwyddiannus. Astudiaethau pellach yn y brifysgol neu gallech chi geisio cyflogaeth.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Cyflogaeth mewn gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, nyrsio, bydwreigiaeth, radiograffeg, troseddeg, iechyd yr amgylchedd a'r gwasanaeth prawf.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector gofal iechyd yn Abertawe.

| £24,054 | 19,099 | 0.40% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**
- Gofal cleifion
- Rheoli
- Hyfforddiant
- Lles
- Cyfathrebu
- Asesiadau.

**Prif alwedigaethau:**
- Gweithwyr gofal a gofalwyr cartref
- Nyrsys
- Cynorthwywyr nyrsio.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

## Llwybr Cyfunol Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Oedolion, Plant a Phobl Ifanc (Lefel 2)

Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Diogelu
- Iechyd a lles
- Egwyddorion a gwerth
- Iechyd a diogelwch
- Ymarfer proffesiynol.

Byddwch hefyd yn astudio llythrennedd, rhifedd a sgiliau hanfodol a bydd gofyn i chi wneud lleoliadau gwaith.

Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gofynion mynediad penodol:

Dwy radd C ar lefel TGAU (Saesneg yn ddelfrydol) a graddau D ychwanegol neu gwrs Lefel 1 gyda 90% presenoldeb wedi'i ategu gan leoliad gwaith.

Rhaid i chi gwblhau gwiriad DBS cyn cofrestru ar y cwrs. Mae'n costio tua £40.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif a Diploma Lefel 3)

Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn archwilio amrywiaeth o faterion cyfredol ac amserol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pynciau yn y flwyddyn gyntaf yn debygol o gynnwys:

- Twf a datblygiad dynol
- Clefydau ac anhwylderau a sut y gellid eu hatal
- Hyrwyddo gofal a chyfathrebu o safon.

Yn yr ail flwyddyn, gallwch ehangu'ch astudiaethau drwy gwblhau dau bwnc o unedau dewisol megis:

- Strategaethau ymgysylltu i gefnogi unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau gofal
- Deall ymddygiad dynol
- Deall iechyd meddwl a lles
- Hyrwyddo hawliau oedolion, plant a phobl ifanc.

Byddwch hefyd yn cwblhau'r Cymhwyster Craidd ochr yn ochr â'r cwrs hwn.

Rhaid i chi fod â lleoliad gwaith i ddilyn y cymwysterau hyn.

Gallwn addysgu rhannau o'r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gofynion mynediad penodol:

Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith a Gwyddoniaeth.

Rhaid i chi gwblhau gwiriad DBS cyn cofrestru ar y cwrs. Mae'n costio tua £40.

# Cerbydau Modur

Yn cyfuno dylunio, gweithgynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi, y diwydiant moduro yw'r sector cyflogaeth peirianneg mwyaf yn y DU.

Diddordeb mewn **prentisiaethau**? Gweler tudalen 83



## Eich dilyniant:

Gallech symud ymlaen i brentisiaeth neu astudiaethau pellach yn y brifysgol. Neu, gallech chi geisio cyflogaeth yn y diwydiant. Mae'r cwrs Technoleg Cerbydau, Lefel 3 yn ddelfrydol i'r rhai a hoffai symud ymlaen i HND/BSc mewn Cymwysiadau Modurol a Chwaraeon Modurol.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys cerbydau trydan a sgiliau arbenigol batri, atgyweiriadau hybrid a thechnolegau diwydiant newydd.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector cerbydau modur yn Abertawe.

| | | |
|---|---|---|
| £24,909 | 3,073 | 3.50% |
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Diagnosteg ac electroneg
- Nodiadau diagnostig
- Gyrru
- Atgyweirio (systemau cyfrifiadurol)
- Cynnal a chadw.

**Prif alwedigaethau:**

- Technegwyr cerbydau
- Mecanyddion cynnal a chadw
- Peirianwyr cerbydau.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Cyflwyniad i Gynnal a Chadw Systemau Cerbydau (Diploma Sylfaen Lefel 1)

Campws Tycoch

Ar y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn astudio egwyddorion sylfaenol systemau mecanyddol a thrydanol a ddefnyddir mewn technoleg cerbydau modur.

Byddwch yn cael blas ar yrfa yn y diwydiant gwasanaethau ac atgyweirio cerbydau modur a bydd yn eich annog i wneud tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio.

Byddwch hefyd yn datblygu'ch sgiliau Mathemateg a Saesneg.

### Gofynion mynediad penodol:

Diddordeb brwd yn y pwnc.

Mae'n bosibl y bydd rhaid i chi wneud prawf gallu i sicrhau bod gennych ddealltwriaeth gadarn o lythrennedd a rhifedd.

## Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Modur (Diploma Lefel 2)

Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r systemau trydanol a mecanyddol a ddefnyddir ar gerbyd modur o ran gweithredu, dylunio a chynnal a chadw.

Byddwch yn cwblhau nifer o dasgau ymarferol gosod yn ogystal ag arholiadau dewis lluosog i brofi'ch gwybodaeth.

Byddwch hefyd yn datblygu'ch sgiliau mathemateg, Saesneg a Llythrennedd Digidol.

### Gofynion mynediad penodol:

Gradd D mewn pynciau TGAU priodol gan gynnwys Mathemateg a Saesneg ynghyd â chyfweliad.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

## Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Modur (Diploma Lefel 3)

Campws Gorseinon

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r systemau trydanol a mecanyddol a ddefnyddir ar gerbyd modur o ran gweithredu, dylunio a chynnal a chadw.

Byddwch yn cwblhau nifer o dasgau gosod yn ogystal ag arholiadau dewis lluosog i brofi'ch gwybodaeth.

Byddwch hefyd yn datblygu'ch sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a TG.

### Gofynion mynediad penodol:

Wedi cwblhau cymhwyster Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau yn llwyddiannus.

### Myfyriwr y Flwyddyn 2019 - Cerbydau Modur

Roedd Katie Barnes wedi ymuno â'r cwrs Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Modur (Diploma Lefel 3) ym mis Medi 2018, ar ôl cwblhau Lefelau 1 a 2 yn llwyddiannus.

Mae Katie yn dangos sgiliau ymarferol ardderchog o ran tynnu cydrannau a'u hadnewyddu, a chanfod a chywiro namau. Mae hi hefyd yn dangos lefel uchel o wybodaeth sylfaenol yn ei gwersi ac roedd ei chanlyniadau arholiadau ar gyfer technoleg siasïau ac injans wedi profi hyn.

**Mae hi'n ysbrydoliaeth go iawn ac yn fodel rôl** i unrhyw fyfyrwragedd sy'n ystyried dilyn gyrfaoedd yn y sector moduro neu ym maes peirianneg yn ei gyfanrwydd.



## Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch - Chwaraeon Moduro (Diploma Level 3)

Campws Gorseinon

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn yw rhoi cefndir technegol ac academaidd i ddysgwyr a fydd yn gyfle iddynt gael mynediad i amrywiaeth o yrfaoedd a symud ymlaen i raglenni prifysgol cysylltiedig megis HND/BSc Chwaraeon Moduro a Pheirianneg Fodurol.

Bydd dysgwyr yn astudio'r egwyddorion mwy cymhleth yn y maes peirianneg hwn wrth gyflawni gweithgareddau atgyweirio a diagnostig ar y cydrannau cysylltiedig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Cymwysiadau gwyddor cerbydau a mathemateg
- Arferion gweithdy chwaraeon moduro
- Arferion proffesiynol a logisteg ar gyfer chwaraeon moduro
- Systemau dechrau a gwefru trydanol cerbydau
- Swyddogaeth systemau chwistrellu petrol a'u gweithredu
- Gweithredu a phrofi systemau tanio electronig cerbydau.

### Gofynion mynediad penodol:

Cymwysterau TGAU priodol ar broffil gradd C gan gynnwys mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Byddwn yn ystyried dilyniant o gyrsiau modurol lefel ganolradd ochr yn ochr â chymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae'r diwydiant rasio ceir yn cyflogi dros 40,000 o'r 'goreuon' yn y DU (a gydnabyddir fel calon y diwydiant ar draws y byd).



# Cerddoriaeth

Ar Gampws Llwyn y Bryn mae dwy stiwdio recordio llawn cyfarpar, nifer o ystafelloedd ymarfer cerddoriaeth a lle perfformio ar lwyfan.




## Eich dilyniant:

Cyflogaeth mewn rolau fel cynorthwywyr cynhyrchu, rhedwyr cyfryngau a chymorth lleoliadau. Neu ar ôl cwblhau Lefel 3, astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig fel cerddoriaeth boblogaidd neu dechnoleg cerdd.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Peirianwyr byw neu stiwdio, cerddorion proffesiynol a newyddiadurwyr.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Cerddoriaeth (Lefel 2)

Campws Llwyn y Bryn

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn datblygu'ch gwybodaeth a'ch sgiliau ymarferol mewn perfformio a chynhyrchu cerddoriaeth.

Byddwch yn astudio pob maes cerddoriaeth gan gynnwys y diwydiant cerddoriaeth, dadansoddi cynhyrchiad a pherfformiadau unawd ac *ensemble*.

Mae ffocws ymarferol i'r cwrs. Byddwch yn perfformio ar eich pen eich hun ac mewn *ensembles*, gweithio yn y stiwdio recordio a dechrau datblygu sgiliau megis ysgrifennu caneuon, dilyniannu a threfnu.

Mae ffi stiwdio o £50.

### Gofynion mynediad penodol:

Pedair gradd D ar lefel TGAU neu gymwysterau cyfwerth.

Amodol ar gyfweliad a chlyweliad.

## Perfformio Cerddoriaeth (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Llwyn y Bryn

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn yw bod mor ymarferol ag sy'n bosibl gan roi sylfaen i chi ym mhob agwedd ar berfformio a chynhyrchu cerddoriaeth.

Byddwch yn treulio llawer o'ch amser yn datblygu'ch ymarfer proffesiynol eich hun. Mae perfformio unigol, gwaith *ensemble* a gweithgareddau stiwdio i gyd yn cael eu hannog, ochr yn ochr â dealltwriaeth o hanes cerddoriaeth a chyd-destun diwylliannol.

Mae'r cwrs yn rhoi profiad ymarferol o sain fyw, technolegau recordio yn y stiwdio, dilyniannu, entrepreneuriaeth, cynhyrchu fideo, ac ysgrifennu caneuon. Mae'n rhoi modd i chi ddatblygu dealltwriaeth eang o'r diwydiant cerddoriaeth ac, yn nes ymlaen, gall arbenigedd o'ch dewis chi ddeillio o'r ddealltwriaeth hon.

Byddwch hefyd yn datblygu'r sgiliau technegol a'r *repertoire* sydd eu hangen i gynllunio a threfnu digwyddiad cerddorol mawr.

Mae ffi stiwdio o £75 y flwyddyn.

### Gofynion mynediad penodol:

Pum gradd C ar lefel TGAU neu gymwysterau cyfwerth, er enghraifft, Lefel 2 mewn Cerddoriaeth (gradd teilyngdod).

Yn amodol ar gyfweliad a chlyweliad.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Y Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu yn y Theatr

Mae gan y Coleg gysylltiadau ardderchog â cholegau arbenigol. Rydym yn ganolfan clyweliadau rhanbarthol ar gyfer LAMDA, Academi Mountview a Theatr Genedlaethol Ieuenctid.



## Eich dilyniant:

Yn y celfyddydau perfformio gallech chi symud ymlaen i'r cwrs Diploma Proffesiynol mewn Perfformio Lefel 4 neu'r cwrs TystAU Theatr Gerdd yn y Coleg neu astudiaethau pellach yn y brifysgol. Neu, gallech chi geisio mynediad i golegau drama, dawns a theatr gerdd arbenigol gan gynnwys RADA, Arts Ed ac Ysgol Ddawns Gyfoes Llundain.

Mynediad i golegau drama arbenigol gan gynnwys RADA, Bristol Old Vic a Mountview.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Addysgu, gweinyddu'r celfyddydau, rheoli llwyfan, dylunio gwisgoedd, goleuo/dylunio sain neu dechnegol.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Y Celfyddydau Perfformio (Diploma Lefel 2)

Campws Gorseinon

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i chi mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys dawns, drama a chanu.

Mae pwyslais ymarferol i'r cwrs a byddwch yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau perfformio.

Byddwch hefyd yn mynd â chynhyrchiad ar daith yn y gymuned leol fel rhan o'ch prosiect terfynol.

Mae ffi stiwdio o £150 y flwyddyn ar gyfer teithiau theatr a gweithdai.

**Gofynion mynediad penodol:**
Rhaid bod yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau perfformio. Byddai profiad TGAU mewn dawns, drama neu gerddoriaeth o fantais.

## Y Celfyddydau Perfformio (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn rhoi hyfforddiant realistig i chi ym mhob agwedd ar berfformio.

Byddwch yn datblygu eich technegau perfformio mewn actio, canu a symud.

Byddwch yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o berfformiadau sy'n cynnwys rhannu gwaith ar raddfa fach yn ogystal â chynhyrchiadau mwy mewn lleoliadau allanol.

Mae ffi stiwdio o £150 y flwyddyn ar gyfer teithiau theatr a gweithdai.

**Gofynion mynediad penodol:**
Y Celfyddydau Perfformio (Diploma Lefel 2) proffil Rhagoriaeth. Mae gradd C mewn TGAU Saesneg yn hanfodol.

Diddordeb a phrofiad yn y celfyddydau perfformio ac argymhellir eich bod yn aelod o grŵp perfformio y tu allan i'r ysgol.

## Perfformio
## (Diploma Proffesiynol Lefel 4)

**Campws Gorseinon**

Addysgir y cwrs hwn trwy unedau ymarferol a theori amrywiol a phrosiectau perfformio. Bydd cyfran fawr o'r gwaith a wneir yn ymarferol a bydd yn cael ei asesu'n barhaus.

Byddwch hefyd yn cael cymorth i baratoi am glyweliadau a chymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau perfformio mewn lleoliadau proffesiynol.

Mae ffi stiwdio o £450 ar gyfer teithiau theatr, dosbarthiadau meistr a gweithdai.

### Gofynion mynediad penodol:


Tri chymhwyster Safon Uwch gan gynnwys Drama neu'r Celfyddydau Perfformio (Diploma Estynedig Lefel 3).


Mynediad trwy gyfweliad a chlyweliad.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Mynediad i golegau a phrifysgolion drama, dawns a theatr gerdd arbenigol gan gynnwys Arts Ed, Rose Bruford, LIPA, Bristol Old Vic, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a RADA.

Gyrfaoedd mewn gwaith theatr a theledu proffesiynol.




Cydweithiodd myfyrwyr y Celfyddydau Perfformio a'r Celfyddydau Cynhyrchu Theatr ar gynhyrchiad o *Beauty and the Beast* gan Disney.

Dros naw diwrnod, roedd y myfyrwyr wedi perfformio 20 sioe i gynulleidfa o bron 2,000 o bobl. Roedd y rhain yn cynnwys tri pherfformiad cyhoeddus (a werthodd allan yn gyfan gwbl) a dydd-berfformiadau arbennig ar gyfer wyth ysgol gynradd leol, dwy ysgol gyfun a pharti Nadolig staff.

Roedd yn arddangosiad gwych o dalent, nid yn unig o ran canu, actio, dyluniad set, sain a goleuo ond hefyd y gwallt a cholur theatraidd a oruchwyliwyd gan fyfyrwyr Canolfan Broadway y Coleg.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.



Mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn **sesiynau sgiliau ymarferol** sy'n cynnwys goleuo, sain, rheoli llwyfan, creu golygfeydd, dylunio set, creu gwisgoedd a gwneud propiau.

Mae pob myfyriwr yn mynd i **sesiynau theori** i archwilio cyd-destun gwaith perfformio a busnes yn y celfyddydau perffromio.

## Celfyddydau Cynhyrchu yn y Theatr (Diploma Lefel 3)

Campws Gorseinon

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn berffaith i'r rhai sydd am dreulio blwyddyn o hyfforddiant dwys ym mhob agwedd ar gynhyrchu.

Bydd yn rhoi amrywiaeth o brofiadau ymarferol i chi. Gallwch ddefnyddio'r profiad hwn i ddatblygu portffolio wrth wneud cais i golegau arbenigol.

Mae ffi stiwdio o £150 ar gyfer teithiau theatr a gweithdai.

Gofynion mynediad penodol:
Cymhwyster perthnasol ar Lefel 3 a diddordeb a phrofiad mewn gwaith cefn llwyfan.

## Celfyddydau Cynhyrchu yn y Theatr (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn darparu hyfforddiant realistig dwys ym mhob agwedd ar gynhyrchu ar gyfer y theatr. Byddwch yn dilyn cwrs generig sy'n edrych ar oleuo, sain, rheoli llwyfan a dylunio.

Mae meysydd astudio hefyd yn cynnwys gweinyddu'r celfyddydau ac astudiaeth ddamcaniaethol o'r celfyddydau perfformio.

Bydd yn cynnig gwaith prosiect perfformio amrywiol i chi, yn y Coleg ac mewn lleoliadau allanol. Yn ogystal â'r gwaith ymarferol mae gwaith theori a hyfforddiant seiliedig ar sgiliau technegol, rheoli a dylunio.

Mae ffi stiwdio o £150 ar gyfer teithiau theatr a gweithdai.

Gofynion mynediad penodol:
Bydd angen profiad mewn gwaith cefn llwyfan ac argymhellir eich bod yn aelod o grŵp theatr ieuenctid.

# Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ddysgu rhagor am y gwahanol wasanaethau ac i asesu'r lefel ffitrwydd sydd ei hangen.

Mae gweithgareddau awyr agored ac anturus yn rhan bwysig o'r cyrsiau hyn.





"Dwi'n mwynhau'r amrywiaeth ar fy nghwrs. Rydyn ni'n astudio'r gyfraith, trosedd a dinasyddiaeth, ac yn cymryd rhan mewn agweddau corfforol yn ogystal ag agweddau ysgrifenedig ar ein cwrs.

Dwi wir wedi mwynhau'r cyfle i dynnu lluniau ar gyfer y Coleg ac ymuno â'r academi syrffio.

Fy mhrif nod yw phrentisiaeth ym maes marchnata'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gwneud prentisiaeth ym maes plismona.

Fy mreuddwyd i yw dysgu cymaint â phosib yn fy mlynyddoedd ifanc. Gyda'r holl wybodaeth dwi wedi'i dysgu ar fy nghwrs, yn ogystal â'r wybodaeth gan fy narlithwyr, dwi'n teimlo bod gen i syniad da ble bydda i yn y dyfodol."

Mae **Ali Mohammed** yn astudio Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 3. Cyn hyn, cafodd ei addysgu trwy wersi preifat gartref.

## Eich dilyniant:

Gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Cyfiawnder Troseddol neu Ddatblygu a Rheoli Chwaraeon yn y Coleg neu astudiaethau pellach yn y brifysgol. Neu, gallech wneud cais i ymuno â sefydliad gwasanaeth cyhoeddus.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Lluoedd arfog, gwasanaeth tân, heddlu a gwasanaethau prawf.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Gwasanaethau Cyhoeddus (Tystysgrif Lefel 2)

Campws Gorseinon neu Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn eich ysbrydoli i wella sgiliau cyflogadwyedd cyffredinol a sgiliau cysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus trwy raglen amrywiol a heriol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Rôl a gwaith gwasanaethau cyhoeddus
- Sgiliau gwaith yn y sector
- Cyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus
- Iechyd, ffitrwydd a ffordd o fyw
- Gweithgareddau anturus
- Chwaraeon ac adloniant yn y gwasanaethau cyhoeddus
- Cyfeiriannu ar y tir gyda map a chwmpawd.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd D neu uwch ar lefel TGAU. Gradd D/E o leiaf mewn Saesneg a Mathemateg.

## Gwasanaethau Cyhoeddus (Diploma Lefel 3)

Campws Gorseinon neu Tycoch

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus megis yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r lluoedd arfog.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Polisïau'r llywodraeth
- Arweinyddiaeth a gwaith tîm
- Profion ffitrwydd a hyfforddiant
- Gweithgareddau awyr agored ac anturus
- Cynllunio gyrfa
- Troseddu a'i effeithiau ar gymdeithas
- Agweddau ar y system gyfreithiol a'r broses o wneud cyfreithiau
- Rheoli digwyddiadau mawr.

Byddwch yn astudio Bagloriaeth Cymru ochr yn ochr â'r cwrs hwn.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU neu Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus (Tystysgrif Lefel 2) gyda proffil Teilyngdod.

Gradd C o leiaf mewn TGAU Saesneg a Mathemateg.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Gwyddoniaeth

Gall gwyddoniaeth fod yn ddefnyddiol mewn llawer o sectorau gwahanol megis peirianneg, gweithgynhyrchu ac ymchwil, yn ogystal â meddygaeth a gwyddor yr amgylchedd.

Diddordeb mewn **prentisiaethau?** Gweler tudalen 81



Ceir **ecosystem rîff morol** yn un o'n labordai gwyddoniaeth lle rydym yn tyfu cwrelau byw a bywyd morol arall.

## Eich dilyniant:

Yn y Coleg, gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gwyddor Ddadansoddol a Fforensig neu astudiaethau pellach yn y brifysgol.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Geneteg feddygol, bioleg, cemeg, hyfforddiant parafeddygol, gwyddor fforensig, technoleg ddeintyddol, troseddeg a biocemeg.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector gwyddoniaeth a gwyddor gymdeithasol yn Abertawe.

| £32,689 | 721 | 18.10% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif alwedigaethau:**

- Gwyddonwyr biolegol a biocemegwyr
- Technegwyr labordy
- Gweithwyr proffesiynol yr amgylchedd.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Gwyddoniaeth Gymhwysol (Diploma Cyntaf Lefel 2)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi modd i chi ddatblygu gwybodaeth mewn gwyddoniaeth naturiol a chymdeithasol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cemeg a'n daear ni
- Ynni a'n bydysawd ni
- Bioleg a'n hamgylchedd ni
- Cymhwyso gwyddoniaeth ffisegol
- Cymhwyso gwyddor bywyd ym maes iechyd
- Prosiect gwyddonol ymarferol
- Y corff byw.

Gofynion mynediad penodol:
Yn ddelfrydol, pedair gradd D ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Astudiaethau Galwedigaethol (Lefel 1) gyda phroffil teilyngdod.

## Gwyddoniaeth Gymhwysol - Fforensig neu Feddygol (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Tycoch

Addysgir y cwrs dwy flynedd hwn gan ddarlithwyr arbenigol ac mae'n cynnwys gwaith ymarferol ac ymchwil academaidd.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Canfyddiadau gwyddoniaeth
- Defnyddio ystadegau mewn gwyddoniaeth
- Gwybodeg mewn gwyddoniaeth
- Atgynhyrchu
- Biocemeg a thechnegau biocemegol
- Technegau microbiolegol
- Cemeg ar gyfer technegwyr bioleg
- Geneteg a pheirianneg genetig
- Technegau cemegol
- Troseddeg
- Seicoleg fforensig
- Clefydau a heintiau.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg ac mae Gwyddoniaeth yn ddymunol. Neu Wyddoniaeth Gymhwysol (Diploma Cyntaf Lefel 2) gyda phroffil teilyngdod.

# Chwaraeon

Cymraeg

Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn y maes hwn.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau chwaraeon cyffredinol yn ogystal â dewisiadau i'r rhai sydd am ganolbwyntio ar bêl-droed neu wyddor ymarfer corff.



## Eich dilyniant:

Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon neu astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pynciau megis chwaraeon ac addysg gorfforol, astudiaethau rheoli hamdden, hyfforddi chwaraeon, datblygu ac addysgu chwaraeon. Efallai y bydd cyfleoedd i astudio dramor hefyd. Neu gallech chi geisio cyflogaeth yn y diwydiant hamdden egnïol.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Addysgu addysg gorfforol, hyfforddi, rheoli chwaraeon, dadansoddi chwaraeon a'r diwydiant hamdden. Yn achos Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff mae gyrfaoedd mewn seicoleg, biomecaneg, maetheg, cinesioleg, therapi chwaraeon ac addysgu. Mae tueddiadau'r dyfodol yn cynnwys gwyddorau bywyd, lles a rhedeg eich busnes eich hun.

## Eisiau aros yn lleol?

Ystadegau ar gyfer y sector chwaraeon yn Abertawe.

| £19,321 | 4,320 | 6.60% |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol ar gyfartaledd yn y sector. | Cyfanswm a gyflogir yn y sector. | Twf disgwyliedig dros yr wyth mlynedd nesaf yn Abertawe. |

**Prif sgiliau y mae galw amdanynt:**

- Marchnata/e-fasnach
- Entrepreneuriaeth
- Gwybodaeth dechnegol am chwaraeon.

**Prif alwedigaethau:**

- Hyfforddwyr  a swyddogion chwaraeon
- Cynorthwywyr chwaraeon a hamdden
- Rheolwyr chwaraeon a hamdden.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Chwaraeon (Diploma Rhagarweiniol Lefel 1)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi ciplowg gwych i chi ar y diwydiant chwaraeon a hamdden egnïol yn ogystal â'r cyfleoedd niferus sy'n bodoli o fewn y sector.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cymryd rhan mewn ymarfer corff a ffitrwydd
- Cynllunio'ch rhaglenni ffitrwydd eich hunan
- Gweithio mewn chwaraeon a hamdden.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd E ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg.

## Chwaraeon (Diploma Lefel 2)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi ciplowg gwych i chi ar y diwydiant chwaraeon a hamdden egnïol gyda chyfle i gael cymwysterau hyfforddi chwaraeon ychwanegol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Anafiadau chwaraeon
- Maetheg
- Chwaraeon ymarferol
- Anatomeg
- Cynllunio ac arwain gweithgareddau chwaraeon.

Mae hefyd yn annog datblygiad personol trwy gyfranogiad ymarferol a pherfformiad mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd D neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

## Chwaraeon - Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed (Diploma Estynedig Lefel 3)

Amlgampws

Mae’r cwrs dwy flynedd hwn yn berffaith i’r rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau a’u perfformiad pêl-droed eu hunain ac sydd am astudio hyfforddi.

Cewch gipolwg gwerthfawr ar dechnegau hyfforddi ar gyfer amrywiaeth o boblogaethau pêl-droed, o blant ifanc i chwaraewyr proffesiynol elit.

Mae meysydd astudio’n cynnwys:
- Anatomeg
- Hyfforddiant ffitrwydd a rhaglennu
- Dadansoddi
- Hyfforddi
- Trefnu a rhedeg rhaglenni pêl-droed ysgolion
- Datblygu sgiliau pêl-droed
- Tylino corff ac anafiadau chwaraeon.

Byddwch yn datblygu sgiliau diwydiant trwy amrywiaeth o leoliadau gwaith lleol o dan oruchwyliaeth a chymorth tiwtorial.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU neu Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus (Lefel 2) gyda phroffil teilyngdod.

Gradd C o leiaf mewn TGAU Saesneg a Mathemateg.

Bydd gofyn i chi ddangos eich sgiliau pêl-droed a’ch dealltwriaeth o dreialon cyn y cwrs.




Ehangwch eich gorwelion fel y myfyrwyr hyn a fwynheuodd bythefnos mewn gwersyll hyfforddiant pêl-droed gyda **SL Benfica** (Portiwgal).

## Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon

Mae’r cwrs dwy flynedd hwn yn ddelfrydol i’r rhai sydd â diddorddeb cryf mewn gwyddor chwaraeon a diddordeb mewn datblygu gallu athletwyr trwy ddadansoddi ac astudiaethau ymchwil.

Gall meysydd astudio gynnwys:
- Anatomeg
- Ffisioleg ymarfer corff
- Seicoleg chwaraeon
- Biomecaneg
- Maeth mewn chwaraeon
- Ymchwil chwaraeon
- Anafiadau chwaraeon.

Gallwn addysgu rhannau o’r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Byddwn yn ystyried gradd rhagoriaeth mewn pynciau cyfwerth.

## Chwaraeon (Diploma Estynedig Lefel 3)

Campws Gorseinon neu Gampws Tycoch

Ar y cwrs dwy flynedd hwn byddwch yn canolbwyntio ar astudio’r corff dynol mewn chwaraeon, sgiliau hyfforddi ac addysgu ffitrwydd. Mae pwyslais ar wella a datblygu chwaraeon o fewn cymdeithas hefyd.

Bydd angen amrywiaeth eang o ddiddordebau chwaraeon arnoch a byddwch yn mwynhau cymryd rhan ym mhob math o weithgareddau.

Gan fod nifer o unedau astudio yn gysylltiedig ag arweinyddiaeth a hyfforddi, dylech fod yn hyderus i weithio gyda chyfoedion a phlant ifanc mewn ysgolion.

Mae meysydd astudio’n cynnwys:
- Anatomeg a ffisioleg
- Profion ffitrwydd
- Hyfforddi chwaraeon
- Maeth mewn chwaraeon
- Trefnu digwyddiad.

Gallwn addysgu rhannau o’r cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg neu Chwaraeon/ Gwasanaethau Cyhoeddus (Lefel 2) gyda phroffil teilyngdod.

# Teithio a Thwristiaeth

Mae cwrs teithio a thwristiaeth yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol ac yn eich helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rheoli busnes, gan ehangu eich cyfleoedd gyrfa.

Ffynhonnell: www.prospects.ac.uk



## Eich dilyniant:

Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Rheoli Digwyddiadau neu gwrs cysylltiedig yn y brifysgol megis lletygarwch, hamdden, twristiaeth neu reoli teithiau awyr. Neu, gallech chi geisio cyflogaeth yn y diwydiant.

## Mae'ch dewisiadau gyrfa yn cynnwys:

Gyrfaoedd mewn rheoli atyniadau, gweithrediadau teithio adwerthu, criw caban awyren, gwasanaethau cwsmeriaid a rheoli digwyddiadau.

Defnyddiwch **yr offeryn Hyfforddwr Gyrfa** ar ein gwefan i wybod rhagor neu ewch i **gcs.emsicc.com**

## Pasbort i Dwristiaeth (Diploma Lefel 2)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi'r sgiliau, y rhinweddau a'r wybodaeth perthnasol sydd eu hangen i gael gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

Mae'r cwrs yn cwmpasu amrywiaeth o unedau, ac mae pob un yn ymwneud â diwydiant eang teithio a thwristiaeth.

Fel rhan o'r cwrs, byddwch yn datblygu'ch sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Gofynion mynediad penodol:
Dwy radd D ar lefel TGAU neu'r cyfwerth.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Teithio a Thwristiaeth (Diploma Lefel 3) neu gyflogaeth yn y diwydiant.

## Twristiaeth Uwch (Diploma Lefel 3)

Campws Tycoch

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i symud ymlaen i'r diwydiant teithio a thwristiaeth neu addysg uwch ym maes rheoli teithio a thwristiaeth.

Mae'r cwrs yn cwmpasu amrywiaeth o unedau, ac mae pob un yn ymwneud â diwydiant eang teithio a thwristiaeth.

Fel rhan o'r cwrs byddwch yn cwblhau cymhwyster yn ogystal â datblygu'ch sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Gofynion mynediad penodol:
Pum gradd C neu uwch mewn pynciau TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith, neu Ddiploma Lefel 2 mewn pwnc cysylltiedig (gyda phroffil teilyngdod).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Rheoli Digwyddiadau.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pynciau cysylltiedig megis lletygarwch, hamdden, twristiaeth neu reoli teithiau awyr.

Gyrfaoedd mewn rheoli atyniadau, marchnata bwrdd croeso, criw caban awyren, gwasanaethau cwsmeriaid a rheoli digwyddiadau.




Roedd myfyrwyr Teithio a Thwristiaeth wedi ymweld ag **Academi Hyfforddi FLYBE** ym maes awyr Caerwysg.

Roedd y myfyrwyr wedi cwblhau rhaglen Cyflwyniad i Hyfforddiant Criw Caban oedd wedi rhoi sylw i feysydd fel cyflwyniad i weithdrefnau brys, llithren argyfwng, arddangosiad diogelwch ac offer argyfwng.



Gallwch ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn eich blwyddyn gyntaf.

# Prentisiaethau

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

Mae mwy a mwy o bobl yn cofrestru ar gyrsiau prentisiaeth fel dewis arall yn lle addysg bellach a'r brifysgol, neu yn gobeithio uwchsgilio yn eu swydd bresennol.

Fel prentis, **byddwch yn dysgu wrth ennill,** gan ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

Gall pobl o **unrhyw oedran** ddilyn prentisiaeth ar yr amod eu bod yn gyflogedig am o leiaf 16 awr yr wythnos. Os ydych yn chwilio am waith, gall ein tîm Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol eich helpu (gweler tudalen 7).

Cewch **gyflog rheolaidd** a gwyliau â thâl a'r un manteision â gweithwyr eraill. Wrth i'ch sgiliau ddatblygu, bydd eich cyflog yn cynyddu yn unol â hynny. Mae'n bosibl y cewch arian ychwanegol ar gyfer llyfrau, dillad neu offer hanfodol hefyd.

Gallwch ddechrau prentisiaeth ar y lefel sy'n gweddu i chi, o lefel mynediad i lefel uwch reoli. Gallai fod yn **Brentisiaeth Sylfaen (Lefel 2)** neu **Brentisiaeth (Lefel 3)** gyda'r posibilrwydd o symud ymlaen i **Brentisiaeth Uwch (Lefel 4 a Lefel 5).**

Cymraeg

Gellir paru siaradwyr Cymraeg ag aseswr Cymraeg ei iaith mewn rhai meysydd.

Mae gan y Coleg **berthynas sefydledig** gyda llawer o gyflogwyr bach a chanolig a chwmnïau mawr ar draws yr ardal

Arolwg Estyn 2018

## Rydym yn ddarparwr prentisiaethau **arobryn**.

FE WEEK aelp AAC 2019 AWARDS WINNER

Yn 2019, cafodd y Coleg ei enwi yn Ddarparwr Iechyd a Gwyddoniaeth AAC y Flwyddyn.

Yn ogystal, enillodd ein harweinydd cwricwlwm Peirianneg Electronig, Steve Williams, Wobr AAC am ei Gyfraniad Rhagorol at Ddatblygu Prentisiaethau.

---

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda mwy na **2,700** o brentisiaid a thros **700** o gyflogwyr, gan gwmpasu **46** o lwybrau gwahanol.

Rydym yn cynnig Prentisiaethau yn y meysydd canlynol, mae **llwybrau sy'n addas i ymadawyr ysgol** i'w gweld ar dudalennau 73-81:

- Adwerthu
- Cerbydau modur
- Cyfrifeg
- Cyngor a chyfarwyddyd
- Cymorth cymwysiadau digidol TG
- Cymorth dysgu
- Cynhyrchion electronig defnyddwyr
- Dadansoddeg data
- Defnyddiwr TG
- Diogelwch gwybodaeth
- Dylunio dysgu digidol TG
- Gofal plant
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Gwaith brics
- Gwaith coed
- Gweinyddu busnes
- Gweithrediadau adeiladu
- Gweithrediadau canolfan gyswllt
- Gweithrediadau peiriannau
- Iechyd a gofal cymdeithasol (rhaid i chi fod yn hŷn na 18 oed)
- Lletygarwch
- Peintio ac addurno
- Peirianneg
- Perfformiad gweithredol
- Plymwaith
- Rheolaeth
- Rheoli cyfleusterau
- Tai
- Technegau gwella busnes
- Technegwyr labordy
- TG, meddalwedd a thelathrebu
- Trin gwallt
- Trydanol
- Y cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol.




Coleg yn dathlu

# Gwobrau Prentisiaethau

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cynnal seremoni wobrwyo arbennig i brentisiaid a chyflogwyr.

Cafodd y digwyddiad, a gyflwynwyd gan Ross Harries o Scrum V Live BBC Wales, ei gynnal i anrhydeddu ymrwymiad ac ymroddiad rhagorol 'y gorau o'r goreuon'.

Ymhlith enillwyr y gwobrau roedd dysgwyr sydd wedi cwblhau prentisiaethau mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau o Lefel 2 hyd at Lefel 5. Yn wir, un o enillwyr y noson – Cory Allen – yw'r dysgwr cyntaf i ddechrau prentisiaeth gradd yn y Coleg.

Mae nifer wedi goresgyn rhwystrau sylweddol i gael llwyddiant, datblygu eu gyrfaoedd a gwneud cyfraniad sylweddol i'w cyflogwr a'r economi ehangach.

"Mae gwrando ar rai o ôl-storïau yr enillwyr heno yn tynnu ein sylw unwaith eto at y ffaith bod y buddion yn sylweddol, er bod gwneud prentisiaeth yn golygu llawer iawn o ymrwymiad.

Mae prentisiaethau'n gallu para rhwng un a phedair blynedd ac, yn ystod y cyfnod hwn, yn aml bydd y dysgwr yn jyglo gwaith, hyfforddiant, astudiaethau a bywyd cartref er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Rydyn ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig cydnabod y storïau llwyddiant gwych hyn."

Paul Kift
**Cyfarwyddwr Sgiliau a Datblygu Busnes y Coleg**

"Un o rolau allweddol unrhyw goleg addysg bellach yw cefnogi ein cyflogwyr lleol, a chan fod y galw am brentisiaethau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dwi wrth fy modd ein bod ni wedi gallu ymateb i'r galw hwn a chynhyrchu'r prentisiaid o safon uchel rydyn ni'n cwrdd â nhw heno."

Mark Jones
**Pennaeth**

# Busnes a Chyfrifeg



## Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu Prentisiaeth Sylfaen (Lefel 2)

Plas Sgeti

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd am hyfforddi mewn rôl cyfrifeg ym myd diwydiant neu mewn practis cyfrifeg.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Trafodion cadw cyfrifon
- Rheolaeth cadw cyfrifon
- Elfennau costio
- Defnyddio meddalwedd cyfrifeg
- Gweithio'n effeithlon ym maes cyllid.

### Gofynion mynediad penodol:
Bydd cyfweliad anffurfiol.

Byddai gradd C neu uwch ar lefel TGAU mewn Mathemateg a Saesneg yn ddelfrydol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu Lefel 3 a Lefel 4 (mae'n bosibl dechrau ar y lefelau hyn ond mae'n dibynnu ar brofiad, cymwysterau a chyfweliad anffurfiol).

## Prentisiaeth Sylfaen Gweinyddu Busnes (Lefel 2)

Llys Jiwbilî

Mae'r cwrs 18 mis hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd am hyfforddi mewn swydd weinyddol neu glercol neu'r rhai sy'n gweithio mewn amgylchedd swyddfa.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cyfathrebu mewn amgylchedd busnes
- Rheoli perfformiad a datblygiad personol
- Meithrin perthnasau gwaith gyda chydweithwyr.

### Gofynion mynediad penodol:
Bydd cyfweliad anffurfiol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Gweinyddu Busnes (Lefel 3).

## Prentisiaeth Gweinyddu Busnes (Lefel 3)

Llys Jiwbilî

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd am ennill cymhwyster mewn galwedigaeth weinyddol uwch neu i'r rhai sy'n gweithio mewn amgylchedd swyddfa ac sy'n gobeithio symud ymlaen i rôl goruchwylio.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cyfathrebu mewn amgylchedd busnes
- Rheoli perfformiad a datblygiad personol
- Cyfathrebu a gwybodaeth.

### Gofynion mynediad penodol:
Bydd cyfweliad anffurfiol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Uwch mewn Gweinyddu Busnes a Phroffesiynol (Lefel 4).

# Cyfrifiadura a Thechnoleg

## Prentisiaeth Sylfaen Gweithwyr Proffesiynol Meddalwedd TG y We a Thelathrebu (Cymru) (Lefel 2)

Llys Jiwbilî

Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi weithio'n effeithiol gyda systemau TG, cyfathrebu, offer a chymwysiadau cynhyrchiant mewn amrywiaeth o sectorau diwydiant.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cronfa ddata
- Datblygu meddalwedd
- Cymorth systemau
- Codio.

### Gofynion mynediad penodol:
Bydd cyfweliad anffurfiol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Sylfaenol Gweithwyr Proffesiynol Meddalwedd TG y We a Thelathrebu (Cymru) (Lefel 3).

## Prentisiaeth Gweithwyr Proffesiynol Meddalwedd TG y We a Thelathrebu (Cymru) (Lefel 3)

Llys Jiwbilî

Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth uwch i chi weithio'n effeithiol gyda systemau TG, cyfathrebu, offer a chymwysiadau cynhyrchiant mewn amrywiaeth o sectorau diwydiant.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cronfa ddata
- Datblygu meddalwedd
- Cymorth systemau
- Codio.

### Gofynion mynediad penodol
Bydd cyfweliad anffurfiol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaethau uwch mewn amrywiaeth o feysydd pwnc gan gynnwys gweinyddu proffesiynol a rheolaeth.

# Adeiladu a Phlymwaith



## Prentisiaeth Sylfaen Gorffennu Addurniadol a Pheintio Diwydiannol (Lefel 2)

Llys Jiwbilî

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn cwmpasu amrywiaeth o dechnegau peintio ac addurno, fydd yn ychwanegu at eich gwybodaeth o'r grefft.

Byddwch yn ennill yr arbenigedd i weithio'n annibynnol, gan gynnwys dealltwriaeth gadarn o effeithiau addurniadol uwch, fel graenio a marmori.

### Gofynion mynediad penodol:
Cyfuniad o gymwysterau TGAU, profiad gwaith blaenorol yn y diwydiant, llwyddiant ar gwrs dilyniant perthnasol a chanlyniadau asesiad ar-lein - caiff hyn ei drafod yn y cyfweliad.

Byddai gradd C neu uwch ar lefel TGAU mewn Mathemateg a Saesneg yn ddymunol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Gorffennu Addurniadol a Pheintio Diwydiannol (Lefel 3).

Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r cymhwyster i chi symud ymlaen i hunangyflogaeth a chyfleoedd gyrfa/cyflogaeth pellach.

## Prentisiaeth Gorffennu Addurniadol a Pheintio Diwydiannol (Level 3)

Llys Jiwbilî

Mae'r cwrs blwyddyn/dwy flynedd hwn yn ddelfrydol i'r rhai sy'n ymwneud â pharatoi arwynebau a pheintio arwynebau cymhleth â brws neu hongian gorchuddion wal.

Bydd yn rhoi cyfle i chi wella'ch sgiliau a'ch gwybodaeth mewn amrywiaeth o dechnegau gorffennu gan gynnwys gosod cilfwâu a mowldiau addurniadol, cotio gan ddefnyddio dulliau chwistrellu, gwaith stensil, graenio, gweadeddu crib, marmori a defnyddio deilen fetel.

Byddwch hefyd yn ennill tystysgrifau Sgiliau Hanfodol.

### Gofynion mynediad penodol:

Rhaid i chi fod wedi cwblhau Lefel 2 mewn crefft gysylltiedig.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r cymhwyster i chi symud ymlaen i hunangyflogaeth a chyfleoedd gyrfa/cyflogaeth pellach.

## Prentisiaeth Sylfaen Plymwaith a Gwresogi (Lefel 2)

Campws Tycoch

Mae'r brentisiaeth hon yn rhoi sylw i'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant plymwaith a gwresogi domestig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Iechyd a diogelwch
- Systemau dŵr poeth ac oer domestig
- Systemau gwresogi canolog
- Systemau iechydaeth
- Technolegau amgylcheddol
- Diogelwch nwy.

### Gofynion mynediad penodol:

Cyfuniad o gymwysterau TGAU, llwyddiant ar gwrs dilyniant perthnasol a chanlyniadau asesiad ar-lein.

Byddai gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg yn ddymunol.

Rhaid i chi fod yn gyflogedig mewn swydd addas yn y diwydiant.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Prentisiaeth Plymwaith a Gwresogi (Lefel 3).

## Prentisiaeth Plymwaith a Gwresogi (Lefel 3)

Campws Tycoch

Mae hon yn brentisiaeth uwch dros ddwy flynedd fydd yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i chi o'r diwydiant adeiladu.

Byddwch yn astudio strwythurau'r sefydliad diwydiant sy'n rheoli'r sector hwn.

Trwy waith theori a hyfforddiant ymarferol byddwch yn dysgu am y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n rheoli prosesau plymwaith, gwresogi a nwy.

### Gofynion mynediad penodol:

Plymwaith a Gwresogi (NVQ Lefel 2).

Rhaid i chi basio asesiad ar-lein a chyfweliad hefyd.

Rhaid i chi fod yn gyflogedig mewn swydd addas yn y diwydiant.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cymhwyster HNC neu HND mewn Gwasanaethau Adeiladu.

## Prentisiaeth Sylfaen Gwaith Coed Safle neu Saernïaeth Mainc (Lefel 2)

Llys Jiwbilî

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn rhoi sgiliau i chi ar lefel broffesiynol i ddefnyddio technegau gwaith coed safle.

Byddwch yn dysgu am elfennau coed strwythurol amrywiol fel distiau, toi, mynedfeydd ac adeiladau ffrâm coed neu weithgynhyrchu drysau, ffenestri a grisiau.

Yn y gwaith bydd rhaid i chi gasglu tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer eich cymhwyster NVQ.

### Gofynion mynediad penodol:

Cyfuniad o gymwysterau TGAU, profiad gwaith blaenorol yn y diwydiant, llwyddiant ar gwrs dilyniant perthnasol a chanlyniadau asesiad ar-lein - caiff hyn ei drafod yn y cyfweliad.

Byddai gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg yn ddymunol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Prentisiaeth Gwaith Coed Safle neu Saernïaeth Mainc (Lefel 3) neu symud ymlaen i amrywiaeth o wahanol feysydd yn y sector.



Sylwch y gallai'r cyrsiau hyn newid oherwydd mae cymwysterau newydd yn dechrau yn 2021.

I gael yr wybodaeth fwyaf diweddar am y cyrsiau ewch i **gcs.ac.uk/cy/plumbing-and-construction**

## Prentisiaeth Gwaith Coed Safle neu Saernïaeth Mainc (Lefel 3)

Llys Jiwbilî

Mae'r cwrs blwyddyn/dwy flynedd hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd am ddatblygu gyrfa ym maes gwaith coed.

Bydd yn rhoi cyfle i chi weithio fel saer arbenigol yn y diwydiant adeiladu.

Byddwch yn torri, siapio a gosod darnau a ffitiadau cymhleth megis waliau a thoi neu weithgynhyrchu drysau, ffenestri a grisiau. Gallech arbenigo ymhellach mewn meysydd megis ffitiadau siopau, gwaith saer olwynion a saernïaeth.

Byddwch hefyd yn dysgu sut i weithio'n ddiogel mewn rôl goruchwylio fel rhan o dîm i adeiladu ac ailwampio cartrefi neu eiddo annomestig.

**Gofynion mynediad penodol:**
Rhaid i chi fod wedi cwblhau Lefel 2 mewn crefft gysylltiedig.

**Dilyniant/Gyrfaoedd:**
Symud ymlaen i amrywiaeth o feysydd yn y sector adeiladu.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau i symud ymlaen i addysg uwch mewn pynciau cysylltiedig neu swyddi rheoli yn y diwydiant.

## Prentisiaeth Sylfaen Galwedigaethau Trywel - Gwaith Brics (Lefel 2)

Llys Jiwbilî

Ar y cwrs dwy flynedd hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau crefft i weithio i safonau diwydiannol cydnabyddedig yn y diwydiant gosod brics.

Byddwch yn dysgu sgiliau gwaith maen newydd, gwaith blociau a sgiliau gwaith brics a byddwch yn ennill yr wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer gyrfa yn y diwydiant.

**Gofynion mynediad penodol:**
Cyfuniad o gymwysterau TGAU, profiad gwaith blaenorol yn y diwydiant, llwyddiant ar gwrs dilyniant perthnasol a chanlyniadau asesiad ar-lein - caiff hyn ei drafod yn y cyfweliad.

Mae gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg yn ddymunol.

**Dilyniant/Gyrfaoedd:**
Prentisiaeth Galwedigaethau Trywel (Lefel 3) neu ennill achrediad a gymeradwyir gan y diwydiant trwy gyrsiau adeiladu eraill y Coleg.

## Prentisiaeth Galwedigaethau Trywel - Gwaith Brics (Lefel 3)

Llys Jiwbilî

Ar y cwrs blwyddyn/dwy flynedd hwn byddwch yn datblygu amrywiaeth o uwch-sgiliau gosod brics gan gynnwys gwaith addurniadol, atgyweirio a gwaith maen cymhleth.

Byddwch yn ychwanegu at eich gwybodaeth bresennol o'r grefft a gallu gweithio ar dasgau arbenigol.

Byddwch yn ennill y sgiliau arbenigol i weithio'n annibynnol, a byddwch â'r gallu i ymgymryd â rolau goruchwylio.

**Gofynion mynediad penodol:**
Rhaid i chi fod wedi cwblhau Lefel 2 mewn crefft gysylltiedig.

**Dilyniant/Gyrfaoedd:**
Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r cymhwyster i chi symud ymlaen i hunangyflogaeth a chyfleoedd gyrfa pellach, gan gynnwys rheoli safle neu addysg uwch.

# Trydanol a Pheirianneg



## Prentisiaeth Sylfaen Systemau Electronig Diogelwch ac Argyfwng (Lefel 2)

Llys Jiwbilî a Champws Tycoch

Bydd y brentisiaeth hon yn datblygu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i osod systemau diogelwch – gallwch arbenigo mewn unrhyw beth o larymau tresmaswyr i ganfod tân.

### Gofynion mynediad penodol:

Rhaid i chi fod yn gyflogedig mewn swydd addas yn y diwydiant.

Byddai gwybodaeth o systemau electronig diogelwch ac argyfwng yn fanteisiol. Fodd bynnag, caiff yr holl elfennau eu haddysgu ar ddiwrnod astudio a chaiff y gofynion ymarferol eu darparu ar eich lleoliad gwaith.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Prentisiaeth Systemau Electronig Diogelwch ac Argyfwng (Lefel 3).

## Prentisiaeth Sylfaen Electrodechnegol (Lefel 2)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs hwn yn hanfodol i'r rhai a hoffai ddilyn gyrfa fel trydanwr cymwysedig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Mathemateg
- Egwyddorion trydanol
- Iechyd a diogelwch
- Technoleg gosodiadau trydanol
- Gosod systemau gwifro
- Cyfathrebu ym maes peirianneg gwasanaethau adeiladu.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

Byddwch yn dod i'r Coleg un diwrnod yr wythnos a byddwch yn treulio'r pedwar diwrnod arall mewn hyfforddiant yn y swydd.

### Gofynion mynediad penodol:

Cymhwyster Lefel 1 mewn Peirianneg Drydanol neu Electrodechnegol.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Prentisiaeth Electrodechnegol (Lefel 3).

## Prentisiaeth Electrodechnegol (Lefel 3)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs dwy flynedd neu bedair blynedd hwn yn hanfodol i'r rhai a hoffai fod yn drydanwr cymwysedig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Mathemateg
- Egwyddorion trydanol
- Iechyd a diogelwch
- Canfod namau
- Dylunio systemau trydanol
- Gosod, arolygu a phrofi
- Technoleg amgylcheddol.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

Byddwch yn dod i'r Coleg un diwrnod yr wythnos a byddwch yn treulio'r pedwar diwrnod arall mewn hyfforddiant yn y swydd.

### Gofynion mynediad penodol:

Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2, cymhwyster Lefel 1 mewn Peirianneg Drydanol neu Electrodechnegol.

Gradd C ar lefel TGAU mewn Mathemateg a gradd D mewn pedwar pwnc arall.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Gwaith fel trydanwr gosodiadau neu symud ymlaen i gwrs addysg uwch neu brentisiaeth uwch.

# Electroneg



## Prentisiaeth Sylfaen Peirianneg/ Electroneg (Lefel 2)

Campws Tycoch

Bwriedir y cwrs dwy flynedd hwn ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddechrau gyrfa ym maes peirianneg. Mae gwahanol lwybrau ar gael o fewn y fframwaith megis peirianneg gweithgynhyrchu, gweithrediadau a chynnal a chadw, electroneg, weldio a ffabrigo.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Mathemateg
- Gwyddor peirianneg
- Electroneg
- Iechyd a diogelwch
- Cyfathrebu ar gyfer technegwyr
- Roboteg
- Deallusrwydd artiffisial AI
- Dylunio PCB
- PLC
- Cystadlaethau sgiliau.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

Byddwch yn dod i'r Coleg un diwrnod yr wythnos a byddwch yn treulio'r pedwar diwrnod arall mewn hyfforddiant yn y swydd.

### Gofynion mynediad penodol:
Gradd D o leiaf mewn TGAU Mathemateg, Saesneg a phwnc Gwyddoniaeth a dau bwnc arall.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Peirianneg/Electroneg (Lefel 3).

## Prentisiaeth Peirianneg/Electroneg (Lefel 3)

Campws Tycoch

Bwriedir y cwrs dwy flynedd hwn ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddechrau gyrfa ym maes peirianneg. Mae gwahanol lwybrau ar gael o fewn y fframwaith megis peirianneg gweithgynhyrchu, gweithrediadau a chynnal a chadw, electroneg, weldio a ffabrigo.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Mathemateg
- Gwyddor peirianneg
- Electroneg
- Egwyddorion mecanyddol a/neu drydanol
- Cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur
- Iechyd a diogelwch
- Cyfathrebu ar gyfer technegwyr
- Roboteg
- Deallusrwydd artiffisial AI
- Dylunio PCB
- PLC
- Cystadlaethau sgiliau.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

Byddwch yn dod i'r Coleg un diwrnod yr wythnos a byddwch yn treulio'r pedwar diwrnod arall mewn hyfforddiant yn y swydd.

### Gofynion mynediad penodol:
Gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg a Saesneg a thri phwnc arall, a dylai un ohonynt fod yn bwnc Gwyddoniaeth.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gyrfa fel technegydd goruchwylio.

Yn y Coleg, gallech symud ymlaen i'r cwrs HNC/ HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig neu Beirianneg Fecanyddol.

# Trin Gwallt

## Prentisiaeth Sylfaen Trin Gwallt (Lefel 2)

Campws Tycoch

Ar y cwrs dwy flynedd hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Iechyd a diogelwch
- Rhoi cyngor i gleientiaid ac ymgynghori â nhw
- Siampwio a chyflyru a thrin gwallt a chroen y pen
- Lliwio a goleuo gwallt
- Steilio a gorffen gwallt
- Gosod a thrin gwallt
- Torri gwallt merched a dynion.

Byddwch hefyd yn cwblhau cymwysterau sgiliau hanfodol mewn llythrennedd digidol, cyfathrebu a rhifedd.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C mewn TGAU Mathemateg neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru neu Trin Gwallt (Lefel 1).

Byddwch yn dod i'r Coleg un diwrnod yr wythnos. Byddwch yn treulio'r pedwar diwrnod arall mewn salon.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Trin Gwallt (Lefel 3).

## Prentisiaeth Trin Gwallt (Lefel 3)

Campws Tycoch

Yn ystod y cwrs blwyddyn hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau trin gwallt a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Ymgynghori
- Technegau torri a lliwio creadigol
- Steilio a thrin gwallt hir
- Cywiro lliw.

Byddwch hefyd yn cwblhau cymwysterau sgiliau hanfodol mewn cyfathrebu a chymhwyso rhif.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru neu gymhwyster Trin Gwallt (Lefel 2).

Byddwch yn dod i'r Coleg un diwrnod yr wythnos. Byddwch yn treulio'r pedwar diwrnod arall mewn salon.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gweithio fel uwch steilydd mewn salon, llongau teithio neu berchennog salon.

# Iechyd a Gofal Plant



## Prentisiaeth Sylfaen Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - Ymarfer (Lefel 2)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn ychwanegu at yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Cyfathrebu
- Datblygiad personol
- Cyflwyniad i gydraddoldeb a chynhwysiant
- Datblygiad plant a phobl ifanc
- Diogelu
- Iechyd a lles, dysgu a datblygiad
- Ymarfer proffesiynol
- Datblygu dealltwriaeth bellach o wasanaethau datblygiad plant a gofal plant yng Nghymru.

Byddwch hefyd yn cwblhau'r cymhwyster craidd ochr yn ochr â'r cwrs hwn.

Gofynion mynediad penodol:
Cyflogaeth yn y sector am 16 awr yr wythnos.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Lefel 3) y gellir ei astudio'n amser llawn neu fel prentisiaeth.

Mae cyfleoedd gwaith yn cynnwys nyrs feithrin, cynorthwyydd meithrin neu gynorthwyydd grŵp chwarae.

## Prentisiaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant - Ymarfer (Lefel 3)

Campws Tycoch

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn ychwanegu at yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Egwyddorion a gwerthoedd
- Diogelu
- Iechyd a lles, dysgu a datblygiad
- Ymarfer proffesiynol
- Rôl a chyd-destun gofal, dysgu a datblygiad plant a darpariaeth chwarae ledled y DU
- Creu amgylcheddau cadarnhaol.

Gofynion mynediad penodol:
Cyflogaeth mewn lleoliad gofal plant perthnasol am o leiaf 20 awr yr wythnos.

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Yn y Coleg gallech symud ymlaen i'r cwrs Gradd Sylfaen mewn Gofal a Chymorth, Plentyndod Cynnar neu Waith Cymunedol a Chyflogadwyedd.

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig megis addysgu cynradd, blynyddoedd cynnar, cynhwysiant cymdeithasol, seicoleg neu gymdeithaseg.

Rhaglenni mynediad ar gyfer gyrfaoedd ym maes nyrsio plant neu waith cymdeithasol.

# Cerbydau Modur

## Prentisiaeth Sylfaen Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau (Lefel 2)

Campws Tycoch

Bwriedir y cwrs dwy flynedd hwn ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddilyn gyrfa ym maes cerbydau modur.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Iechyd a diogelwch
- Systemau trawsyrru
- Injans
- Llywio a breciau
- Systemau trydanol.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

Byddwch yn y Coleg un diwrnod yr wythnos a'r pedwar diwrnod arall mewn hyfforddiant yn y swydd.

Gofynion mynediad penodol:
Gradd D neu uwch mewn pedwar pwnc TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn (Lefel 1).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Prentisiaeth Cynnal a Chadw ac Atgyweirio (Lefel 3) sy'n hanfodol ar gyfer gwaith fel technegydd cerbydau modur.

## Prentisiaeth Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau (Lefel 3)

Campws Gorseinon

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn hanfodol i'r rhai a hoffai fod yn dechnegydd cerbydau modur cymwysedig.

Mae meysydd astudio'n cynnwys:
- Iechyd a diogelwch
- Systemau trawsyrru
- Injans
- Canfod namau
- Llywio a hongiad
- Systemau trydanol.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

Byddwch yn y Coleg un diwrnod yr wythnos a'r pedwar diwrnod arall mewn hyfforddiant yn y swydd.

Gofynion mynediad penodol:
Prentisiaeth Sylfaen (Lefel 2) neu Gynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Modur (Diploma Lefel 2).

Dilyniant/Gyrfaoedd:
Byddwch yn dechnegydd cerbydau modur cymwysedig.

Gall dilyniant i Lefelau 4, 5 a 6 arwain at gyflogaeth fel technegydd goruchwylio neu reolwr.

# Gwyddoniaeth



## Prentisiaeth Technegwyr Labordy a Gwyddoniaeth (Lefel 3)

Campws Tycoch

Byddwch yn cwblhau'r ddau gymhwyster canlynol fel rhan o'r fframwaith prentisiaethau.

Gwyddoniaeth Gymhwysol (Diploma Lefel 3) a Gweithgareddau Labordy a Thechnegol Cysylltiedig (NVQ Lefel 3).

Mae meysydd astudio'n cynnwys:

- Gweithio yn y diwydiant gwyddoniaeth
- Hanfodion gwyddoniaeth
- Technegau ymarferol gwyddonol
- Defnyddio offer mathemategol mewn gwyddoniaeth.

Byddwch hefyd yn astudio sgiliau hanfodol mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol.

### Gofynion mynediad penodol:

Pum gradd C neu uwch o leiaf ar lefel TGAU. Rhaid i'r rhain gynnwys Mathemateg, Saesneg ac o leiaf un pwnc Gwyddoniaeth.

### Dilyniant/Gyrfaoedd:

Prentisiaeth Technegwyr Labordy a Gwyddoniaeth (Lefel 4).

Astudiaethau pellach yn y brifysgol mewn pwnc cysylltiedig.




Yng Ngwobrau Prentisiaeth AAC 2019, cafodd y Coleg ei enwi yn **Ddarparwr y Flwyddyn Prentisiaethau Iechyd a Gwyddoniaeth.**